



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board



Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Cynllun Blynyddol 2026/27

Bwriad 3 Blynedd






Mae cynllun y Bwrdd Iechyd ('y Cynllun') ar gyfer 2026/27 yn nodi'r hyn a fydd yn cael ei gyflawni er budd poblogaeth Gwent yn ystod y tair blynedd nesaf, ond mae'n rhoi mwy o fanylion am y 12 mis nesaf. Yn dilyn lansio strategaeth sefydliadol newydd Gwent 35, mae'r Cynllun yn amlinellu'r camau gweithredu wedi'u targedu y byddwn yn eu cymryd yn erbyn y tri nod strategol;

- 1. Iechyd Gwell:** Gyda'n gilydd byddwn yn cefnogi pobl i fod yn iach, yn actif ac yn hapus.
- 2. Gofal Gwell:** Gyda'n gilydd byddwn yn darparu'r hyn sy'n bwysig i bobl, gan gefnogi ein staff i ffynnu a chyflawni gofal o ansawdd, gofal caredig a gofal cynaliadwy.
- 3. Bywydau Gwell:** Gyda'n gilydd byddwn yn creu cymunedau cryf, diogel a chysylltiedig.

Drwy'r Cynllun rydym yn benderfynol o wneud cynnydd o ran ein cyfeiriad strategol fel y'i nodir yng Ngwent 35 tra ar yr un pryd, fynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd uniongyrchol sy'n ymwneud â chyllid, gwasanaeth ac ansawdd:



Mae Ansawdd a Diogelwch yn parhau i fod yn linydd aur a gelir gweld tystiolaeth o'n cyflawniadau a'n hymrwymadau drwyddi draw. Mae'r cynllun yn nodi sut y byddwn yn mynd ati'n bwrpasol i hyrwyddo blaenoriaethau atal gan gynnwys rheoli iechyd y boblogaeth a gofal seiliedig ar le gan ddechrau mewn cymunedau difreintiedig. Bydd hyn yn amlwg drwy ein gwaith partneriaeth parhaus ledled Gwent.

Mae llawer wedi'i gyflawni yn ystod y 12 mis diwethaf gan gynnwys:

- Lleihau nifer y cleifion sy'n aros dros 104 wythnos am driniaeth
- Lleihau yn sylweddol nifer y cleifion sy'n aros dros 52 wythnos am ofal cleifion allanol
- Cyflawni dros 80% ar dargedau iechyd meddwl Rhan 1a a Rhan 1b ar gyfer oedolion a phlant
- Lleihau nifer yr oediadau wrth drosglwyddo cleifion rhwng ambiwlansys ac ysbyty'n sylweddol
- Cyrhaeddodd Ysbyty Athrofaol y Faenor ei gydymffurfiaeth 12 awr uchaf erioed
- Cynnydd parhaus wedi'i wneud o ran Oedi i Llwybrau Gofal drwy leihau faint o oedi sydd a nifer y dyddiau.
- Mae Pwysu a Mesur babanod 8 wythnos oed wedi gwella'n aruthrol drwy gydol y flwyddyn
- Parhau i symud gwasanaethau i'r gymuned trwy wasanaethau anhwylderau cyffredin a rhagnodi annibynnol mewn fferyllfeydd cymunedol

Er gwaethaf ein hymdrechion parhaus, mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod mewn statws uwchgyfeirio ymyrraeth wedi'i thargedu ym meysydd Cynllunio a Chyllid a Gofal Brys a Gofal Mewn Argyfwng. Mae hon wedi bod yn flwyddyn yn llawn heriau parhaus gan gynnwys:

- Cymhlethdod cynyddol cleifion yn achosi mwy o angen am ofal parhaus
- Pwysau sylweddol ar ein system yn ystod y Gaeaf gan arwain at ddigwyddiad critigol
- Cyd-destun ariannol heriol wedi'i gefnogi gan fentrau afreolaidd


Ar ôl y dudalen gynnwys, mae "cynllun ar ddalen" yn gosod y fframwaith ar gyfer y Cynllun ynghyd â Datganiad Cyflawni sy'n amlinellu'r prif ymrwymadau i'w cyflawni yn 2026/27. Mae'r allwedd isod yn cefnogi deall a chysylltu ymrwymadau ym mhob adran o'r Cynllun.

Categori Gweithredu	Codio Lliw
Uwchgyfeirio Sefydliad; Ymyrraeth wedi'i thargedu	TI
Camau Gweithredu Partneriaeth (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol/Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus)	P
Disgwyliadau Cyflawni'r Gweinidog (Fframwaith Cynllunio Llywodraeth Cymru)	MD
Camau Galluogi (Fframwaith Cynllunio Llywodraeth Cymru)	EA



Ein Cynllun ar Ddalen	4
Ein Datganiad Cyflenwi	5
Adran 1 Cyd-destun a Dull	
Cyd-destun Strategol	6
Ein Llwyddiannau	8
Ein Dull Cynllunio	9
Galw a Chapasiti	10
Uwchraddio Sefydliadol - Ymyrraeth wedi'i thargedu	11
Adran 2 Gyrwyr	
Cyd-asesiad Strategol	13
Gwent 35:	14
Ansawdd	15
Disgwyliadau Perfformiad	16
Cynaliadwyedd Ariannol	17
Risgiau	18
Adran 3 Nodau Strategol	
Gwell Iechyd	20
Gwell gofal	25
Bywydau Gwell	36
Adran 4 Galluogwyr	
Ansawdd	41

Adran 4 Galluogwyr	
Gweithlu a Diwylliant	44
Data a Thechnoleg Ddigidol	48
Ystadau	51
Cyllid	53
Iechyd gwyrdd	55
Gwerth, Arloesi ac Ymchwil	57
Ein Fframwaith Cyflawni	60
Atodiadau a Dogfennau Ategol Technegol	
A1: Disgwyliadau Cyflawni y Gweinidog	61
A2: Galluogi Camau Gweithredu	63
A3: Datganiadau Ansawdd	69
A4: Rhaglenni Blaenoriaeth	72
– Gofal sy'n Seiliedig ar Leoedd	72
– Gofal Brys a Gofal Mewn Argyfwng	77
– Gofal Wedi'i gynllunio	85
– Iechyd meddwl	89
A5: Datganiadau Effaith Cwrs Bywyd	93
A6: Disgwyliadau Perfformiad (Taenlen Excel)	
TSD1: Templedi Gweinidogol	
TSD2: Isafswm Set Data	
TSD3: Cynlluniau Rhwydweithiau Gofal yn y Gymdogaeth	





Mae'r datganiad cyflawni isod yn rhoi crynodeb clir o'r prif bethau a fydd yn cael eu cyflawni a'r blaenoriaethau ar gyfer 2026/27.

Newid Gwasanaeth



Prawf o gysyniad ar gyfer Gofal Seiliedig ar Lleoedd ym Mlaenau Gwent a Thorfaen

Ailgynllunio Llwybr Pobl Hŷn gan sicrhau gofal yn agosach at adref

Model gorau posibl ar gyfer Meddygaeth Acíwt gan gynnwys Derbyniadau Meddygol a'r sylfaen o ran gwelyau

Trawsnewid Iechyd Meddwl er mwyn cyflunio gwasanaeth ac ystadau

Cyflawni rhaglen Marwolaethau Cynamserol Ataliadwy a chamau gweithredu i drechu Diabetes

Datblygu'r Hwb Iechyd Menywod

Blaenoriaethau Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru drwy'r Cyd-bwyllgor Rhanbarthol

Symud gwaith ad-drefnu MatNeo yn ei flaen i ddatblygu lle gofal pontio a gwelyau ôl-enedigol ychwanegol

Perfformiad



Cyflawni 75% yn erbyn y Llwybr Canser Sengl

Cyflwyno meini prawf isgyfeirio ar gyfer UEC gan gynnwys gwelliant o ran trosglwyddo cleifion o Ambiwllans, cleifion yn aros 12 awr ac aros yn yr Adran Argyfwng i gael eu gweld

Lleihau oedi mewn llwybrau gofal i'r lefelau isaf erioed

Gweithio at dim cleifion yn aros mwy nag 8 wythnos am ddiagnosteg benodol

Gwella effeithlonrwydd theatrau ac adrannau cleifion allanol

Gwelliant ar 8 proses gofal ar gyfer Diabetes

Cynyddu capasiti nyrsio cymunedol ar benwythnos ymhellach

Parhau i gynnal rhan 1a ac 1b ar gyfer iechyd meddwl ar draws Oedolion, Plant a Phobl Ifanc

Galluogwyr



Ymgorffori System Rheoli Ansawdd gyson ar draws pob tîm rheng flaen

Parhau i gyflawni'r Cynllun Pobl gan ganolbwyntio ar gadw a denu, gan ddarparu cyfleoedd ar gyfer datblygiad gwaith a gyrfa teg ac ystyrlon

Arbedion ariannol sylweddol drwy ysgogi effeithlonrwydd a newid

Datblygu Strategaeth Ystadau wedi'i hadnewyddu a chynnal Arolwg o Agweddau

Rheoli RAAC NHH a datblygu Achos Busnes Amlinellol


Moderneiddio systemau digidol clinigol craidd gyda rhaglenni mawr gan gynnwys LIMS, RISP, Care Cubed ac Open Eyes

Datblygu cynllun ymateb i'r hinsawdd er mwyn ymgorffori addasu i'r hinsawdd a bioamrywiaeth datgarboneiddio

Parhau i ymgorffori Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth ac ehangu Ymchwil i sicrhau canlyniadau ystyrlon i gleifion



Mae'r Cynllun yn ymateb i nifer o ysgogwyr ar lefel y DU, lefel genedlaethol, lefel rhanbarthol a lefel lleol sy'n ffurfio'r cyd-destun strategol. Drwy gydol y cynllun rydym wedi dangos ein hymrwymiad i ddyletswyddau ansawdd a gonestrwydd, gan gynnwys cyflwyno datganiadau ansawdd sydd wedi llywio datblygiad ein cynllun cyflawni. Mae lansiad ein Strategaeth newydd Gwent 35 yn hyrwyddo iechyd y boblogaeth ac yn rhoi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth wraidd popeth a wnawn er mwyn gwella iechyd ein poblogaeth trwy bartneriaethau. Mae ein tri Nod Strategol, sef *Iechyd Gwell*, *Gofal Gwell*, *Bywydau Gwell*, hefyd yn gwasanaethu fel ein hamcanion lles sefydliadol fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.



Mae Fframwaith Cynllunio Llywodraeth Cymru yn nodi chwe blaenoriaeth strategol tair blynedd. Drwy gydol adran amcanion strategol ein cynllun, rydym wedi cynnwys y blaenoriaethau hyn a'r hyn y mae disgwyl ei gyflawni ym mlwyddyn 1 yn y meysydd canlynol

Mynediad Amserol at Ofal	Gwell gofal	Mynediad Iechyd Meddwl	Gwell gofal
Iechyd y Boblogaeth ac Atal	Gwell iechyd	Iechyd Menywod	Gwell gofal
Cymunedol o'r Cychwyn	Gwell gofal	Bywydau Gwell	Ansawdd



Rydym yn parhau i gydweithio ledled Cymru i gyflawni'r Fframwaith Glinigol Genedlaethol sy'n nodi gwasanaethau bregus a'r camau gweithredu y mae angen i ni eu cymryd gyda'n gilydd er mwyn sicrhau cynaliadwydd gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys croesawu arloesedd megis y Cynllun Cyflawni Genomeg.

Partner ac eiriolwr allweddol dros ein poblogaeth yw Llais, ac maent wedi cyhoeddi eu maniffesto a'u hegwyddorion pobl yn ddiweddar. Bydd Gwent35 yn ein galluogi i ymgorffori yr 8 egwyddor pobl ar draws ein sefydliad gan sicrhau ein bod yn cyflawni'r hyn sy'n bwysig i'n cymunedau;

- 1. Mynediad sy'n gweithio i bawb
- 2. Urddas a pharch, bob tro
- 3. Cyfathrebu clir a gonest
- 4. Gofal cydgysylltiedig sy'n teimlo'n ddi-dor
- 5. Gofal a chefnogaeth amserol wrth aros
- 6. Dylai gofal gydnabod ac ymateb i'r person cyfan
- 7. Gofal a chefnogaeth sy'n galluogi annibyniaeth
- 8. Gwasanaethau cynhwysol, hygyrch a theg i bawb

Rydym yn parhau i ymgorffori'r dyletswydd partneriaeth gymdeithasol a chyflwynwyd ein hadroddiad blynyddol ym mis Medi. Mae hwn wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan Adroddiad ar y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol.

Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau sy'n gweithio ar lefel Cymru gyfan sydd â blaenoriaethau cydweithredol y cytunwyd arnynt fel y crynhoir yn y tabl ar yr ochr dde. Gellir dod o hyd i'n hymrwymiaadau penodol ar gyfer rhanbarth De-ddwyrain Cymru yn ein hadran Cynllun Rhanbarthol yn nes ymlaen yn y ddogfen.

Sefydliad	Blaenoriaethau Cydweithredol
Iechyd a Gofal Digidol Cymru	- Cynlluniau ar waith i lifo data i'r Adnodd Data Cenedlaethol - Amnewid WCCIS Iechyd Meddwl a digideiddio gofal y llygaid cenedlaethol - Cefnogi'r gwaith o gyflwyno Ap y GIG a gwaith prawf o gysyniad ar gyfer e-atgyfeiriadau cenedlaethol - Cyflwyno datrysiaid digidol ar gyfer Rhaglen Plant Iach Cymru 2 a chyflwyno E-PMA - Caffael System Gwybodeg Radioleg, LIMS 2.0 a phatholeg cellog ddigidol genedlaethol
Addysg a Gwellu Iechyd Cymru	- Gwellu cadw staff a denu staff drwy gymysgedd mwy hyblyg o sgiliau - Cynlluniau gweithlu cenedlaethol ynghyd â phiblinellau Addysg, Hyfforddiant a Chomisiynu - Cynyddu'r cyflenwad drwy lwybrau mynediad gyrfa sy'n gwellu amrywiaeth ac yn ehangu mynediad - Creu diwyllianau tosturiol a chyflwyno rhaglenni arweinyddiaeth - Gwellu ansawdd ac effeithiolrwydd gwaith cynllunio'r gweithlu - Cefnogi'r broses o symud i gyflogaeth i fyfyrwyr a hyfforddeion ar ôl cymhwyso
Pwyllgor Cyd-Gomisiynu	- Ymchwiliadau Dwfn ar gyfer gwasanaethau'r arennau, ceisiadau gan gleifion a Thrombectomi - Adolygiadau Strategol ar gyfer Grwpiau Newyddenedigol, y Galon, Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Grwpiau Agored i Niwed a Model Gofal Dydd - Prosiectau Galluogi ar gyfer prosiect trawsnewid rheoli llwybrau ac atgyfeiriadau
Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru	- Parhau i gydweithio â chwsmeriaid er mwyn gyrru effeithlonrwydd, gwellu gwydnwch a chefnogaeth - Cefnogi safoni a gwerth a chynaliadwydd e.e. recriwtio, caffael a fferylliaeth
Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre	- Cynllun gweithlu oncoleg rhanbarthol - Adolygiad o Gam 2 Achos Busnes AOS Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru - Datblygu gwasanaethau Allgymorth SACT yng Ngwent - Gwaith parhaus hyd at wanwyn 2027 wedi'i alinio ag ago canolfan ganser newydd
Ymddiriedolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru	- Gweithio mewn partneriaeth ar raglenni sgrinio cenedlaethol a data gwyliadwriaeth - Cyflwyno mewnwelediadau data sy'n targedu rhaglenni gwaith atal - Cyfrannu at yr Adolygiad Cenedlaethol o Farwolaethau Plant ac ymgorffori camau gweithredu lleol - Datblygu a chyflwyno Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd
Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru	- Cefnogi cartrefi gofal drwy well addysg, prosesau uwchgyfeirio cadarn - Symleiddio mynediad at wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng trwy un pwynt mynediad - Darparu llwybrau lle cywir, y tro cyntaf ar gyfer cleifion priodol a allai elwa o gael asesiad cychwynnol amserol trwy wasanaeth arall



Drwy gydol 2025/26 rydym wedi gwneud nifer o gyflawniadau, isod mae detholiad ohonynt, wedi’u mapio yn erbyn y 12 Safon Ansawdd Iechyd a Gofal:

Arweinyddiaeth - Cwblhaodd 864 o gydweithwyr raglen arweinyddiaeth - Fframwaith Cynllunio Talent ac Olyniaeth wedi'i ymgorffori - Academi Arweinyddiaeth Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cefnogi dilyniant – 32% yn cael dyrchafiad - Rhaglen datblygu y Good Governance Institute gyda'r Bwrdd a'r tîm Gweithredol	Dull System Gyfan - Cryfhau arweinyddiaeth De-ddwyrain Cymru drwy'r Pwyllgor Rhanbarthol ar y Cyd - Cryfhau cyflawni mewn partneriaeth ar draws y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Byrddau Partneriaeth Gwasanaethau Integredig ym mhob ardal leol - Mwy o Ofal yn Seiliedig ar Leoedd drwy Dimau Integredig - Ymgorffori cefnogaeth i deuluoedd a phlant ar ffiniau gofal	Dysgu, gwella ac ymchwil - Lansiwyd Fframwaith a System Rheoli Ansawdd - Mwy o straeon cleifion a staff yn rhan graidd o ddysgu a gwella - Parhau i gyflwyno strategaeth ymchwil a datblygu a chyrraedd perfformiad ymchwil Amser i Darged o 80%. - Cyflawni rhaglenni addysg Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth lleol
Gweithlu - Cynllun Pobl 2025-30 wedi'i Adnewyddu wedi'i gymeradwyo a'i lansio - Lleihau swyddi gwag Nyrsio a Meddygol trwy waith recriwtio a chadw wedi'i dargedu - Llai byth o ddibyniaeth ar gyflog amrywiol - Cyfleoedd Ehangu Mynediad wedi'u gwella gan weithio gyda phartneriaid a darparwyr addysg	Diwylliant - Cryfhau diwylliant Codi Llais Heb Ofn - Cynydd yn arolwg Staff GIG Cymru, cynyddodd ymgysylltiad staff o 13.3% i 32.5% - Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau Newydd wedi'i chyd-gynhyrchu a'i lansio - Gwell diwylliant ansawdd, amrywiaeth a chynhwysiant wedi'i alinio â fframweithiau cenedlaethol	Gwybodaeth - Llawer o ddefnydd yn cael ei wneud o hyd o'r Llwyfan Llwybrau Iechyd: - Seilwaith data gwell ar gyfer adrodd o ansawdd - Gwell gwybodaeth am iechyd y boblogaeth drwy Gyd-asesiad Strategol - AMaT wedi'i ymgorffori fel un system archwilio dryloyw - Gwelliant parhaus a sylweddol o ran cydymffurfiaeth â Digwyddiadau a Gofnodwyd yn Genedlaethol
Diogel - Parhau i fod yn un o'r uchaf yng ngrŵp cyfoedion Cymru Gyfan ar gyfer Mynegai Marwolaethau wedi'i Addasu yn ôl Risg - Llwybr Cleifion sy'n Dirywio a Sepsis wedi'i gryfhau - Mwy o gydymffurfiaeth o ran Rheoli Atal Heintiau a Iechyd a Diogelwch - Gofal Diwedd Oes a Chymorth Mewn Profedigaeth wedi'u cryfhau (Model GRACE)	Amserol - Mwy o ddefnydd o Ofal Brys yr Un Diwrnod - Targedau Iechyd Meddwl Rhan 1a ac 1b yn rhagori ar y targed cenedlaethol o 80% ar gyfer pobl hŷn nag 18 a phobl iau nag 18. - Gwell llif Gofal Brys a Gofal Mewn Argyfwng Gwell a Throsglwyddiadau o Ambiwlans - Cynyddu capasiti diagnostig a lleihau arosiadau hir - Amseroedd aros byrrach ar gyfer triniaeth a chleifion allanol	Effeithiol - Parhau i wella cyfraddau Sylw yn ôl Symptomau a Apwyntiad Dilynol ar Gais y Claf - Ymateb i Eiddilwch Acíwt wedi'i gyflwyno ar draws pob safle - Mwy o bobl yn manteisio ar y Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin a chynnydd yn nifer y Fferyllfeydd sydd â Phresgripsiynwyr Annibynnol - Mae 161 o ardaloedd bellach yn cymryd rhan yn y rhaglen achredu wardiau - 38 wedi cael efydd a 10 wedi cael arian



Effeithlon

- Gwell effeithlonrwydd mewn theatrau a chamau breision o ran cynhyrchiant sy'n cyd-fynd â GIRFT
- Gostyngiad mewn adrodd diagnostig allanol
- Gwell effeithlonrwydd yn y Ganolfan Llif (atgyfeiriadau gan Feddygon Teulu a WAST)
- Yn Syth i Brofi Canser ailgynllunio'r llwybr
- Defnydd cynyddol o Restrâu Mawr Cymhlethdod Isel
- Wedi cyflawni arbedion ariannol o 40m

Teg


- Gwaith tegwch brechu wedi'i dargedu
- Allgymorth mewn cymunedau lle mae niferoedd sy'n manteisio ar atal a sgrinio canser yn isel
- Gwelliannau o ran Eiddilwch Acíwt a Diogelwch Pobl Hŷn
- Parhad Rhwydwaith Iechyd Menywod
- Bwrdd Ieuenctid Peilot i gryfhau llais pobl ifanc
- Rhaglen y Dechrau Gorau mewn Bywyd yn gwella tegwch yn ystod y blynyddoedd cynnar

Canolbwyntio ar y Person

- Casgliad PROMs a PREMs estynedig
- Datblygiad parhaus Canolfannau Iechyd a Lles
- Ehangu Rhaglen Atal Diabetes
- Gwell profiad o Gweithio i Wella yn sgil ymatebion mwy amserol
- Parhad o'r model presgripsiynu cymdeithasol sydd wedi'i gyd-gynhyrchu



Rydym wedi cyflwyno fframwaith gynllunio sefydliadol gryfach, gan alinio'r Cynllun â'r strategaeth newydd Iechyd Gwell, Gofal Gwell, Bywydau Gwell. Mae'r flwyddyn hon yn nodi newid sylweddol drwy osod ymrwymïadau aml-flwyddyn sydd â chysylltiad uniongyrchol â nodau strategol. Mae hyn yn ymgorffori'r gwaith cyflawni strategaeth yn benodol ym mhrosesau busnes craidd y sefydliad.




I arwain datblygiad y cynllun, gosodwyd nifer o dybiaethau cynllunio ac fe'u rhannwyd ledled y sefydliad gan amlinellu disgwyliadau a'r uchelgais sydd ei hangen o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Blaenoriaethu diogelwch cleifion a chymhwyso sgrinio QIA ar gyfer newidiadau sy'n effeithio ar ofal
- Cyflawni cyllideb gytbwys
- Symud i fodel gweithlu cynaliadwy a lleihau cyflog amrywiol
- Dangos cyfleoedd ar gyfer effeithlonrwydd o fewn capasiti craidd
- Gosod cynnydd realistig yn erbyn targedau Gweinidogol yn seiliedig ar yr adnoddau sydd ar gael

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran ailgynllunio gwasanaethau clinigol, gan ddechrau gyda datblygu modelau newydd cyn agor Ysbyty Prifysgol y Faenor (GUH). Ers i GUH ddod yn weithredol, mae'r rhaglen ailgynllunio clinigol wedi sbarduno newidiadau mawr i wasanaethau megis ad-drefnu'r Unedau Mân Anafiadau (MIU), adsefydlu strôc canolog, a darpariaeth mamolaeth ddiwygiedig. Mae datblygiadau sydd wedi digwydd ar yr un pryd wedi cryfhau modelau gofal Iechyd Meddwl ac wedi symud yr uchelgais ar gyfer Gofal yn Seiliedig ar Le yn ei blaen.

Yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda phartneriaid i sefydlogi gwasanaethau bregus a sicrhau cynaliadwyedd hirdymor. Mae sylfeini cynllun gwasanaethau clinigol eisoes wedi'u gosod; y cam nesaf yw dod â'r gwaith hwn at ei gilydd trwy ymgysylltu clinigol cadarn i sicrhau ei fod yn addas ar gyfer y dyfodol. Mae'r diagram cysylltiedig yn nodi'r camau allweddol sydd eu hangen i gwblhau'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol.



Cyfarfu Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru (RJC) am y tro cyntaf ym mis Hydref 2025 ac mae'n dwyn ynghyd BIPAB, BIP Caerdydd a'r Fro, a Cwm Taf Morgan i oruchwylio gwaith cynllunio rhanbarthol a darparu gwasanaethau ar gyfer poblogaeth o fwy nag 1.5 miliwn. Ar gyfer 2026/27, mae'r RJC wedi gosod pedair blaenoriaeth:


- Cyflwyno rhaglenni rhanbarthol presennol (Offthalmoleg, Orthopedig, Diagnosteg a Phecyn Iechyd Llantrisant (LHP))
- Datblygu model gweithredu ar gyfer y RJC gan gynnwys fframwaith ar gyfer comisiynu a contractio rhanbarthol.
- Creu proses i nodi a blaenoriaethu cyfleoedd ar gyfer gwasanaethau clinigol rhanbarthol.
- Datblygu a gweithredu cynllun digidol rhanbarthol i gefnogi gweithio rhanbarthol.



Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fireinio ac aeddfedu ei allu a'i fethodolegau o ran galw a chapasiti, ac mae uchafbwyntiau a heriau allweddol rhagolygon eleni yn cynnwys:

Gofal Sylfaenol a Chymunedol: Rhagwelir y bydd apwyntiadau GMS mewn Gofal Sylfaenol a Chymunedol yn gostwng 7.6% yn 25/26; ac nod oes disgwyl unrhyw welliant yn 26/27. Rhagwelir y bydd Gofal Sylfaenol Brys yn tyfu 4.8% yn dibynnu ar gyllid a llywio gofal. Wedi'i yrru gan y contract deintyddol newydd, disgwylir i weithgarwch Deintyddol Brys ostwng 7.5% yn 25/26, ac yna sefydlogi erbyn 26/27. Rhagwelir y bydd gweithgaredd optometreg yn codi 2% (2026/27), yn bennaf oherwydd WGOS 4 a 5, a rhagwelir y bydd gweithgaredd y Cynllun Anhwylderau Cyffredin yn tyfu'n sylweddol, o 19.1%, fodd bynnag, y risg o ran cyflawni hyn yw fferyllfeydd yn cau. Disgwylir i weithgarwch Nyrsio Ardal godi 3.4%. Mae'n debygol y bydd lleoliadau CHC yn aros ar y lefelau presennol yn dibynnu ar newidiadau mewn buddsoddiad.

Gwasanaethau Iechyd Meddwl, gan gynnwys Oedolion a CAMHS : Mae effaith Mynediad Agored yn dal i ddod i'r amlwg a gall effeithio ar y rhagdybiaethau presennol. Dim ond twf cymedrol yn y galw sydd i'w ddisgwyl ac mae gwaith modelu ar hyn o bryd yn dangos y gallu i gynnal lefelau perfformiad o 80%. Mae yna feysydd sy'n dynodi risg gynyddol oherwydd galw cynyddol ac ôl-groniad, yn enwedig ar gyfer Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a mynediad ADHD. Mae'r Gwasanaeth Asesu Cof hefyd yn profi mwy o atgyfeiriadau a rhestrau aros hirach, gyda'r galw'n fwy



Gofal Brys a Gofal Mewn Argyfwng Rhagwelir y bydd nifer y bobl sy'n mynychu'r Adran Argyfwng yn codi 2.4% yn 2026/27 ac mae rhagolygon yn awgrymu y bydd gweithgaredd yr MIU yn tyfu 6.4% (95,678 o fynychwyr). Disgwylir i weithgarwch Canolfannau Llif drwy atgyfeiriadau gan feddygon teulu gynyddu 6.5% a WAST 10% (15,000). Disgwylir i atgyfeiriadau meddygol o'r Adran Achosion Brys i'r Adran Arbenigol, trwy gwaith ailgynllunio'r llwybr, godi 21.3% (14,400) ac atgyfeiriadau llawfeddygol i fyny 13.9% (13,308). Rhagwelir hefyd y bydd derbyniadau i wardiau meddygol aciwt yn cynyddu 3.91%; a derbyniadau i SAU 5.46%. Rhagwelir y bydd nifer y bobl sy'n mynychu asesiadau brys yn gyffredinol yn codi 3.8% oherwydd cynnydd yn y galw, a rhagwelir y bydd derbyniadau cleifion mewnol brys yn codi 4.1%.

Diagnosteg: Ar gyfer CT 26/27 bydd y galw yn tyfu 6%, gan olygu bod angen capasiti o 93,100 o'i gymharu â galw o 100,206. Rhagwelir y bydd gweithgaredd MRI yn 40,000, sy'n gynydd o 5% o 25/26. Mae'r galw am uwchsain an-obstetrig (NOUS) yn parhau'n uchel, mae angen capasiti o 46,590 yn erbyn galw o 61,452; wedi'i gefnogi gan 9,804 o oriau asiantaeth neu locwm. Mae gwelliannau wedi galluogi dileu allanoli Plain Film a rhagwelir bod y capasiti ar gyfer 26/27 wedi'i osod ar 262,392. Ni ragwelir y bydd gweithgaredd Meddygaeth Niwclear yn cynyddu. Rhagwelir y bydd Cardioleg Ddiagnostig a Niwroffisioleg yn cynnal sefyllfa rhestr aros sero a thrwy gyflawni'r cynllun Endosgopi bydd gweithgaredd yn cynyddu i 22,452 o gleifion a sefyllfa rhestr aros sero. Mae cyflawni o ran arosiadau am ddiagnostig yn parhau i fod yn fregus oherwydd pwysau yn ystod y flwyddyn a bydd y risg cysylltiedig angen ei monitro'n agos.

Dewisol: Rhagwelir y bydd y galw yn codi yn 2026/27, gyda chynnydd o 4.2% mewn atgyfeiriadau 25/26. Mae ffocws ar gyfleoedd cynhyrchiant ac effeithlonrwydd hefyd yn effeithio ar ragolygon. Disgwylir i apwyntiadau cleifion allanol newydd gynyddu 6.8% a bydd apwyntiadau dilynol yn codi 9.9%. Rhagwelir y bydd gweithgaredd achosion dydd yn codi 7.7% wrth i gynlluniau symud ymlaen i symud mwy o weithgaredd i achosion dydd, a rhagwelir y bydd triniaethau wedi'u cynllunio'n gostwng 11%. Bydd cyfanswm y triniaethau yn codi 2.7% oherwydd gwell effeithlonrwydd theatrau a gweithredu safonau GiRFT. Bydd atgyfeiriadau canser yn tyfu 3%, ac yn sefydlogi ar ôl cynnydd ar ôl y pandemig. Er bod y trywydd presennol yn rhagweld y bydd tua 3,000 o gleifion yn aros dros 104 wythnos, bydd cyfleoedd i wella hyn yn fewnol yn parhau i gael eu harchwilio ac os bydd arian ychwanegol ar gael, mae cynlluniau cyflawni drafft ar waith i gyflawni 0 cleifion dros 104 wythnos, yn amodol ar amseriad penderfyniadau.



Mae Fframwaith Goruchwyllo ac Uwchgyfeirio Llywodraeth Cymru yn nodi'r dull o uwchgyfeirio sefydliadau'r GIG yn genedlaethol. Ym mis Rhagfyr 2025, codwyd statws uwchgyfeirio cenedlaethol y Bwrdd Iechyd i **Ymyrraeth Wedi'i Thargedu** (Lefel 4) ar gyfer Cyllid, Strategaeth a Chynllunio, a Gofal Brys a Gofal Mewn Argyfwng. Mae Llywodraeth Cymru yn olrhain cynnydd drwy gyfarfodydd goruchwyllo misol ac yn fewnol drwy nifer o fecanweithiau. Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i isgyfeirio hefyd yng nghyd-destun y Fframwaith Rheoli Perfformiad ac Atebolrwydd wedi'i adnewyddu a gymeradwywyd ym mis Medi 2025, a'r hunanasesiad yn erbyn y Matrics Aeddfedrwydd Cynllunio 2025 wedi'i ddiweddarau. Bydd ffocws yn parhau yn 2026/27 ar y camau gweithredu a'r gwelliannau sydd eu hangen i gyflawni isgyfeirio. Cyhoeddwyd Fframwaith Uwchgyfeirio penodol i'r Bwrdd Iechyd ym mis Ionawr 2026 ac mae'n cadarnhau'r trefniadau rhyngwyneb a'r meini prawf isgyfeirio:

Cyllid	Strategaeth a Chynllunio
- Dangos bod trefniadau llywodraethu ariannol cadarn ac amgylchedd rheoli cyllid cadarn ar waith a bod risgiau cyn ised â phosibl - Gwneud cynnydd sylweddol wrth gyflawni'r cynllun gweithredu lefel 4, gan gynnwys camau gweithredu i wella dealltwriaeth y sefydliad o'r diffyg presennol a'r prif ysgogwyr a datblygu a gwireddu cyfleoedd. - Dangos cynllun pendant, credadwy a chyraeddadwy i gyflawni cydbwysedd ariannol.	- Cyflwyno cynllun tymor canolig tair blynedd cytbwys a chredadwy neu gynllun blynyddol derbynol yn unol â'r fframwaith gynllunio bresennol. - Dangos tystiolaeth o fap ffordd clir a chyflwyno cynllun gwasanaethau clinigol y bwrdd iechyd. - cynyddu hyder Llywodraeth Cymru mewn cyflawniad yn seiliedig ar asesiad yn erbyn matrics aeddfedrwydd cynllunio y cytunwyd arno. - Cyflawni'r ymrwymadau a nodir yn y cynllun blynyddol.

Perfformiad a Chanlyniadau
- Gostyngiad parhaus yn nifer y trosglwyddiadau ambiwlans mewn awr o leiaf 11% mewn tri mis yn olynol a'i gynnal am dri mis (llinell sylfaen y cytunwyd arni o 658). - Gwelliant parhaus tuag at ddim mwy na 7% o gleifion yn aros dros 12 awr ym mhob safle ac ar draws y Bwrdd Iechyd (llinell sylfaen y cytunwyd arni o 7.6%). - Ni ddylai'r amser canolrifol o gyrraedd adran argyfwng i gael asesiad gan glinigydd a all wneud penderfyniadau fod yn fwy na 60 munud (llinell sylfaen y cytunwyd arni o 147 munud). - Gostyngiad parhaus mewn oedi o ran llwybrau gofal (gyda ffocws ar yr oedi a achosir gan broblemau asesu) o 5% am dri mis yn olynol ac yna'n cael ei gynnal (llinell sylfaen y cytunwyd arni o 165).

Mae gan y Bwrdd Iechyd uchelgais bendant ar gyfer isgyfeirio o lefel 4 yn y ddau faes ac mae wedi ymrwymo, trwy'r ymrwymadau yn y cynllun hwn, i wneud cynnydd yn erbyn yr uchelgais hon i ddarparu llwyfan cynaliadwy ar gyfer isgyfeirio pellach ac mae'n awyddus i weithio gyda Llywodraeth Cymru a NHS P&I er mwyn cyflawni'r gwelliannau gofynnol. Mae'r camau gweithredu a'r cyflawniad, fel y'u nodir drwy gydol y cynllun, hwn yn cyd fynd â manylion cynllun adfer UEC a'r meini prawf isgyfeirio. Yn yr un modd, mae adran ariannol y cynllun a'r manylion sylfaenol yn cefnogi nifer o'r gofynion ariannol.

Mae'r fframwaith uwchgyfeirio yn nodi'r gofyniad i ddiweddarau hunanasesiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn 6 pharth Matrics Aeddfedrwydd Cynllunio Llywodraeth Cymru. Crynhoir yr asesiad hwn isod ac mae sylfaen dystiolaeth sy'n cefnogi hyn.

1. Datblygu Strategaeth/Eglurder Diben, Gweledigaeth a Strategaeth	Lefel 3 wedi'i hasesu	4. Cynllunio Gweithredol	Lefel 3 wedi'i hasesu
2. Aliniad Strategaeth a Datblygu IMTP	Lefel 2 wedi'i hasesu	5. Realistig a chyraeddadwy	Lefel 3 wedi'i hasesu
3. Cynllunio deinamig ac ymgysylltiedig	Lefel 3 wedi'i hasesu	6. Dull Arfer Gorau ar gyfer gwella -	Lefel 3 wedi'i asesu

Adran 2: Gyrwyr

Cyd-asesiad
Strategol

Gwent 35

Ansawdd

Disgwyliadau
Perfformiad

Cynaliadwyed
d Ariannol

Risgiau








Mae'r Cyd-asiad Strategol (JSA) yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o iechyd a lles pobl Gwent mewn fformat hygyrch. Mae pŵer sgysiau sy'n seiliedig ar ddata drwy lens atal wedi dod yn amlwg ers sefydlu'r JSA, ac mae hyn yn cefnogi'r rhanbarth i fynd i'r afael â gwraidd y problemau. Mae'r PSB a'r RPB ill dau wedi derbyn JSA Gwent fel yr "un ffynhonnell o wirionedd".

Gall y JSA lywio'r gwaith o wneud penderfyniadau drwy ddarparu'r sail dystiolaeth i wneud newid cadarnhaol drwy ddata unedig a chysylltiedig. Mae sefydlu a rhannu hyn gyda phartneriaid wedi caniatáu i'r ffocws symud at dull iechyd y boblogaeth ehangach.

Mesur clir o anghydraddoldeb ledled Gwent yw'r gwahaniaeth mewn disgwyliad oes iach, ac yng Ngwent y mae'r bwlch mwyaf o unrhyw Fwrdd Iechyd yng Nghymru. Mae dynion o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig yn byw 12.8 mlynedd yn hirach mewn cyflwr bywyd iach nag yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Mae menywod yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig yn byw 20.5 mlynedd yn hirach mewn cyflwr iach o'i gymharu â menywod yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.

Mae'r JSA yn parhau i ddatblygu wrth i gytundebau rhannu data gyda phartneriaid gael eu sefydlu.

Mae'r adnewyddiad nesaf wedi'i gynllunio ar gyfer dechrau 2026/27 yn dilyn mireinio ac ehangu yn seiliedig ar ymgysylltiad eang â rhanddeiliaid.





Ym mis Gorffennaf 25, cymeradwywyd y strategaeth newydd ar gyfer y Bwrdd Iechyd gan y Bwrdd, Gwent 35: Iechyd Gwell, Gofal Gwell, Bywydau Gwell Gwent 35: Ein Strategaeth Deng Mlynedd:

Mae'r strategaeth yn arwydd o newid sylweddol – gan ailgydbwysu'n sylfaenol y ffocws tuag at gymunedau iach tra'n nodi'r bwriad i gael ein pweru gan arloesedd a gwelliant ym mhopeth a wnawn. Mae'n gosod yr uchelgais erbyn 2035 ein bod eisiau i bawb gael y cyfle i fyw bywyd hir ac iach a chael gwell disgwyliad oes iach.

Ar ôl gwrandao ar yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwent, a dysgu o ymchwil, datblygom dri nod;

- Iechyd Gwell:** Gyda'n gilydd byddwn yn cefnogi pobl i fod yn iach, yn actif ac yn hapus.
- Gofal Gwell:** Gyda'n gilydd byddwn yn darparu'r hyn sy'n bwysig i bobl, gan gefnogi ein staff i ffynnu a chyflawni gofal o ansawdd, gofal caredig a gofal cynaliadwy.
- Bywydau Gwell:** Gyda'n gilydd byddwn yn creu cymunedau cryf, diogel a chysylltiedig.

Mae'r gwerthoedd sy'n sail i'r strategaeth yn rhan annatod o'r cyfeiriad strategol. Gwerthoedd newydd y cytunwyd arnynt sef — Caredigrwydd, Gonestrwydd, a Pharch — yw sylfaen y gofal tosturiol a ddarperir, y perthnasoedd, a'r diwylliant sydd ei angen ar gyfer y dyfodol. Mae'r canlyniadau ar gyfer cyflawni ein uchelgais ar gyfer 2035 yn canolbwyntio ar:

- Lleihau cyffredinrwydd clefydau y gellir eu hatal a'r ffactorau sy'n cyfrannu at iechyd gwael a chefnogi ymddygiadau iach
- Gwella safonau gofal a mynediad at wasanaethau lleol i alluogi diwrnodau iach y tu allan i ysbytai
- Gwella mynediad at wasanaethau gofal iechyd i bob cymuned, cysylltiad cymunedol a chyfran y gyllideb sy'n cael ei gwario ar wasanaethau y tu allan i'r ysbyty.

Mae cynllun cyflawni a defnyddio yn sail i'r strategaeth er mwyn sicrhau bod Gwent 35: Iechyd Gwell, Gofal Gwell, Bywydau Gwell nid yn unig yn llywio trywydd gwasanaethau ond yn siapio'r "model gweithredu" ar gyfer y Bwrdd Iechyd, gan ymgorffori bwriad y strategaeth ym mhopeth a wnawn. Bydd adroddiad blynyddol ar gyflawni a defnyddio'r strategaeth yn cael ei ddatblygu yn ystod Medi 26.


Cyflawni Strategaeth: Beth rydym yn ei wneud

Mae'r strategaeth yn nodi'r camau gweithredu strategol ar gyfer 2026/27 a thu hwnt. Bydd y Cynllun hwn ac IMTPs y dyfodol yn gyfrwng allweddol ar gyfer gyrru'r strategaeth. Bydd yn amlinellu'r camau gweithredu dros gyfnodau o 3 blynedd. Mae dwy brif elfen sy'n cefnogi cyflawni strategaeth. Y fframwaith canlyniadau a'r cynlluniau strategol yw'r allwedd i lwyddiant

Defnyddio'r Strategaeth: Sut ydym ni'n gwneud hyn

Mae defnyddio strategaeth yn ymwneud â "Sut" fel sefydliad yr ydym yn ailgyfeirio, yn adolygu ac yn adnewyddu'r ffordd yr ydym yn gweithio (ein model gweithredu) i sicrhau bod bwriad, uchelgeisiau a nodau'r strategaeth yn rhedeg drwy bopeth a wnawn.

Mae gwaith wedi dechrau i adolygu, profi a chryfhau Model Gweithredu'r Bwrdd Iechyd gan ystyried Diwylliant a Ffyrdd o Weithio, Dylunio Sefydliadol, Technoleg a Seilwaith, Llywodraethu ac Atebolrwydd, Prosesau a Phartneriaethau. Gellir dod o hyd i'r cynllun gweithredu manwl yn Making it Happen, our strategy deployment & delivery plan . Mae'r camau gweithredu wedi'u selio ar y themâu isod. Mae'r cynllun gweithredu hwn yn ddogfen fyw a bydd yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu cynllun gwaith y Model Gweithredu sy'n esblygu.






Ansawdd, diogelwch a phrofiad cleifion yw prif bwrpas y Bwrdd Iechyd o hyd, a chaiff hyn ei atgyfnerthu gan Ddeddf Ansawdd ac Ymgysylltu (Cymru) 2020, sy'n cyflwyno dyletswyddau newydd ar gyfer ansawdd, gonestrwydd a llais y dinesydd. Mae'r dyletswyddau hyn yn gofyn am wneud penderfyniadau tryloyw, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n gwella canlyniadau, profiad a thegwch.

Yn 2026/27, mae ansawdd yrrwr strategol o ran perfformiad a gwelliant y system, nid swyddogaeth sicrwydd yn unig. Byddwn yn parhau i aeddfedu ein Fframwaith Rheoli Ansawdd ac yn ymgorffori'r System Rheoli Ansawdd fel y dull ar gyfer darparu gofal diogel, effeithiol a thosturiol ar raddfa eang. Mae ansawdd yn llywio'r ffordd y caiff gwasanaethau eu trawsnewid, y ffordd y caiff y gweithlu ei gefnogi, y ffordd y caiff data ei ddefnyddio, a'r ffordd y mae iechyd y boblogaeth yn gwella.


Yn ystod y tair blynedd diwethaf, rydym wedi cryfhau ein dull gweithredu drwy'r Strategaeth Ansawdd, y Strategaeth Profiad a Chynnwys Cleifion, a'r Fframwaith Gwrandio a Dysgu. Gyda'i gilydd, mae'r rhain wedi creu diwylliant dysgu mwy cydlynol a system-gyfan yn seiliedig ar fod yn agored, tosturi a diogelwch seicolegol.



Ein huchelgais yw dod yn sefydliad hynod ddibynadwy lle mae ansawdd yn rhywbeth byw ac nid yn rhywbeth yr adroddir arno yn unig. Mae hyn yn golygu:

- 1. Gwella canlyniadau a lleihau amrywiad diangen
- 2. Cryfhau llais a phrofiad cleifion, teuluoedd a chymunedau
- 3. Ymgorffori Diwylliant Cyfiawn a diogelwch seicolegol
- 4. Sicrhau tryloywder, atebolrwydd a dysgu
- 5. Adeiladu gallu i wella ar draws y system gyfan

Ein blaenoriaethau strategol ar Ansawdd ar gyfer 2026/27 yw:



Wrth i ni edrych ymlaen, byddwn hefyd yn paratoui i fabwysiadu'r Fframwaith Genedlaethol ar Ddiogelwch newydd ar ôl iddi gael ei chyhoeddi. Bydd hyn yn sicrhau aliniad â safonau cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg ac yn atgyfnerthu ein hymrwymiad i ddiogelwch rhagweithiol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Yn ystod 2026/27 bydd ansawdd yn gyrru:


- **Trawsnewid gwasanaethau** drwy lwybrau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac ailgynllunio sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau
- **Lles y gweithlu a chadw staff** drwy ddiogelwch seicolegol a Diwylliant Cyfiawn
- **Arloesedd digidol** trwy welededd amser real a data awtomatig o safon
- **Cynaliadwyedd ariannol** drwy leihau niwed, gwastraff ac amrywiad diangen
- **Gwella iechyd y boblogaeth** drwy fynediad cyfartal, profiad bywyd a llais y gymuned

Yn 2026/27, rydym wedi ymrwymo i ddarparu gofal diogel, effeithiol a thosturiol drwy ymgorffori ansawdd fel gyrrwr strategol perfformiad y system. Drwy system rheoli ansawdd gryfach, fframwaith ansawdd wedi'i moderneiddio, diwylliant sy'n seiliedig ar fwy o ddysgu a ffocws ar ganlyniadau a phrofiad, byddwn yn adeiladu system iechyd fwy dibynadwy, tryloyw a thosturiol i'n poblogaeth.



Mae'r disgwyliadau perfformiad a nodir yn y cynllun hwn yn deillio o bedwar maes allweddol o flaenoriaeth genedlaethol a lleol:

- **Fframwaith Cynllunio GIG Cymru**, sy'n amlinellu Disgwyliadau Cyflawni' Gweinidogol a Chamau Galluogi ategol.
- **Fframwaith Perfformiad GIG Cymru**, sy'n adlewyrchu'r blaenoriaethau o fewn Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2026–2029 ac sydd wedi'i halinio â phedair nod 'Cymru Iachach'.
- Meini prawf Isgyfeirio Llywodraeth Cymru, **sy'n gysylltiedig â statws uwchgyfeirio cenedlaethol y Bwrdd Iechyd o ran Ymyrraeth Wedi'i Thargedu ar gyfer Gofal Brys a Gofal Mewn Argyfwng (UEC).**
- Mesurau perfformiad mewnol **y Bwrdd Iechyd, sydd wedi'u halinio â Strategaeth Gwent 35 ac sy'n cynrychioli meysydd allweddol o ran cyflawni a gwella sefydliadol.**



Ar gyfer 2026/27, mae'r cynllun yn cynnwys 81 o fesurau perfformiad yn erbyn 3 nod y strategaeth, **Iechyd Gwell, Gofal Gwell, Bywydau Gwell**, ac ar draws y 4 maes fel a ganlyn:

- 23 Disgwyliad Cyflawni Gweinidogol (MDEs)
- 5 Cam Galluogi wedi'u cynnwys fel mesurau perfformiad craidd
- 2 fesur yn ymwneud â meini prawf isgyfeirio Ymyrraeth wedi'i Thargedu, gyda'r ddau sy'n weddill eisoes wedi'u cynnwys o fewn MDEs
- 51 mesur wedi'u tynnu o Fframwaith Perfformiad GIG Cymru neu fesurau mewnol y Bwrdd Iechyd

Mae'r trywydd sy'n gysylltiedig â phob mesur perfformiad yn cydbwyso uchelgais â gwelliant y gellir ei gyflawni, wedi'u gosod o fewn realiti cyfyngiadau gweithredol a phamor gyflym y gellir cyflawni ein rhaglenni strategol. Ar lefel uchel, mae'r disgwyliadau o ran perfformiad yn y cynllun hwn yn anelu at gyflawni'r canlynol:

Iechyd Gwell	Byddwn yn cryfhau ein ffocws ar atal ac iechyd y boblogaeth, gan sbarduno gwelliant cynaliadwy yn y nifer sy'n cael eu brechu, yn enwedig ymhlith pobl iau a hŷn, gan leihau anghydraddoldeb rhwng y cymunedau mwyaf a lleiaf difreintiedig. Byddwn yn parhau i fonitro'r ddarpariaeth yn erbyn mesurau Plant Iach Cymru i sicrhau'r dechrau gorau posibl mewn bywyd, gan gynyddu cyfran y plant sydd â phwysau iach. At hyn, byddwn yn parhau i flaenoriaethu atal cyflyrau hirdymor (LTCs) a gwella'r modd y rheolir a chanlyniadau pobl sydd eisoes yn byw gyda nhw.
Gofal Gwell	Byddwn yn cynyddu capasiti cymunedol i ddarparu dewisiadau amgen diogel ac effeithiol yn hytrach na defnyddio llwybrau traddodiadol gofal sylfaenol neu gofal eilaidd. Drwy ein cynllun adfer gofal brys, byddwn yn cyflawni gwelliannau ar draws y llwybr, gan alluogi llif gwell trwy'r system gyfan fel bod cleifion yn symud yn fwy effeithlon i gam nesaf eu gofal. Bydd hyn yn lleihau oedi wrth drosglwyddo cleifion o ambiwlansys, arosiadau hirach yn yr Adran Achosion Brys, oedi wrth ryddhau cleifion ac yn gwella cyfraddau rhyddhau cyffredinol. O fewn Gofal Wedi'i Gynllunio, byddwn yn anelu at sicrhau nad oes unrhyw glaf yn aros mwy nag 8 wythnos am brofion diagnostig. Byddwn hefyd yn gwella cydymffurfiaeth â'r Llwybr Lle'r Amheuir Canser i gyflawni'r safon genedlaethol o 75%. Ym maes Iechyd Meddwl, byddwn yn parhau i gyflawni'r safonau cenedlaethol ar gyfer Rhannau 1a, 1b a 2, ac yn gwella perfformiad yn erbyn y safon Therapiau Seicolegol 26 wythnos.
Bywydau Gwell	Byddwn yn cynyddu cysylltiadau gyda chleifion ar benwythnosau trwy dimau Nyrsio Ardal, gan sicrhau gofal diogel a pharhaus gartref ac atal derbyniadau i'r ysbyty y gellir eu hosgoi. Byddwn hefyd yn gwella cyfran yr atgyfeiriadau Gofal Lliniarol Arbenigol sy'n cael eu hasesu o fewn dau ddiwrnod, gan gydnabod pwysigrwydd cefnogaeth arbenigol ac amserol i bobl â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd a'u teuluoedd. Byddwn yn monitro ymgysylltiad â gwefan Melo, sy'n darparu mynediad uniongyrchol at adnoddau hunangymorth dibynadwy, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, heb yr angen am atgyfeiriad nac apwyntiad, gan leihau rhwystrau o ran cymorth iechyd meddwl a lles.




Mae GIG Cymru yn parhau i fod dan bwysau ariannol sylweddol a pharhaus, ac mae diffygion strwythurol, pwysau galw, costau gweithlu, a thwf cyllidebol cyfyngedig yn nodweddiadol. Mae archwiliadau annibynnol diweddar, dogfennau cyllideb, a thystiolaeth y Senedd yn tynnu sylw at system sy'n ei chael hi'n anodd cyrraedd cydbwysedd ariannol er gwaethaf buddsoddiad cynyddol ac ymdrechion sylweddol i arbed.

Mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd ddatblygu cynllun ariannol sy'n cydbwysu dros gyfnod treigl o 3 blynedd. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi gallu gweithredu o fewn y cyllid sydd ar gael ac mae ganddo ddiffyg treigl dros 3 blynedd. Mae'r rhagolygon ar gyfer 2026/27 yn parhau i fod yn heriol yn ariannol yn seiliedig ar uchelgeisiau gweithredol a pherfformiad y Bwrdd. Mae'r Bwrdd wedi cynghori Llywodraeth Cymru ei bod yn debygol y bydd rhagolwg o ddiffyg ariannol ar gyfer 2026/27, ac yn unol â chanllawiau bydd y Bwrdd yn cynhyrchu cynllun ariannol blyneddol ar gyfer 2026/27, gyda'r uchelgais i gael cydbwysedd ariannol unwaith eto dros gyfnod o 3 blynedd.

Mae'r Fframwaith Perfformiad ac Atebolrwydd wedi'i hen sefydlu ac mae Cyllid yn un o'r pum parth perfformiad ac atebolrwydd. Mae gennym fecanwaith a strwythur Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd wedi'i sefydlu a fydd yn cael ei ddefnyddio i chwilio'n barhaus am gyfleoedd pellach a chyflenwad o arbedion posibl yn y dyfodol. Dyma fydd y prif fecanweithiau o ran sicrhau adferiad ariannol hirdymor drwy lwybr diwygiedig tuag at gynaliadwyedd a chydbwysedd ariannol.

Yn dilyn datblygu'r cynllun hwn, mae rhaglenni gwaith ailgynllunio gwasanaethau allweddol wedi'u nodi gydag Arweinwyr Gweithredol dynodedig yn ogystal â'r meysydd thematig sydd hefyd ag Arweinwyr Gweithredol. Mae'r rhain wedi'u crynhoi isod;





Mae 9 risg strategol sy'n cael eu rheoli a'u monitro ar lefel y Bwrdd. Mae'n hanfodol bod y Cynllun yn cydnabod ac yn ymateb i'r risgiau hyn er mwyn sicrhau ei fod wedi'i seilio ar faterion a heriau go iawn. Mae'r tabl isod yn crynhoi pob un o'r risgiau strategol ac yn tynnu sylw pa ran yn y cynllun y mae'r camau gweithredu yr ydym yn eu cymryd i leihau'r risg.

Mae risg bod	Oherwydd	Sgôr	Adran yn y Cynllun
Ni fydd y Bwrdd Iechyd (BI) yn gallu darparu a chynnal gwasanaethau diogel a chynaliadwy o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion newidiol y boblogaeth.	Recriwtio a chadw staff; Lles Staff; Lefel Arweinyddiaeth; Modelau gwasanaeth.	12	Gweithlu a Diwylliant Nodau Strategol
	Gweithredu diwydiannol.	16	
	Cynlluniau strategol.	8	
	Cyllid cynaliadwy.	20	Cyllid
	Methu â gweithredu'r gwelliannau perfformiad gofynnol mewn rhai meysydd o'r sefydliad.	12	Perfformiad Gweithlu a Diwylliant
Bydd Ystâd y BI yn methu'n sylweddol.	Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC).	15	Ystadau
	Ôl-groniad cynnal a chadw.	12	
Nid yw'r BI yn gallu ymateb mewn ffordd amserol, effeithlon ac effeithiol i ddigwyddiad mawr, digwyddiad parhad busnes neu ddigwyddiad critigol.	Trefniadau cynllunio brys aneffeithiol ac annigonol.	8	Nodau Strategol
	Trefniadau annigonol ar draws pob maes gwasanaeth.	12	
Ni fydd y BI yn gallu darparu a chynnal gwasanaethau diogel o ansawdd uchel ar draws y system gofal iechyd gyfan.	Trefniadau annigonol i gefnogi llif cleifion ar draws y system.	16	Nodau Strategol
Mae gan y Bwrdd Iechyd seilwaith a systemau digidol annigonol i gynnal darpariaeth gwasanaeth diogel o ansawdd uchel.	Methiant llwyr neu rannol systemau presennol.	16	Digidol
	Gweithredu systemau newydd; Methu â datblygu atebion cynaliadwy ac addas ar gyfer y dyfodol.	12	
Ni fydd y BI yn gallu darparu gwasanaethau iechyd a gofal gwirioneddol integredig i'r boblogaeth.	Tebygolrwydd o fesurau cyni pellach.	8	Nodau Strategol
	Effaith gwasanaethau bregus.	9	
Mae'r BI yn methu â meithrin perthnasoedd cadarnhaol â chleifion, staff a'r cyhoedd.	Trefniadau annigonol i wrando a dysgu o brofiad cleifion a galluogi cyfranogiad cleifion.	8	Ansawdd
Bydd y BI yn methu â diogelu Iechyd a Diogelwch staff, cleifion ac ymwelwyr yn unol â'i ddyletswyddau o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974.	Systemau, prosesau, llywodraethu a threfniadau sicrwydd annigonol ac aneffeithiol.	12	Ansawdd Gweithlu a Diwylliant
Ni fydd y Bwrdd Iechyd yn gallu cyrraedd y targed lleihau carbon a osodwyd gan Lywodraeth Cymru o ostyngiad o 16% erbyn 2025 a gostyngiad o 34% erbyn 2030.	Cyfngiadau o ran newid yr ystâd a gweithredu newidiadau strategol ar raddfa fawr.	15	Iechyd gwyrdd

Adran 3: Nodau Strategol

Iechyd Gwell: Gyda'n gilydd byddwn yn cefnogi pobl i fod yn iach, yn actif ac yn hapus.	Diogelu Iechyd	Gwella Iechyd
	Atal	Babanod, Plant a Phobl Ifanc
Gofal Gwell: Gyda'n gilydd byddwn yn darparu'r hyn sy'n bwysig i bobl, gan gefnogi ein staff i ffynnu a chyflawni gofal o ansawdd, gofal caredig a gofal cynaliadwy.	Gofal sy'n Seiliedig ar Leoedd	Mynediad a Chynaliadwyedd
	Gwella Ansawdd a Phrofiad	Ymgorffori Gwerth ac Effeithlonrwydd
Bywydau Gwell: Gyda'n gilydd byddwn yn creu cymunedau cryf, diogel a chysylltiedig.	Mannau Iach	Cymunedau Gwydn a Chysylltiedig
	Mannau Diogel	Ansawdd bywyd

Drwy gydol yr adran hon rydym wedi croesgyfeirio'n ôl at y Templedi Gweinidogol (MT) yn y Dogfennau Ategol Technegol e.e. [MT: Cymunedol o'r Cychwyn]

Iechyd Gwell: Gyda'n gilydd byddwn yn cefnogi pobl i fod yn iach, yn actif ac yn hapus.

Canlyniadau:

Bydd newid cadarnhaol yn digwydd o ran y ffactorau sy'n cyfrannu at iechyd gwael

Bydd mwy o bobl â Phwysau Iach

Bydd gostyngiad mewn clefydau y gellir eu hatal

Blaenoriaethau

Diogelu Iechyd

Gwella Iechyd

Atal

Babanod, Plant a Phobl Ifanc

Datganiadau Ansawdd

DIOGEL

Gwella gwasanaethau rheoli cyflyrau cronig er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw risg gynyddol ar draws y boblogaeth gyfan

EFFEITHIOL

Hyrwyddo iechyd, ar draws cwrs bywyd, trwy ddarparu cyngor ar ffordd iach o fyw

TEG

Ymgysylltu â'r boblogaeth er mwyn nodi'r heriau maen nhw'n eu hwynebu a defnyddio'r wybodaeth hon i wella mynediad

AMSEROL

Lleihau oedi o ran triniaeth, cydgysylltu gwasanaethau cymaint â phosibl, sicrhau cyfathrebu da a gwneud i bob cyswllt gyfrif.

EFFEITHLON

Darparu fframwaith ar gyfer cyflawni ar lefel sefydliadol sy'n cynnwys dangosyddion canlyniadau poblogaeth

CANOLBWYNTI O AR Y PERSON

Caiff pobl eu cyfeirio at, neu eu darparu â, gwybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth gan gynnwys sefydliadau gwirfoddol

Pam bod hyn yn Flaenoriaeth

Mae gwella iechyd y boblogaeth yn hanfodol i sicrhau dyfodol cynaliadwy i wasanaethau ledled Gwent.

Mae diogelu iechyd yn canolbwyntio ar feysydd megis brechu a sgrinio. Mae brechu yn un o'r dulliau mwyaf effeithiol o atal salwch, ond mae'r nifer sy'n cael eu brechu ledled Gwent yn gostwng. Mae brechiad HPV wedi lleihau cyfraddau canser ceg y groth yn Lloegr o 87%, ond mae'r nifer sy'n cael eu brechu yng Ngwent bron i 30% islaw'r targed cenedlaethol. Mae rhaglenni sgrinio yn offeryn pwysig arall o ran helpu i ganfod a thrin problemau yn gynnar. Er bod cyfraddau sgrinio am ganser y coluddyn wedi bod ar gynnydd yng Nghymru, yng Ngwent mae gwahaniaeth o 17% rhwng y nifer sy'n cael eu sgrinio yn ein hardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig, ac mae hyn yn dangos yr angen i gael gwared ar y rhwystrau y mae ein cymunedau'n eu hwynebu

Mae gwella iechyd yn ymwneud â newidiadau cadarnhaol yn y ffactorau sy'n cyfrannu at iechyd gwael. Mae dros draean o oedolion yng Ngwent yn nodi eu bod yn actif am lai na 30 munud yr wythnos, ac mae 76% yn bwyta llai na phum dogn o ffrwythau a llysiau y dydd. Er bod Cymru yn anelu at fod yn ddi-fwg erbyn 2030, mae tua 12% o'r trigolion yn dal i ysmegu.

Rydym yn cymryd camau i helpu trigolion i wella eu hiechyd trwy wybodaeth a gwasanaethau rhagweithiol gan gynnwys rhoi'r gorau i ysmegu a rheoli pwysau.

Mae atal marwolaethau cynamserol yn ffocws allweddol. Mae 1 trigolyn o bob 3 yn marw'n gynharach ar gyfartaledd o'i gymharu ag ardaloedd eraill ledled Cymru. Gellir atal clefyd y galon, diabetes, clefyd yr afu a rhai mathau o ganser sydd mewn cyfnodau hwyr wrth wneud newidiadau i ffordd o fyw, ond mae llawer o drigolion yn wynebu rhwystrau o ran mabwysiadu arferion iachach. Ein nod yw cefnogi trigolion drwy ei gwneud hi'n haws iddynt wneud dewisiadau iach.

Mae'r blynyddoedd cynharaf yn siapiaio lles gydol oes, gan wneud **babanod, plant a phobl ifanc** yn faes allweddol ar gyfer ymgorffori ymddygiadau iach a lleihau anghydraddoldeb ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae tua 80 o strwythur yr ymennydd wedi'i ffurfio erbyn 3 oed. Mae'r 1000 diwrnod cyntaf yn gosod y sylfaen ar gyfer iechyd yn y dyfodol. Mae oedolion a gafodd amgylcheddau cynnar sefydlog a meithringar yn dangos iechyd meddwl gwell, swyddogaeth wybyddol gryfach, a mwy o wydnwch.

Drwy ganolbwyntio ar atal, cefnogaeth gynnar a gwydnwch teuluoedd, gallwn leihau anghydraddoldebau, gwella datblygiad iach, ac amddiffyn cenedlaethau'r dyfodol rhag afiechyd y gellir ei osgoi.

Blaenor iaeth	Llif gwaith		Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
Diogelu Iechyd	Sgrinio a Brechu [MT: Iechyd y Boblogaeth ac Atal]	MD	Ffocws atal canser ar sgrinio mewn ardaloedd ble mae nifer sy'n cael eu sgrinio'n isel, gan leihau annhegwch a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau	Cynyddu nifer y clinigwyr achrededig ar gyfer Sgrinio'r Coluddion	Sefydlu addysg fewnol ar sgrinio serfigol ar gyfer nyrsys practis	Cwblhau cynllun gweithredu ar gyfer Sgrinio Iechyd yr Ysgyfaint yn dechrau yn 2027
		MD	Cyflwyno Canolfan Frechu Blaenau Gwent; Dechrau cyflwyno sesiynau Ymwybyddiaeth Cyngor Byr	Gweithredu cynllun Tegwch Brechu; Blaenoriaethau o adroddiad y DHP wedi'u targedu a'u gwaith cyflawni wedi'i gynllunio	Cyflwyno rhaglen frechu tymhorol a rhaglen frechu staff gan wneud dadansoddiad o ddata er mwyn llywio dull wedi'i dargedu	Parhau i gyflwyno cynllun gweithredu tegwch brechu a rhaglen frechu staff
	Rheoli Heintiau a Chlefydau	P	Datblygu partneriaethau gyda GDAS i gyflawni cynllun dileu Hepatitis B&C	Dechrau gwasanaeth peilot canfod achosion TB cudd a gweithredu cynllun gweithredu TB	Cyflwyno gwasanaeth cyfnewid nodwyddau symudol - rhan o gynllun dileu Hepatitis B&C	Gwerthuso'r gwasanaeth peilot canfod achosion TB cudd a chytuno ar ddull ar gyfer 27/28
			Datblygu cynllun gweithredu HIV gyda Phartneriaid Llwybr Cyflym; Cerdyn-C Digidol a chynyddu mynediad at gondomau	Datblygu cynllun gweithredu HIV lleol; Gweithredu cynllun gweithredu gwerthuso Cerdyn-C ac ehangu'r gwasanaeth	Datblygu cynllun gweithredu HIV lleol ar gyfer Gwent a pharhau i gyflawni cynllun gweithredu STI	Datblygu cynllun gweithredu HIV lleol ar gyfer Gwent; Gwneud cais am Achrediad Cerdyn-C Cymru Gyfan
	Cynllunio ar gyfer Argyfwng	P	Datblygu cynllun hyfforddi ac ymarfer corff cadarn yn seiliedig ar yr hyn sydd wedi'i ddysgu o Pegasus	Datblygu llwybrau digwyddiadau ar gyfer Cynllun Ymateb Iechyd y Cyhoedd; Ymarfer Digwyddiadau Mawr	Dechrau cyflwyno cynllun hyfforddi ac ymarfer corff Pegasus Exercise	Cyflwyno ac ymgorffori cynllun Ymateb Iechyd y Cyhoedd yn llawn
	Cynllunio ar gyfer Argyfwng	P	Datblygu cynllun hyfforddi ac ymarfer corff cadarn yn seiliedig ar yr hyn sydd wedi'i ddysgu o Pegasus	Datblygu llwybrau digwyddiadau ar gyfer Cynllun Ymateb Iechyd y Cyhoedd; Ymarfer Digwyddiadau Mawr	Dechrau cyflwyno cynllun hyfforddi ac ymarfer corff Pegasus Exercise	Cyflwyno ac ymgorffori cynllun Ymateb Iechyd y Cyhoedd yn llawn
Gwella Iechyd	Addysg a Hyfforddiant Iechyd	P	Cyflwyno model hwb/sboc Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif (MECC) y blynyddoedd cynnar	Cyflwyno hyfforddiant Gwent Connect5 ym Mlaenau Gwent a Thorfaen i wella lles	Cefnogaeth barhaus i Ymwelwyr Iechyd i blethu MECC mewn sgysiau teuluol	Datblygu cynllun gwerthuso MECC y blynyddoedd cynnar a pharhau i gyflwyno hyfforddiant
	Partneriaethau Actif a Chwaraeon	P	Yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus ar gyfer Sesiynau Iechyd Meddwl Byr mewn 9 Clwb Rygbi, bydd y rhain yn cael eu cyflwyno ymhellach.	Datblygu Cynghrair Pwysau Iach ymhellach a chydweithio â Phartneriaeth Chwaraeon Gwent	Cyflwyno partneriaethau Parkrun sy'n gwella cyfranogiad mewn gweithgarwch corfforol	Prosiectau gyda chwaraeon drwy seicoleg gymunedol wedi'u halinio â NEST/NYTH

Blaenor iaeth	Llif gwaith		Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
Gwella Iechyd	Pwysau Iach	P	Comisiynu rheoli pwysau Lefel 2 gan ddarparwyr lleol, offer ffitrwydd a lles	Parhau â'r cynnydd a wnaed o ran rheoli'r galw a'r 'maint cywir' o ran gwasanaethau rheoli pwysau arbenigol	Nodi bylchau yn y ddarpariaeth o wasanaeth rheoli pwysau a datblygu cynllun gweithredu i gefnogi cleifion â diabetes	Gwerthuso rheoli pwysau Lefel 2 er mwyn ymgorffori dysgu ar gyfer 27/28; Parhau i gyflawni gweledigaeth pwysau iach
	Atal a lleihau niwed	P	Gweithredu cynllun i gynyddu'r ysmygwyr sy'n cael eu trin a % pobl sy'n rhoi'r gorau i ysmegu wedi'u dilysu gan CO	Gweithredu cynllun gweithredu lleol ar gyfer atal hunanladdiad ac ymateb cymunedol i hunan-niweidio	Datblygu a dechrau cyflwyno system brysbennu ac ymateb trwyddedu alcohol	Parhau i gyflwyno prosiect Try Dry Local; Lansio matrices risg trwyddedu alcohol
Atal	Poblogaethau Risg Uchel [MT: Iechyd y Boblogaeth ac Atal]	MD	Datblygu dull o adnabod cleifion sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer 0.5% o'r boblogaeth sy'n wynebu'r risg fwyaf o gael eu derbyn a'r rhai sy'n symud i fyny'n h.y. eiddilwch rhagweithiol	Uwchraddio model cymorth MDT a'i ymgorffori mewn gofal seiliedig ar le drwy'r 4 Bwrdd Partneriaeth Gwasanaeth Integredig	Creu partneriaeth â 4 practis meddyg teulu i gymharu setiau data gofal sylfaenol ac aciwt sy'n cefnogi mesur canlyniadau	Symud ymlaen gyda data gofal sylfaenol a gofal cymdeithasol i asesu canlyniadau'n llawn; Cynyddu'r defnydd o Gynlluniau Gofal at y Dyfodol
	Marwolaethau Cynamserol y gellir eu Hatal	MD	Parhau i weithredu model ffactorau risg CVD gan ymgorffori dysgu o 25/26 a'i gyfuno â gwaith atal diabetes	Datblygu tîm Hyfforddwyr Iechyd a'i alinio â Meddygfeydd Teulu er mwyn darparu Ymyriadau Byr; Hyfforddi gofal sylfaenol ar ddiabetes a model unedig a CVD	Rhoi fframwaith cyflawni ar gyfer model unedig Diabetes a CVD ar waith; digwyddiad Iechyd y Galon ar gyfer Diwrnod y Galon y Byd	Parhau i gyflwyno fframwaith cyflawni diabetes
	[MT: Iechyd y Boblogaeth ac Atal]	MD	Grŵp atal cancer yn canolbwyntio ar ymwybyddiaeth o symptomau o fewn grwpiau poblogaeth sy'n cael eu trangynrychioli	Adolygu a datblygu Atal Cancer fel rhan o fframwaith cyflawni Cancer Gwent 2035	Parhau i gyflawni cynllun gwaith y Gynghrair Rheoli Nicotin a gweithredu camau gweithredu o Ran 2 yr Adroddiad Darganfod Nicotin	Cyflwyno Atal Cancer fel rhan o fframwaith cyflawni Cancer Gwent 2035
	Rheoli Iechyd y Boblogaeth	P	Ymgorffori data Gofal Sylfaenol yn Warws Data Iechyd y Cyhoedd a chytuno ar garfannau cychwynnol	Cyflwyno gwybodaeth arwynebol ynghylch carfannau y cytunwyd arnynt i randdeiliaid ar gyfer camau atal rhagweithiol	Mireinio adroddiadau a charfanau yn seiliedig ar arsylwadau ac adborth	Dechrau gwerthuso camau gweithredu practis meddygon teulu

Blaenor iaeth	Llif gwaith	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
Babanod, Plant a Phobl Ifanc	Iechyd Amenedigol <i>[MT: Iechyd Menywod]</i>	MD Ymgorffori gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar draws y llwybr mamolaeth gyda negeseuon iechyd y cyhoedd cynnar i optimeiddio; Sefydlu un pwynt mynediad ar gyfer brysennu mamolaeth i bob menyw	Cryfhau gallu i adnabod risg glinigol, ac uwchgyfeirio risg yn gynnar, gan gynnwys gwell gallu i adnabod peryglon i famau a babanod trwy systemau rhybuddio cynnar; Adolygu canfyddiadau archwiliadau cenedlaethol	Cyflwyno dull wedi'i ddiweddarau ar gyfer rhoi'r gorau i ysmegu yn ystod mamolaeth; Cyflwyno'r Birmingham Symptom-specific Obstetric Triage System (BSOTS)	Adolygu cyfleoedd ar gyfer darpariaeth ar gyfer grwpiau agored i niwed gan gynnwys clinig enfys ar gyfer rhieni sydd wedi colli plentyn
	Creu'r canlyniadau gorau posib i Fabanod, Plant a Phobl Ifanc <i>[MT: Iechyd y Boblogaeth ac Atal]</i>	P Datblygu'r 1001 Diwrnod Cyntaf cynllun prosiect sy'n cyd-fynd â Grant Sylfaen 1001 Diwrnod Critigol	Ceisio cymeradwyaeth y BGC ar gyfer cynllun cyflawni'r Dechrau Gorau mewn Bywyd (BSIL) a chytuno ar fframwaith monitro	Cynyddu nifer y bobl sy'n bwydo ar y fron yn sgil cynllun benthyg pwmp, cefnogaeth gan gymheiriaid a chynllun gwella	Parhau i weithredu cynllun cyflawni BSIL
		MD Adolygu'r broses Mesur Plant a nodi gwelliannau i'r gwasanaeth; Cyflwyno hyfforddiant ar uchel leisio llais y baban ar draws gofal cymdeithasol	Ymgymryd â pharatoadau ar gyfer tymor ysgol Medi 26 gan sicrhau bod yr hyn â ddysgwyd yn 25/26 yn cael ei gymhwyso; Datblygu cynllun gweithredu i gyflawni Plentyn Iach Cymru 2	Gwneud y Mwyaf o Wneud i Bob Cyswllt Gyfrif i wella pwysau iach i blant; Bwrdd Ieuenctid Pilot i gefnogi integreiddio llais pobl ifanc	Archwilio cyfleoedd ar gyfer Hwb Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghasnewydd; Gwerthuso model iechyd ysgolion i ysgogi gwelliannau mewn gwasanaeth a phwysau iach
	Lles y Teulu Cyfan	P Datblygu fframwaith monitro er mwyn nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen i symud ymlaen yn erbyn y siarter magu plant	Ymgysylltu wedi'i dargedu â theuluoedd a ailgyfeiriwyd at SPACE wellbeing er mwyn gwella canlyniadau sy'n cyd-fynd â NEST/NYTH	Fel rhan o siarter magu plant, cefnogi plant sy'n gadael gofal i gael cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant	Symud Dulliau Ystyriol o Drawma ac ACES yn eu blaen. Adrodd ar argymhellion a monitro gweithrediad

Yr hyn y byddwn yn ei gyflawni – 2027/28

Cyflawniadau	
Cyflwyno rhaglenni allgymorth sgrinio wedi'u targedu ar raddfa fawr mewn cymunedau sydd â nifer isel o bobl yn cael eu sgrinio.	Ehangu'r model ffactor risg CVD i bob practis meddyg teulu a datblygu ymyriadau wedi'u targedu a gwneud y tîm Hyfforddwyr Iechyd yn weithredol ar draws yr NCNs
Rhaglenni brechu wedi'u targedu ar gyfer grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli gan ddefnyddio gwell dadansoddi	Mae model poblogaeth risg uchel yn gwella canlyniadau i'r 0.5% mwyaf agored i niwed gyda llai o dderbyniadau y gellir eu hosgoi
Sicrhau achrediad Cerdyn C Cymru Gyfan ac ehangu mynediad at gondomau	Gweithredu cynllun prosiect 1001 Diwrnod Critigol a chyflawni rhaglen y Dechrau Gorau mewn Bywyd yn llawn gyda goruchwyliaeth y BGC a monitro chwarterol
Ymgorffori'r hyn sydd wedi'i ddysgu o werthusiad o rheoli pwysau Lefel 2 a sefydlu llwybrau rheoli pwysau integredig ar gyfer pobl â diabetes.	Ymgorffori llais ieuentid drwy bob gwaith partneriaeth gyda'r Bwrdd Ieuentid sefydledig

Yr hyn y byddwn yn ei gyflawni – 2028/29

Nodau	
Mwy o bobl yn manteisio ar sgrinio a brechlynnau a mwy o degwch ledled Gwent.	Cyflwyno mewnwelediadau rheoli iechyd y boblogaeth i feddygfeydd teulu er mwyn gyrru atal rhagweithiol
MECC wedi'i ymgorffori ar draws pob llwybr teulu a blynyddoedd cynnar	Gostyngiadau mesuradwy mewn cyfraddau ysmygu a dibyniaeth ar nicotin
Rhagsefydlu wedi'i ymgorffori gan leihau amrywiad mewn canlyniadau canser a gofal wedi'i gynllunio	Mae plant yn cael dechrau cryf mewn bywyd drwy raglenni 1001 Diwrnod Critigol a'r Dechrau Gorau mewn Bywyd a ddarperir yn llawn.
Gostyngiad sylweddol mewn marwolaethau cynamserol y gellir eu hatal trwy fframweithiau CVD a diabetes wedi'u hymgorffori'n llawn	Dulliau sy'n seiliedig ar drawma ac sy'n seiliedig ar y teulu cyfan wedi'u hymgorffori ar draws addysg, gofal a gwasanaethau cymunedol

Mesur ein llwyddiant: Disgwyliadau Perfformiad		Targed Cenedlaet hol	Cyrraedd y Targed?	Llinell sylfaen	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
Lleihau anghydraddoldeb o ran y nifer sy'n manteisio ar ddulliau atal afiechyd yn yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig, yn enwedig o ran brechu, sgrinio ac atal a gofal diabetes.	MD	↓	Ie	N/A	Data sylfaenol	Adrodd	Adrodd	Adrodd
% o blant sydd wedi cael eu holl frechiadau erbyn 5 oed		95%	Na	85.3%	87%	88%	89%	90%
% o blant sy'n derbyn 1 dos o frechiad HPV erbyn 15 oed		90%	Na	66.7%	72.5%	75%	77.5%	80%
% sy'n cael y brechlyn yn erbyn y ffliw ymhlith oedolion 65 oed ac hŷn		75%	Ie	73.8%	-	-	-	75%
% sy'n cael y Feirws Syncytiol Anadlol (RSV) ymhlith y rheint sy'n troi'n 75 oed		70%	Na	55%	-	-	-	65%
% o ysmygwyr sy'n gwneud ymgais i roi'r gorau iddi drwy wasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu		7.5%	Na	4.5%	1.3%	2.5%	3.8%	5%
% o ysmygwyr sy'n oedolion a geisiodd roi'r gorau i ysmygu drwy wasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu sydd wedi cael eu dilysu o ran carbon monocsid fel rhai sydd wedi rhoi'r gorau iddi ar ôl 4 wythnos		40%	Ie	20.5%	25%	30%	35%	40%
Cynnal cyfraddau archwiliad corfforol 6 wythnos (Plant Iach Cymru)		-	-	96.7%	90%	90%	90%	90%
Cynyddu cyfraddau pwysau a mesuriadau 8 wythnos (Plant Iach Cymru)		-	-	90.2%	90%	90%	90%	90%
Cynyddu cyfran y plant yng Nghymru sydd â phwysau iach drwy atal y codiad, a chyfrannu at ostyngiad o flwyddyn i flwyddyn yn lefelau gorbwysau a gordewdra fel y'u mesurir ac a adroddir drwy'r Rhaglen Genedlaethol Mesur Plant, gan ganolbwyntio ar y rhai sydd fwyaf dan anfantais.	MD	↑	Ie	75.1% (2023/24)	-	76% (data disgwyliedig ar gyfer Ch2 28/29)	-	-
Cynnydd yng nghanran y cleifion (12 oed a hŷn) â diabetes a dderbyniodd bob un o'r wyth proses gofal a argymhellwyd gan NICE	MD	80%	Na	44.3%	47%	48%	49%	50%
Canran y cleifion (12 oed a hŷn) â diabetes a gafodd wiliadwriaeth traed wedi'i cofnodi o fewn y 15 mis diwethaf.		80%	Na	66.4%	70.2%	73.5%	76.7%	80%
Canran y cleifion (12 oed a hŷn) â diabetes y mae eu albumin wrin wedi cael ei gofnodi o fewn y 15 mis diwethaf		80%	Na	66%	70.7%	74%	77.1%	80%
O leiaf 90% o unigolion wedi'u nodi drwy'r Audit Plus Frailty Tool (neu'r hyn sydd wedi'i ddisodli) i dderbyn gofal rhagweithiol yn unol â'u cynlluniau gofal cytunedig.	MD	90%	Ie	N/A	-	-	-	90%
Gwella ansawdd ein gwasanaethau mamolaeth drwy leihau cyfraddau marwolaethau amenedigol.	MD	↓	Ie	5.22	-	-	-	5.1
Nifer y cleifion cymwys sy'n mynychu rhaglen rheoli ffactorau risg clefyd cardiofasgwlaidd (CVDRFMP)		-	-	N/A	3,125	3,125	3,125	3,125
% o bobl a fynychodd CVDRFMP wedi cael diagnosis		-	-	N/A	312	312	312	312
Nifer sy'n cychwyn ymyrraeth 12 wythnos gyda Gwasanaeth Rheoli Pwysau i Oedolion Lefel Dau		-	-	N/A	1,500	1,500	1,500	1,500
Nifer gyda phwysau terfynol wedi'i gofnodi a gafodd 8+ sesiwn a gollodd >5% o bwysau		-	-	N/A	450	450	450	450

Gofal Gwell: Gyda'n gilydd byddwn yn darparu'r hyn sy'n bwysig i bobl, gan gefnogi ein staff i ffynnu a chyflawni gofal o ansawdd, gofal caredig a gofal cynaliadwy.

Canlyniadau:

Bydd y gwasanaethau y byddwn yn eu darparu a'u comisiynu yn bodloni'r safonau ansawdd a'r safonau clinigol perthnasol

Bydd pobl yn cael mwy o Ddiwrnodau Iach Gartref

Bydd mwy o bobl yn gallu cael mynediad at wasanaethau iechyd yn eu cymunedau lleol

Blaenoriaethau

Gofal sy'n Seiliedig ar Leoedd

Mynediad a Chynaliadwyedd

Gwella Ansawdd a Phrofiad

Ymgorffori Gwerth ac Effeithlonrwydd

Datganiadau Ansawdd

DIOGEL

Mae dysgu sefydliadol ac adolygu systemau yn cael ei amlygu lle mae gofal diogel yn cael ei gwestiynu

EFFEITHIOL

Defnydd cyson o lwybrau sy'n seiliedig ar dystiolaeth y cytunwyd arnynt yn genedlaethol

TEG

Mae gofal a thriniaeth yn cael eu pennu gan flaenoriaeth glinigol

AMSEROL

Mesurir amseroldeb llwybrau ar draws eu hyd cyfan, y tu hwnt i'r driniaeth bendant gyntaf

EFFEITHLON

Canfod, diagnosio a rheoli cyflyrau risg uchel yn effeithiol

CANOLBWYNTIO AR Y PERSON

Mae gofal sy'n canolbwyntio ar y person wedi'i ymgorffori trwy ddull cyffredin o asesu a rheoli anghenion pobl

Pam bod hyn yn Flaenoriaeth

Nod Gofal Gwell yw darparu gofal o safon gyda ffocws ar unigolion, gan helpu i hyrwyddo iechyd parhaol ac adeiladu system gofal iechyd effeithlon a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Mae **gofal sy'n seiliedig ar le** yn ddull o ddarparu gofal sy'n diwallu anghenion unigryw pobl trwy ddefnyddio adnoddau'r gymuned lle maent yn byw neu lle maent yn teimlo'n gysylltiedig â hi. Mae'n canolbwyntio ar yr adnoddau sydd ar gael mewn ardal i wneud yn siŵr bod pobl yn cael y gofal cywir, yn y lle cywir, ac ar yr amser cywir. Mae hyn nid yn unig yn helpu i ddarparu ymyrraeth gynnar a lleihau derbyniadau i'r ysbyty ond mae'n darparu gwerth am arian ac yn anelu at leihau anghydraddoldeb gofal yn ein cymunedau. Rydym yn canolbwyntio ar ddarparu gofal sy'n seiliedig ar le ledled Gwent yn unol ag anghenion iechyd y boblogaeth leol, megis hybiau Diffyg Anadl i'r rheiny â chyflyrau anadlrol cronig. Mae gofal sy'n seiliedig ar le hefyd yn ymrwymiad allweddol yng Nghynllun Iechyd Menywod dan arweiniad y GIG, rydym wedi agor ein canolfan iechyd menywod braenaru gyntaf eleni. Mae menywod a merched yn cyfrif am ychydig dros 50% o'n poblogaeth ond mae ymchwil yn awgrymu nad yw pryderon iechyd menywod yn cael eu trafod yn ddigonol na'u cymryd o ddifri. Bydd cyflwyno'r ganolfan hon yn galluogi menywod i gael mynediad amserol at wasanaethau a chael y gofal sydd ei angen arnynt. Bydd

hefyd yn hyrwyddo mesurau ataliol ac yn eu grymuso i gymryd rheolaeth o'u hiechyd a'u lles. Un mesur sy'n sail i hyn yw pennu nifer y Dyddiau Iach Gartref, sef mesur blynyddol yn seiliedig ar bob person o fewn y boblogaeth yn cael 365 diwrnod gartref neu'n derbyn gofal. Yng Ngwent, mae nifer y Diwrnodau Iach Gartref ar hyn o bryd rhwng 359-360, sy'n dynodi cyfartaledd o 5-6 diwrnod y derbynnir gofal ar gyfer pob person.

Mae **mynediad a chynaliadwyedd yn** ymwneud â darparu gwasanaethau yn y manau cywir i'n trigolion ond hefyd sicrhau bod y rhain yn hyfyw yn y tymor hir. Mae hyn yn cwmpasu pob elfen o'n system gofal iechyd, o gynyddu ein gwasanaethau gofal sylfaenol, symleiddio'r llif drwy ein hysbytai, lleihau amseroedd aros cleifion a sicrhau bod gwasanaethau arbenigol ar gael yn y manau mwyaf priodol, boed yn lleol neu'n rhanbarthol. Mewn Gofal wedi'i Gynllunio, ffocws allweddol yw lleihau'r amser y mae'n ei gymryd i gael eich gweld gan y gweithiwr proffesiynol cywir ar gyfer eich anghenion. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn achosion lle'r amheuir cancer, gan fod diagnosis a thriniaeth amserol yn arwain at well cyfraddau goroesi. Mae modelu diweddar gan Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi rhagweld y bydd tua 24,000 o achosion cancer newydd bob blwyddyn erbyn 2035, i fyny o tua 20,000 yn 2019. Mae'r Llwybr Lle'r Amheuir Cancer yn darged gan Lywodraeth Cymru ar gyfer diagnosis a dechrau triniaeth yn gyflymach, gyda'r nod o aros dim mwy na 62 diwrnod o'r pwynt amheuaeth i ddechrau triniaeth bendant.

Y Targed Cenedlaethol yw 75% ond nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cyrraedd cydymffurfiaeth o fwy na 67% yn ystod y flwyddyn ddiwethaf eto. Rydym hefyd wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau rhanbarthol lle na all un sefydliad ddiwallu galw'r boblogaeth, fel y dangosir gan Raglen Offthalmoleg Ranbarthol Deddwyrain Cymru. Dyma oedd y rhaglen ranbarthol gyntaf o'i math, dan arweiniad BIPAB ac yn cwmpasu byrddau iechyd yn Ne-ddwyrain Cymru. Y nod yw sicrhau Gwasanaethau Offthalmoleg cynaliadwy sy'n darparu gofal o ansawdd uchel a chanlyniadau gwell i gleifion mewn modd amserol. Gellir gweld llwyddiant y rhaglen trwy'r gostyngiad yn yr holl arosiadau 104 wythnos i 0 erbyn mis Mawrth 2025 a thros 20,000 o lygaid wedi'u trin hyd yn hyn. Er bod y rhaglen wedi dechrau gyda chyllid ychwanegol ar gyfer allanoli, y nod nawr yw cynyddu capasiti'r GIG trwy ddefnyddio canolfannau niferoedd uchel a all drin mwy o gleifion, gan sicrhau model cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Mae **gwella ansawdd a phrofiad** yn flaenoriaeth i'r sefydliad ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu'n dda yng nghanlyniadau ein harolwg CIVICA ar Brofiad Cleifion. Ers ei gyflwyno ym mis Mai, mae'r sgôr boddhad cyffredinol yn amrywio rhwng 86-88%, ac mae'r cwestiwn â'r sgôr isaf yn gyson yn ymwneud ag amseroedd aros. Mae allweddol o ddiddordeb cenedlaethol yw gwella profiad cleifion yn ein hadran achosion brys ac unedau mân anafiadau, wrth i'n system ysbytai barhau i weld cynnydd yn y galw am ofal brys a gofal mewn argyfwng. Er gwaethaf y cynnydd hwn, mae trosglwyddiadau ambiwlans sy'n cymryd mwy nag awr yn Ysbyty Athrofaol y Faenor wedi gwella'n gyson yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, gan gyrraedd y ffigurau misol isaf ers mwy na phedair blynedd ym mis Medi 2025. Mae hyn yn dangos gwaith caled ac ymroddiad staff i helpu i gyflawni'r protocol Fframwaith Perfformiad Ambiwylansys cenedlaethol. Fodd bynnag, mae cyfnod anodd yn ystod y gaeaf wedi cael effaith sylweddol ac mae'r ffigurau diweddaraf bron ddwywaith yr isafbwynt ym mis Medi. Cafodd y cyfnod hwn effaith negyddol ar fesurau eraill gan gynnwys amseroedd aros cleifion.

Gellir gweld effaith y galw uwch yn wrth y drws ffrynt yn nes ymlaen hefyd wrth edrych ar nifer y cleifion a dderbyniwyd fel achosion brys sydd wedi aros yn yr ysbyty am fwy na 21 diwrnod. Gwelwyd y ffigur mis Rhagfyr uchaf ers tair blynedd. O ganlyniad, cafodd y Bwrdd Iechyd ei uwchgyfeirio i Ymyrraeth wedi'i Thargedu ar gyfer perfformiad a chanlyniadau yn ymwneud â gofal brys a gofal mewn argyfwng i gydnabod y pwysau hyn.

Rydym bellach yn canolbwyntio ar gyflawni meini prawf isgyfeirio trwy ymyriadau wedi'u targedu gan gynnwys ail-lansio menter Ein Claf Nesaf gyda chynllun amserbenodol pendant ar leihau trosglwyddiadau ambiwlansys ac adfer llif parhaus yn

system yr ysbyty, gan arwain at welliant yn ansawdd gofal a phrofiad y claf

Mae ymgorffori gwerth ac effeithlonrwydd o ran y ffordd yr ydym yn darparu gofal yn hanfodol er mwyn sicrhau gwasanaeth iechyd cynaliadwy yng Ngwent. Rydym am wneud y gorau o'r gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig, gan sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n effeithlon, ac yn darparu'r gwerth gorau i gleifion. Un maes cyflawni allweddol yw ein theatrau llawdriniaeth, a'r nod yw sicrhau bod cleifion yn derbyn triniaeth mewn modd amserol, osgoi canslo diangen a galluogi cleifion i barhau â'u hadferiad gartref heb oedi. Mae ein perfformiad ar gyfer diogelu diwrnodau theatr wedi'u cynllunio yn rhagori'n gyson ar y targed cenedlaethol o 90%, ac mae'r ffigur o ran defnydd o sesiynau ychydig yn is na'r targed o 85%. Fodd bynnag, rydym yn tanberfformio ar hyn o bryd o ran dechrau'n hwyr a gorffen yn gynnar mewn theatrau, gan wneud y rhain yn feysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt. Nod mentrau gan gynnwys rhestru cataractau'n uniongyrchol, cynyddu cyfraddau'r llawdriniaethau llai cymhleth y gellir cynnal nifer ohonynt a'r Mis Perffaith T&O yw gwneud yn siŵr bod ein theatrau'n perfformio i'r eithaf. Llwyddiant diweddar oedd cyflwyno platfform Llwybrau Iechyd, sy'n darparu'r canllawiau diweddaraf ar lwybrau ar gyfer cyflyrau penodol, yn ogystal â gwybodaeth am sut i ddefnyddio'r rhyngwyneb gofal sylfaenol/eilaidd, er mwyn creu llwybrau effeithlon i gleifion a chlinigwyr. Mae gennym ni 180 o lwybrau ar waith bellach a'r bwriad yw cyflwyno 32 arall yn ystod y flwyddyn nesaf. Rydym hefyd yn canolbwyntio camau gweithredu ar ein darpariaeth cleifion allanol, dan oruchwyliaeth ein tîm Rhaglen Trawsnewid Cleifion Allanol. Mae cyfradd y cleifion nad ydynt yn mynychu apwyntiadau neu sy'n canslo apwyntiadau wedi bod yn gostwng yn gyson yn ysod y flwyddyn ddiwethaf ond mae perfformiad uwchlaw'r targed cenedlaethol o 5% o hyd, gan olygu bod angen dull wedi'i dargedu yn y meysydd sydd â'r cyfraddau uchaf. Mae'r tîm hefyd wedi bod yn canolbwyntio ar y cleifion sydd wedi bod yn aros hiraf ar restrau gofal dilynol, gan fod y rhai sy'n aros 100% yn hirach na'u cyfradd dilynol wedi bod yn cynyddu'n gyson yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae dilysu cleifion wedi bod yn allweddol o ran nodi cyfleoedd rhyddhau a nodi'r rheiny sy'n addas ar gyfer cymhwyso llwybrau ôl-weithredol sylw yn ôl symptom a llwybrau Apwyntiad Dilynol ar Gais y Claf. Drwy fabwysiadu dull system gyfan o ymgorffori gwerth ac effeithlonrwydd, gallwn ddarparu'r profiad gorau i'n cleifion.

Drwy ddarparu gwasanaethau amserol o ansawdd sydd wedi'u teilwra i anghenion unigol, ein nod yw cyflawni'r hyn sydd bwysicaf i'n preswylwyr a chreu model gofal cynaliadwy lle gall ein staff ffynnu.

Blaenor iaeth	Llif gwaith		Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
Gofal sy'n Seiliedig ar Leoedd	Timau Cymdogaeth a Llwybrau Cymunedol [MTs: Cymunedol o'r Cychwyn, Iechyd y Boblogaeth ac Atal]	MD	Diffinio rolau a chyfrifoldebau timau cymdogaeth integredig lleol sydd wedi'u halinio ag egwyddorion Gofal sy'n Seiliedig ar Le	Ymgysylltu â phartneriaid ar draws y sector gofal cymdeithasol a gwirfoddol i gyd-gynllunio'u gweithrediad ar gyfer Torfaen a Blaenau Gwent	Sefydlu llwybrau integredig a fforymau cydweithredol i alinio gwasanaethau ag anghenion iechyd y boblogaeth	Mireinio'r model a pharatoi cynllun ar gyfer graddio'r dull Gofal sy'n Seiliedig ar Le ar draws lleoliadau ychwanegol
		MD	Diffinio arfer gorau tîm amlddisgyblaethol ac uwchraddio ar draws ISPBs; Datblygu a chytuno ar adnabod cleifion bregus	Dod â chlinigwyr o bob cwr o Went ynghyd i gytuno ar ddull MD yn y dyfodol sy'n diffinio rôl mewn gofal seiliedig ar le	Creu partneriaeth â 4 practis GMS i gymharu data; Datblygu mesur canlyniadau ar gyfer cleifion a'r system iechyd	Casglu data partneriaid ychwanegol i asesu canlyniadau'n llawn; Cynyddu defnydd a mynediad ymarferwyr cyswllt cyntaf
		MD	Treialu canolfannau diffyg anadl i wella ymyrraeth gynnar mewn gofal i gleifion â symptomau anadlol cronig	Yn dilyn gwerthusiad o'r peilot, cytuno ar ddull gweithredu; Archwilio opsiynau ar gyfer Awdioleg gymunedol	Datblygu llwybrau gofal integredig ar gyfer diffyg anadl sy'n cyd-fynd ag arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth	Gweithredu llwybr gofal diffyg anadl integredig trwy ddull wedi'i dargedu i brofi hyfywedd
		MD	Cryfhau gweithio ar benwythnosau ar draws nyrsio cymunedol gan gynnal cyfartaledd o 57%	Adolygu cynnydd a gweithio tuag at gyflawni 61% o ran gweithio ar benwythnosau	Adolygu cynnydd, rhoi'r hyn sydd wedi'i ddysgu ar waith a gweithio tuag at gyflawni 65%	Cydgrynhoi'r hyn sydd wedi'i ddysgu o'r flwyddyn yn unol â disgwyliadau cenedlaethol i gyflawni 69%
	Iechyd Menywod [MT: Iechyd Menywod]	MD	Cyflwyno Hwb Braenaru Iechyd Menywod trwy blatfform digidol ac ehangu gwasanaeth yr Uned Gofal Dydd Gynaecoleg a Gwasanaethau Iechyd Rhywiol	Parhau i ddatblygu un pwynt mynediad (SPOA) iechyd menywod ar gyfer atgyfeiriadau; Hyfforddiant yn canolbwyntio ar gael gwared ar stigma ac ymgysylltu sy'n canolbwyntio ar y claf	Ehangu cwmpas iechyd menywod i'r maes blaenoriaeth nesaf; Datblygu SPOA parhaus ar gyfer atgyfeiriadau; Gweithredu cynllun cyflawni	Parhau i ymgysylltu â phartneriaethau drwy ISPBs i ddatblygu modelau cymunedol lleol ymhellach sy'n mynd i'r afael ag anghenion iechyd menywod

Blaenor iaeth	Llif gwaith		Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
Mynediad a Chynaliadwyedd	Cynaliadwyedd Gofal Sylfaenol		O'r 1af Ebrill ymlaen, rheoli a sicrhau darpariaeth barhaus o wasanaethau meddygol cyffredinol ar gyfer meddygfeydd teulu nad oes ganddynt statws contractwr annibynnol.	Cwblhau gwaith caffael ar gyfer dychwelyd practisau meddygon teulu sydd ar gael a gefnogir yn uniongyrchol i statws contractwr annibynnol	Cefnogi'r Meddygfeydd Teulu a ddychwelir drwy well monitro gan sicrhau bod gan y gymuned fynediad at ofal	Gweithio gyda'r Meddygfeydd Teulu sydd wedi'u dychwelyd i sicrhau cynaliadwyedd ar gyfer y flwyddyn i ddod a chynaliadwyedd hirdymor
			Gweithredu amrywiad cychwynnol ar gyfer practisau deintyddol y diwygiad contract deintyddol newydd	Ymateb i geisiadau gan bractisau deintyddol a monitro at ddibenion addasiadau ychwanegol	Dadansoddiad o'r chwe mis cyntaf o fonitro contractau i wneud y mwyaf o'r defnydd i ddiwallu anghenion y boblogaeth	Cynnal gwerthusiad o gyflawniad blwyddyn 1af y contract er mwyn addasu cynlluniau ar gyfer 27/28
			Cyflwyno 4 elfen llwybr Gwasanaethau Optometreg Llywodraeth Cymru yn llawn	Gwneud y mwyaf o Wasanaeth Presgripsiynu Annibynnol Fferyllfeydd a Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin	Rheoli problemau gofal y llygaid brys mewn modd amserol drwy gynyddu gweithgaredd Gwasanaethau Optometreg	Gwneud y mwyaf o Wasanaeth Presgripsiynu Annibynnol Fferyllfeydd a Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin

Blaenor iaeth	Llif gwaith	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
Mynediad a Chynaliadwyedd	Gofal Brys a Gofal Argyfwng [MTs: Gofal Brys a Gofal Mewn Argyfwng Cymunedol o'r Cychwyn]	MD Gwella drws ffrynt integredig trwy symleiddio mynediad a gwerthuso'r Lolfa Asesu Gymunedol (CAL) i lywio model y dyfodol	Ail-lansio Fframwaith Uwchgyfeirio Cartrefi Gofal; Dechrau model CAL y cytunwyd arno ar ôl gwerthusiad; Adnewyddu dadansoddiad o Gapasiti Cymunedol	Datblygu cynllun gan ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd o beilot Caerffili ar gyfer cyflwyno cefnogaeth i gartrefi gofal yn ehangach; Datblygu map Capasiti Cymunedol a'i rannu ledled Gwent	Gweithredu Rhaglen Cymorth Cartrefi Gofal mewn ardal ychwanegol; Gwerthuso effaith hyfforddiant Cynllunio Gofal at y Dyfodol a gyflwynwyd yn Ch1-Ch3
		MD Symleiddio mynediad gan ddatblygu gwerthusiad o opsiynau ar gyfer model clinigol cynaliadwy ar gyfer Un Pwynt Mynediad (SPOA)	Parhau i adolygu llwybrau canolfannau llif; Asesu'r cyfle i ymateb i gwympiadau yn y gymuned sy'n gysylltiedig â thechnoleg gynorthwyl.	Gweithredu system adrodd integredig ar gyfer atgyfeiriadau a chanlyniadau SPOA; Datblygu rhaglen atal cwympiadau gyda phartneriaid	Datblygu llwybrau i integreiddio ymateb cymunedol i gwympiadau mewn SPOA; Gwella ymateb drws ffrynt ac amseroldeb ar gyfer cwympiadau nad ydynt yn niweidio.
		MD Parhau i ymgorffori fframwaith optimeiddio llif cleifion mewn ysbytai a rhyddhau yn seiliedig ar feini prawf ar draws pob safle gan fonitro cynnydd a manteision ; Nodi meysydd i dreialu'r model Asesydd Dibynadwy (TA) trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid	Parhau i sicrhau bod y fframwaith Rhyddhau yn seiliedig ar Feini Prawf yn cael ei gymhwyso 7 diwrnod yr wythnos; Diffinio'r llwybr Optimeiddio rhyddhau a chyddylunio gyda rhanddeiliaid; Monitro effaith a nodi meysydd pellach i dreialu TA	Cyflwyno'r platfform rhyddhau digidol integredig sengl; Treialu'r llwybr optimeiddio rhyddhau a'i fireinio ar gyfer ei gyflwyno'n ehangach; Dechrau gweithredu'r model Optimeiddio Staffio Rhyddhau newydd	Gwerthuso fframwaith Rhyddhau yn seiliedig ar Feini Prawf i ddangos tystiolaeth o effaith; Parhau i weithredu model Optimeiddio Staffio Rhyddhau; Cyflwyno TA mewn camau ynghyd â llwybr optimeiddio rhyddhau ar draws Gwent

Blaenor iaeth	Llif gwaith		Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
	Cleifion sy’n aros hiraf <i>[MT: Gofal Wedi’i gynllunio a Chanser</i>	MD	Dechrau peilot o welliannau gwasanaeth mewn Endosgopi gan gynnwys Cytosponge, Capsiwl y Colon, Endosgopi Traws-drwynol a Speedboat	Parhau i oruchwyllo trywydd 8 wythnos diagnosteg gan wella MR, CT ac Uwchsain	Datblygu cynnig ar gyfer model gwasanaeth 3C mewn Endosgopi i wella cynaliadwyedd a lleihau amseroedd aros	Cyrraedd 0 claf yn aros mwy nag 8 wythnos am ddiagnosis penodol trwy wella MR, CT, Uwchsain ac Endosgopi
		MD	Dechrau gweithredu cynllun gweithredu cynaliadwyedd Awdioleg i wella amseroedd aros i fabanod, plant ac oedolion	Cymryd camau wedi'u targedu ar gynlluniau rheoli galw er budd sefyllfa cleifion allanol 52 wythnos	Cyflwyno cynlluniau effeithlonrwydd a chynhyrchiant i leihau'r cleifion sy'n aros hiraf am driniaeth	Rheoli galw, effeithlonrwydd a chynhyrchiant er budd y cleifion sy’n aros hiraf am apwyntiadau a thriniaeth cleifion allanol, gan gyflawni'r trywydd disgwyledig
		MD	Cynllun adferiad Canser Rhan Isaf y GI gan arwain at ostyngiad yn yr amser i'w gwmpasu; Sefydlu grwpiau adferiad Canser y Fron a rhan uchaf y GI	Gostyngiad chwarterol mewn ôl-groniad canser i 9% neu lai; Monitro cydymffurfiaeth grwpiau adferiad canser y llwybr	Gostyngiad chwarterol mewn ôl-groniad canser i 7% neu lai; Adolygu cydymffurfiaeth grwpiau adferiad canser y llwybr	Gostyngiad chwarterol mewn ôl-groniad canser i 5% neu lai; Adolygu grwpiau adferiad canser y llwybr yn seiliedig ar gydymffurfiaeth

Blaenor iaeth	Llif gwaith		Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
Mynediad a Chynaliadwyedd	Cleifion sy’n aros hiraf [MT: Mynediad lechyd Meddwl]	MD	Dechrau cyflawni cynllun gweithredu i gyrraedd y targed cenedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Asesu Cof; Cynnal targed cenedlaethol o 90% ar gyfer Cynllun Gofal Oedolion a Thriniaeth Rhan 2	Cynnal targed cenedlaethol Rhan 1a a Rhan 1b sef cydymffurfiaeth o 80% ar gyfer Oedolion; Cwblhau adolygiad o’r llwybr i wella amseroedd aros am therapïau seicolegol	Dechrau cyflawni cynllun gweithredu i gyrraedd y targed cenedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Asesu Cof; Cynnal targed cenedlaethol o 90% ar gyfer Cynllun Gofal Oedolion a Thriniaeth Rhan 2	Cynnal targed cenedlaethol Rhan 1a a Rhan 1b sef cydymffurfiaeth o 80% ar gyfer Oedolion; Cefnogi newidiadau i’r llwybr i wella amseroedd aros am therapïau seicolegol
		MD	Cynnal targed cenedlaethol CAMHS Rhan 1a a Rhan 1b sef cydymffurfiaeth o 80%; Cynnal cydymffurfiaeth o 80% ag Asesiadau Dewis SCAMHS o fewn 28 diwrnod o’r atgyfeiriad	Gwella cydymffurfiaeth ag amseroedd aros Niwroddatblygiad (ND)Cynnal Cynllun Gofal a Thriniaeth Rhan 2 CAMHS (targed cenedlaethol) o 90%)	Targed cenedlaethol CAMHS Rhan 1a a Rhan 1b sef cydymffurfiaeth o 80%; Cynnal cydymffurfiaeth o 80% ag Dewis o Asesiadau SCAMHS o fewn 28 diwrnod o'r atgyfeiriad	Cynnydd pellach tuag at gydymffurfio ag amseroedd aros ND 80%; Cynnal targed cenedlaethol Cynllun Gofal a Thriniaeth Rhan 2 CAMHS sef 90%
		MD	Dechrau ymgorffori egwyddorion Mynediad Agored drwy ehangu llwybrau hunan-atgyfeirio	Ymgysylltu â phartneriaid ar gynllun i gyflwyno gwasanaethau Mynediad Agored yn llawn ar gyfer pob oed	Gweithredu cynllun i ddatblygu gwasanaethau Mynediad Agored ar draws pob oedran	Gwerthuso cyfleoedd i ddatblygu gwasanaethau Mynediad Agored ymhellach ar gyfer pob oed

Blaenor iaeth	Llif gwaith		Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
Mynediad a Chynaliadwyedd	Modelau Gofal		Diffinio'r model gwasanaeth delfrydol ar gyfer Meddygaeth Aciwt a chynnal modelu gwasanaeth	Dylunio llwybrau cleifion Meddygaeth Aciwt, model gweithlu a chynllun ariannol	Cynllun gweithredu drafft; Rhannu'r model gwasanaeth gyda Llais a rhanddeiliaid ehangach cyn ymgysylltu	Ymgysylltu ac ymgynghori â staff a'r cyhoedd i sicrhau bod gan bawb ddealltwriaeth a chyd-berchnogaeth
			Cyflwyno cynllun gweithredu y cytunwyd arno gan y Bwrdd Gwella Strôc wedi'i alinio â'r Datganiad Ansawdd Cenedlaethol ar gyfer Strôc diwygiedig	Ymgymryd â chyfnod ymgynghori o 12 wythnos ar fodel adsefydlu cleifion mewnol ar ôl strôc	Gweithredu canlyniadau sy'n deillio o'r ymgynghoriad ar fodel adsefydlu cleifion mewnol strôc	Gwerthuso cyflawniad y cynllun gweithredu Strôc i lywio 2027/28 gan sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r Datganiad Ansawdd Cenedlaethol ar gyfer Strôc
			Ymgorffori adborth yn y model Pobl Hŷn i sicrhau ei fod wedi alinio â blaenoriaethau strategol	Ymgysylltu â rhanddeiliaid ehangach, gan gynnwys Awdurdodau Lleol, y sector gwirfoddol, gofal sylfaenol, a phartneriaid cymunedol	Profi'r model Pobl Hŷn drwy beilot i gasglu adborth pellach a'i fireinio	Gweithredu'r model Pobl Hŷn fesul cam gan gyfathrebu a hyfforddi staff
			Cytuno ar gyfeiriad strategol yr ystâd ar gyfer model gwasanaeth Iechyd Meddwl cleifion mewnol a chymunedol	Nodi gofynion ystâd iechyd meddwl ac opsiynau posibl. Cynlluniau pellach ar gyfer ward Adsefydlu Iechyd Meddwl Oedolion wrth i ni symud i Fodel Cymunedol	Cadarnhau'r dull ystad Iechyd Meddwl a ffefrir a'r camau wedi'u halinio â'r gwasanaeth a'r gweithlu; Datblygu Gwasanaeth Adsefydlu Cymunedol i Oedolion	Cynlluniau manwl wedi'u datblygu ar gyfer yr holl wasanaethau cleifion mewnol Iechyd Meddwl; Symud ymlaen â chydleoli wardiau Oedolion Hŷn Iechyd Meddwl

Blaenoriaeth	Llif gwaith		Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
Mynediad a Chynaliadwyedd	Cynllunio Rhanbarthol		Model a llwybr arthroplasti sylfaenol wedi'u datblygu yn ogystal â model gweithlu a chyllid	Datblygu cynllun y Gweithlu Radioleg	Adnewyddu galw a chapasiti arthroplasti (D&C) ac asesu metrigau monitro perfformiad	Datblygu cynllun ar gyfer cyfleoedd orthopedig is-arbenigedd
			Grŵp rheoli diagnosteg rhanbarthol wedi'i sefydlu	Cytundeb RJC ar yr achos busnes ar gyfer Patholeg Cellog Ranbarthol	Sefydlu model academi hyfforddi endosgopi a model gweithredu ar gyfer unedau rhanbarthol; Ailadrodd D&C i lywio Parc Iechyd Llantrisant; Ystyried model triniaeth gymhleth gyda'r JCC	Ymateb a chynnig rhanbarthol i raglen Sgrinio'r Ysgyfaint
			Datblygu Achos Busnes ar gyfer Uned Patholeg Cellog Ranbarthol;	Model Cynghrair Offthalmoleg Ranbarthol – Peilot Cataractau; Gweithredu Llygaid Agored, OPERA a rhannu Rhestr Triniaeth Cleifion (PTL); Datblygu cynllun gweithlu strategol cynhwysfawr	Gweithredu un llwybr rhanbarthol ar gyfer cataractau	Yn dilyn cytundeb ar achos busnes Patholeg Cellog, cytundeb ar safle a datblygiad cysylltiedig;
					PTL Canser a Rennir wedi'i sefydlu	Timau Amlddisgyblaethol Canser SEW i gyflwyno Siarter a chanllawiau MDT Cenedlaethol mewn modd cyson; Cyflwyno camau gweithredu MAG canser; Cynllun gweithlu Oncoleg Rhanbarthol

Blaenoriaeth	Llif gwaith		Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
Gwella Ansawdd a Phrofiad	Gofal Sylfaenol		Cynnal adolygiad o wasanaethau atodol y NCN i ddeall y bwlch yn y ddarpariaeth	Archwilio opsiynau i ymgysylltu ar sail amlasiantaeth i leihau anghydraddoldeb	Asesu lefel y capasiti cudd ar gyfer darparwyr Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol ac archwilio'r capasiti ar gyfer atgyfeiriadau rhwng practisau	Cynnal adolygiad diwedd blwyddyn i lywio dadansoddiad o fylchau ac ymgorffori'r hyn sydd wedi'i ddysgu ar gyfer 27/28
	Adferiad Gofal Brys <i>[MT: Gofal Brys a Gofal Mewn Argyfwng]</i>	MD	Adolygu model clinigol dros dro'r Adran Argyfwng a nodi a oes unrhyw gyfleoedd digidol i gefnogi'r ddarpariaeth	Gwerthuso eTriage; Datblygu llwybr anafiadau i'r pen, gan edrych ar sut i'w ddefnyddio mewn ysbytai yn y lle cyntaf	Mapio proses cleifion yr Adran Argyfwng a nodi heriau, risgiau a meysydd i'w gwella	Nodi cyfleoedd ar gyfer llif system o fewn yr Adran Argyfwng i greu lle o fewn yr adran
	Babanod a Phlant <i>[MT: Iechyd Menywod]</i>	MD	Symud MatNeo A3 ymlaen i ddatblygu man gofal pontio a gwelyau ôl-enedigol ychwanegol; Adolygiad gweithlu o wasanaethau sonograffeg ac archwiliad parhaus o fabanod sydd wedi'u geni'n llai na'r disgwyl yn ogystal â dysgu ar y cyd	Gwelliannau parhaus i'r Ward Newyddenedigol drwy weithredu cynllun gweithredu asesu risg; Cryfhau'r rhyngwyneb rhwng gwasanaethau mamolaeth a gwasanaethau newyddenedigol gyda hyfforddiant lles i staff y Tîm Amlddisgyblaethol	Symud MatNeo A3 ymlaen i ddatblygu man gofal pontio a gwelyau ôl-enedigol ychwanegol; Gwella'r broses ymchwilio ac adolygiad trylwyr o bob marw-enedigaethau a marwolaethau newyddenedigol	Gwelliannau Parhaus i Ward y Newyddenedigol drwy weithredu cynllun gweithredu asesu risg; Cyflwyno adolygiad Rhieni yn dilyn marwolaethau babanod fel Mesurau Profiad a Adroddwyd gan Gleifion (PREMS)

Blaenoriaeth	Llif gwaith		Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
Gwella Ansawdd a Phrofiad	Gofal Wedi'i Gynllunio a Chanser		Cynnal dadansoddiad bylchau o argymhellion GIRFT a datblygu cynllun gweithredu; Datblygu cynlluniau i wella cefnogaeth seicoleg i gleifion cancer	Arbenigeddau i ddatblygu a thracio cydymffurfiaeth â Fframweithiau CIN; Gweithredu cynlluniau i wella cefnogaeth seicoleg i gleifion cancer	Cyflwyno cynllun gweithredu argymhellion GIRFT; Gweithredu cynllun i sicrhau bod Uned y Llygaid yn bodloni safonau cydymffurfio RNIB	Cyflwyno cyffuriau NICE i gleifion Hematoleg; Gweithredu rhagsefydlu i gleifion sy'n aros am lawdriniaeth fel rhan o'u llwybr cancer
	Iechyd meddwl <i>[MT: Mynediad Iechyd Meddwl]</i>	MD	Cwblhau achrediad ward Oedolion Hŷn i lefel efydd o leiaf	Cwblhau achrediad ward Oedolion ac Anableddau Dysgu i lefel efydd o leiaf	Cwblhau achrediad ward Oedolion ac Anableddau Dysgu i lefel efydd o leiaf	Cwblhau achrediad ward gymunedol i lefel efydd o leiaf
		MD	Cynnal adolygiadau o farwolaethau a sicrhau bod mecanweithiau ar waith ar gyfer cofnodi yr hyn a ddysgwyd	Cynnal adolygiadau o farwolaethau a datblygu cynlluniau gwella yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd	Gweithredu cynlluniau gwella sy'n ymgorffori'r hyn a ddysgwyd o adolygiadau o farwolaethau	Ymgorffori cynlluniau gwella sy'n ymgorffori'r hyn a ddysgwyd o adolygiadau o farwolaethau

Blaenoriaeth	Llif gwaith		Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
Ymgorffori Gwerth ac Effeithlonrwydd (Camau Galluogi)	Gwneud y Gorau o Theatrau [MT: Gofal Wedi'i Gynllunio a Chanser]	EA	Cofnod manwl o'r hyn a ddysgwyd o Fis Perffaith T&O a meincnodi cenedlaethol i gyflawni safon EA; Gyrru gwelliannau o ran cychwyn yn hwyr/gorffen yn gynnar a theatrau	Defnyddio'r hyn a ddysgwyd o Fis Perffaith a meincnodi cenedlaethol i ddylunio cynllun gweithredu ar gyfer cyflwyno ehangach; Rhestru uniongyrchol ar gyfer cataractau; cyflwyno HVLC mewn Llawfeddygaeth Gyffredinol (yn amodol ar gytundeb codio)	Parhau i olrhain gwelliannau a datrys problemau mewn achosion o ddechrau'n hwyr/gorffen yn gynnar a chleifion canser yn mynychu'r Theatr o fewn 21 diwrnod yn unol â Llwybrau Delfrydol Cenedlaethol	Cyflawni Cyfradd Achosion Dydd HVLC o 25%; Parhau i olrhain gwelliannau a datrys problemau o ran cychwyn yn hwyr/gorffen yn gynnar
	Llwybrau Iechyd [MT: Gofal Wedi'i Gynllunio a Chanser]	EA	Cyflwyno 8 llwybr newydd ychwanegol; Datblygu dull i fonitro cysondeb a dolenni adborth meddygon teulu ar ôl brysennu	Cyflwyno 8 llwybr newydd ychwanegol; Ymgorffori trwy ddulliau cyfathrebu wedi'u targedu a grwpiau rhyngwyneb clinigol	Gweithredu 8 llwybr newydd ychwanegol; adolygiad bob 6 mis o ddata, defnydd, effaith a dysgu	Gweithredu 8 llwybr newydd ychwanegol; Troi cyfleoedd o adolygiad 6 mis yn gamau gweithredu pendant
	Trawsnewid Cleifion Allanol [MT: Gofal Wedi'i Gynllunio a Chanser]	EA	Adolygu defnydd gofod cleifion allanol drwy archwiliadau o ddefnydd o ystafelloedd/amser cychwyn a gorffen; cyflwyno cymhwysiad ôl-weithredol SOS/PIFU; Gweithredu Strategaeth Ddilysu;	Adolygiad o dempledi a chyflwyno safoni yn ôl arbenigedd (newydd, dilyniannau); Peilot ap trefnu apwyntiadau cleifion allanol yn Ysbyty Brenhinol Gwent; Arbenigeddau ychwanegol yn yr Uned Triniaeth Cleifion Allanol	Ymchwiliadau manwl pellach o Heb Fynychu/Methu Mynychu, Gweithio gydag arbenigeddau i wella'r defnydd, cyflwyno'r ap archebu i NHH ac YYF;	Parhau i weithio gydag arbenigeddau i wella defnydd
	Gofal Gwell a Gofal wedi'i Gomisiynu	EA	Cyflwyno Taliadau Uniongyrchol wedi'u halinio â deddfwriaeth o fis Ebrill 2026; Cyflwyno platfform digidol Care Cubed	Datblygu opsiynau llety amgen ar gyfer Anableddau Dysgu gan leihau'r cleifion sy'n cael eu hanfon y tu allan i'r ardal	Parhau i gyflwyno platfform Digidol Care Cubed	Datblygu opsiynau llety lechyd Meddwl Oedolion amgen gan leihau nifer y cleifion sy'n cael eu hanfon allan o'r ardal

Yr hyn y byddwn yn ei gyflawni – 2027/28

Cyflawniadau	
Graddio model Gofal sy'n Seiliedig ar Le i leoliadau ychwanegol wedi'i lywio gan yr hyn a ddysgwyd o beilot Torfaen a Blaenau Gwent	Dechrau cyflwyno'r model gwasanaeth Meddygaeth Aciwt y cytunwyd arno fesul cam ar draws pob safle, gan gynnwys ail-alinio'r gweithlu
Gweithredu cydrannau craidd a llywodraethu MDT ar draws pob NCN yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd o werthusiad 26/27	Gweithredu llwybrau hunangyfeirio Mynediad Agored llawn ar gyfer plant, oedolion a phobl hŷn
Cryfhau llwybrau iechyd menywod yn y gymuned drwy Fyrddau Partneriaeth Gwasanaeth Integredig	Cwblhau cyflwyno ailgynllunio model gwasanaeth lechyd Meddwl wedi'i alinio â chydgrynhoi ystadau
Cyflwyno ymyriadau wedi'u targedu ar gyfer practisau sy'n profi ansefydlogrwydd, gan ddefnyddio dadansoddiad galw a chapasiti ar lefel y NCN	Parhau i weithio ledled De-ddwyrain Cymru i ddarparu modelau gofal rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau bregus
Parhau i nodi cyfleoedd o ran llwybrau lle byddai adolygiad clinigol cyn trosglwyddo yn gwella profiad a chanlyniadau'r claf	Darparu gwell capasiti gofal pontio newyddenedigol a gwreiddio camau asesu risg yn gyson
Cyflawni rhyddhau cyson yn seiliedig ar feini prawf a gwneud y platfform rhyddhau digidol integredig yn llwyr weithredol	Cyflawni camau gweithredu wedi'u targedu ar gyfer Gwneud y Gorau o Theatrau a Thrawsnewid Cleifion Allanol
Gweithredu model Gwasanaeth Endosgopi 3C i leihau amseroedd aros a chynyddu cynaliadwyedd	Mewnosod y platfform digidol Care Cubed ar gyfer comisiynu CHC

Yr hyn y byddwn yn ei gyflawni – 2028/29

Nodau	
Model Gofal sy'n Seiliedig ar Le wedi'i wreiddio'n llawn, ledled Gwent, sy'n darparu cefnogaeth gydlynol a rhagweithiol ym mhob ardal	Gwasanaethau lechyd Meddwl wedi'u hachredu'n llawn sy'n dangos dibynadwyedd uchel a chanlyniadau diogelwch gwell
System gofal sylfaenol gynaliadwy gyda modelau contractwyr sefydlog, llwybrau aml-broffesiynol estynedig a gwell mynediad ar yr un diwrnod	GIRFT a fframweithiau cenedlaethol yn cael eu mabwysiadu'n eang i wella ansawdd a lleihau amrywiad diangen
Llwybrau gofal brys a gofal cymunedol di-dor sy'n lleihau cludo, mynychu'r ysbyty ac oedi wrth ryddhau	Gwelliannau sylweddol mewn effeithlonrwydd drwy Wneud y Gorau o Theatrau a Thrawsnewid Cleifion Allanol
Llif ysbyty wedi'i optimeiddio gydag arosiadau byrrach a gwell profiad i gleifion	Gostyngiad sylweddol mewn lleoliadau y tu allan i'r ardal

Mesur ein llwyddiant: Disgwyliadau Perfformiad		Targed Cenedlaet hol	Cyrraedd y Targed?	Llinell sylfaen	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
Cynnydd yn nifer y bobl sy'n defnyddio Gwasanaethau Rhagnodi Annibynnol Fferyllfeydd yn hytrach nag ymweld â'u Meddyg Teulu		-	-	36,649	11,405	22,810	34,215	45,620
Cynnal nifer yr ymgynghoriadau a gynhelir gan fferyllfeydd cymunedol o dan y Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin		-	-	88,603	24,968	49,936	74,903	99,871
Cynnal nifer y cleifion sy'n defnyddio Gwasanaethau Optometreg y GIG		-	-	265,118	66,820	132,559	198,839	265,118
Nifer y cleifion sy'n defnyddio gwasanaethau brys - Deintyddol		-	-	36,173	9,043	18,087	27,130	36,173
Cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau a dderbynnir i'r Gwasanaethau Ymateb Cyflym (CRT)		-	-	4,885	1,267	2,534	3,801	5,068
Cynnal cyfran yr atgyfeiriadau gan feddygon teulu a wneir i Ymateb Cyflym fel cyfanswm o'r holl asesiadau meddygol) ar gyfer pobl dros 65 oed		-	-	8%	8.5%	8.5%	8.5%	8.5%
Cynnal nifer y cysylltiadau Gofal Sylfaenol Brys (gan gynnwys rhithwir)		-	-	96,371	25,437	50,873	76,310	101,746
Cyflawni tuedd sy'n gostwng dros 12 mis o ran nifer y bobl sy'n wynebu oedi yn yr ysbyty fel y'i mesurir gan y dangosfwrdd Oedi yn Achos Llwybrau Gofal	MD	↓	Ie	180	150	140	130	120
Cyflawni tuedd sy'n gostwng dros 12 mis o ran nifer y dyddiau cyfan o oedi yn yr ysbyty fel y'i mesurir gan y dangosfwrdd Oedi yn Achos Llwybrau Gofal	MD	↓	Ie	6,165	4,500	4,200	4,160	3,840
Sicrhau nad oes unrhyw ambiwlans yn aros am dros 45 munud i drosglwyddo cleifion - Pob Lleoliad	MD	0	Na	1,230	733	455	374	364
Sicrhau nad oes unrhyw glaf mewn ambiwlans yn aros mwy na 45 munud i gael ei drosglwyddo— Adran Argyfwng Ysbyty Athrofaol y Faenor	TI	11% ↓ am 3 mis	Ie	787	578	400	330	320
Lleihau nifer yr oriau criw ambiwlans a gollir – Pob Lleoliad		-	-	2,988	1,949	1,250	1,031	960
Lleihau nifer yr oriau criw ambiwlans a gollir – Adran Argyfwng Ysbyty Athrofaol y Faenor		-	-	2,309	1,559	1,000	825	768
Lleihau nifer y cleifion sy'n treulio 12 awr neu fwy ym mhob cyfleuster gofal mewn argyfwng mawr a mân o'r amser cyrraedd hyd nes byddant yn cael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau o'i gymharu â'r un mis y flwyddyn flaenorol, gan adeiladu tuag at y targed cenedlaethol o sero.	MD	0	Na	1,089	1,066	875	908	799
Cynyddu a chynnal y targed cenedlaethol o ganran y cleifion sy'n aros <4 awr yn yr Adran Argyfwng/Uned Mân Anafiadaus		95%	Na	73.3%	75%	76%	76%	77%
Lleihad yn yr amser o gyrraedd yn yr Adran Argyfwng i Frysbenneu: dim aros dros 60 munud		-	-	343	300	200	400	200
Ni ddylai'r amser canolrifol rhwng cyrraedd adran argyfwng a chael asesiad gan benderfynydd clinigol fod yn fwy na 60 munud a dylid cynnal hyn am dri mis.	TI	<60 munud	Ie	136 munud	100	80	80	60
% o gleifion lle'r amheuir strôc a gafodd eu sganio o fewn 20 munud yn dilyn cychwyn y cloc		40%	Na	23.8%	25%	28%	31%	35%

Mesur ein llwyddiant: Disgwyliadau Perfformiad		Targed Cenedlaet hol	Cyrraedd y Targed?	Llinell sylfaen	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
% o gleifion a dderbyniwyd yn uniongyrchol i ward strôc aciwt <4 awr yn dilyn dechrau'r cloc		50%	Na	9.3%	20%	21%	22%	23%
% o gleifion strôc unigryw sy'n cael thrombectomi (pob math o strôc)		10%	Na	4.2%	5%	5%	6%	6%
% Wedi'i asesu gan unai Therapi Galwedigaethol neu Therapi Corfforol o fewn 24 awr, a Therapi Iaith a Lleferydd o fewn 72 awr		-	-	OT 20.0% PT 20.7% SaLT 64.4%	OT 25% PT 22.5% SaLT 66%	OT 27.5% PT 25% SaLT 68%	OT 30% PT 27.5% SaLT 70%	OT 32.5% PT 30% SaLT 72%
Gwella'r % o gleifion sydd wedi aros yn yr ysbyty sy'n cael eu rhyddhau cyn canol dydd		33%	Na	15.6%	16.5%	16.7%	16.9%	17.1%
Tuedd o welliant dros 12 mis yng nghanran y cleifion sy'n dechrau triniaeth canser bendant gyntaf o fewn 62 diwrnod o'r pwynt lle'r amheuwyd canser	MD	75%	Ie	55.9%	66.5%	74.3%	74.8%	75%
Gostyngiad yn yr ôl-groniad o gleifion sy'n aros dros 62 diwrnod (Llwybr Lle'r Amheuir Canser sengl)	MD	↓	Ie	344	350	300	240	170
Gostyngiad yn yr ôl-groniad o gleifion sy'n aros dros 104 diwrnod (Lle'r Amheuir Canser sengl)	MD	↓	Ie	95	105	90	72	50
% o gleifion brys lle'r Amheuir Canser a gafodd ddiagnosis o fewn 28 diwrnod o'r pwynt lle'r Amheuwyd		-	75%	73.6%	72.5%	75%	75%	75%
Nifer y cleifion sy'n aros dros 104 wythnos (pob cam)	MD	0	Na	50	842	1,577	2,213	3,022
Gostyngiad yn nifer y cleifion sy'n aros mwy na 8 wythnos am ddiagnosis penodol	MD	0	Ie	166	3,048	2,559	1,292	0
Nifer y cleifion sy'n aros dros 52 wythnos am apwyntiad Cleifion Allanol		0	Na	1,834	3,587	5,435	5,578	5,898
Nifer y cleifion sy'n aros dros 26 wythnos am apwyntiad Cleifion Allanol		0	Na	12,222	15,772	19,475	20,948	22,361
Gostyngiad yn y gyfradd atgyfeirio ar gyfer pob 100,000 o'r boblogaeth erbyn mis Rhagfyr 2026 - gan ddefnyddio Llwybrau Iechyd delfrydol	EA	↓	Ie	900	900	900	800	800
Monitro cyfraddau Heb Fynychu Clinigau cleifion allanol		<5%	Ie	5.2%	5%	5%	5%	5%
Gostyngiad yn nifer y cleifion sy'n aros 100% yn fwy na dyddiad targed apwyntiad dilynol cleifion allanol		25% ↓	Ie	31,478	29,150	27,542	25,574	23,606
Cynnydd yng nghyfradd yr Apwyntiadau Dilynol ar gais y Claf ar gyfer Sylw yn ôl Symptomau		↑	Ie	11.6%	13.5%	14%	14.5%	15%
Dim claf yn aros mwy na 14 wythnos am asesiad therapiwtig		0	Na	366	395	540	685	830
Nifer yr oedolion sy'n aros mwy na 14 wythnos am bob llwybr awdioleg		0	Na	5,628	5,988	6,432	6,932	7,385
Nifer y plant sy'n aros mwy na 6 wythnos am bob llwybr awdioleg		0	Na	1,455	1,177	1,428	1,512	1,762

Mesur ein llwyddiant: Disgwyliadau Perfformiad		Targed Cenedlaet hol	Cyrraedd y Targed?	Llinell sylfaen	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
Defnydd o Theatrau: dechrau'n hwyr i lai nag 20%	EA	20%	Na	37%	35%	32%	29%	25%
Defnydd o Theatrau: gorffen yn gynnar i lai nag 10%	EA	10%	Na	30.7%	22.5%	20%	17.5%	15%
Defnydd o Theatrau: defnyddio 85% o sesiynau	EA	85%	Ie	83.1%	85%	85%	85%	85%
Cyflawni gwelliannau mewn cyfraddau llawdriniaethau ddydd, wedi'u mesur drwy gyfraddau achosion dydd Cymdeithas Llawfeddygaeth Ddydd Prydain		80%	Ie	77%	78%	79%	80%	80%
Cynnal Rhan 1a Oedolion i'r targed cenedlaethol (asesiad o fewn 28 diwrnod)		80%	Ie	85.7%	80%	80%	80%	80%
Cynnal Rhan 1b Oedolion i'r targed cenedlaethol (ymyrraeth o fewn 28 diwrnod)		80%	Ie	94.8%	80%	80%	80%	80%
Cynnal cyfraddau Rhan 2 Oedolion (nifer yr unigolion sydd â chynllun gofal a thriniaeth dilyys)		90%	Ie	91.7%	90%	90%	90%	90%
Cynnal y gyfradd ar gyfer derbyn therapi seicolegol o fewn 26 wythnos		80%	Na	47%	56%	58%	60%	62%
Cynnal targed cenedlaethol Rhan 1a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (asesiad wedi'i gwblhau o fewn 28 diwrnod)		80%	Ie	96.8%	80%	80%	80%	80%
Cynnal targed cenedlaethol Rhan 1b Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (ymyrraeth wedi'i chwblhau o fewn 28 diwrnod)		80%	Ie	83.8%	80%	80%	80%	80%
Cynnal targed cenedlaethol Rhan 2 Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc		90%	Ie	92.6%	90%	90%	90%	90%
Gwelliant mewn cydymffurfiaeth ag amseroedd aros niwroddatblygiad		80%	Ie	51.6%	60%	60%	60%	60%
Cynnal cydymffurfiaeth o 80% ag Asesiadau o Ddewis Gwasanaethau Iechyd Meddwl Arbenigol Plant a Phobl Ifanc o fewn 28 diwrnod i'r atgyfeiriad		80%	Ie	93.2%	80%	80%	80%	80%
Rhoi camau gweithredu ar waith i sicrhau gostyngiad sylweddol yn nifer y cleifion sy'n cael eu hanfon y tu allan i'r ardal yn 2026/27, a'r costau cysylltiedig.	EA	↓	Ie	0	0	0	0	0
Tuedd ar i lawr yn ystod 12 mis treigl o ran cyfartaledd fras marwolaethau a chynnal cyfradd aildderbyn wastad dros 7 diwrnod.	MD	↓	Ie	1.36%	1.39%	Rhaglen i ragweld %	Rhaglen i ragweld %	Rhaglen i ragweld %
Dyddiau o ofal diogel a ddarparwyd ers y digwyddiad byth diwethaf, wedi'u monitro gan ddefnyddio Siart-T SPC	MD	Cyflwyno	Ie	Ddim yn ei le	Cyflwyno	Cyflwyno	Cyflwyno	Cyflwyno
Canran y cwynion a gafodd eu datrys yn gynnar - targed o 40% erbyn Mawrth 2027	MD	40%	Ie	33.9%	35%	36.5%	38%	40%
Mae'n rhaid i'r gwasanaeth codio clinigol sicrhau bod o leiaf 95% o achosion cleifion mewnol ac achosion dydd wedi'u codio'n llawn o fewn un mis adrodd ar ôl eu rhyddhau, yn unol â mesurau cenedlaethol.	MD	95%	Na	89.9%	91%	91%	91%	91%

Bywydau Gwell: Gyda'n gilydd byddwn yn creu cymunedau cryf, diogel a chysylltiedig.

Canlyniadau:

Bydd pobl yn ei chael hi'n haws cysylltu â'u cymunedau, defnyddio gwasanaethau lleol, a theimlo eu bod yn cael eu parchu

Bydd y gyllideb sy'n cael ei gwario ar wasanaethau yn y gymuned wedi cynyddu ledled Gwent

Bydd mwy o bobl yn cymryd rhan yn eu cymuned leol er mwyn lleihau unigrwydd a chefnogi iechyd da

Blaenoriaethau

Mannau Iach

Cymunedau Gwydn a Chysylltiedig

Mannau Diogel

Ansawdd bywyd

Datganiadau Ansawdd

DIOGEL

Sicrhau ffocws system gyfan ar draws pob maes gwasanaeth gan gynnwys tai, hamdden, TEC, y trydydd sector ac eraill

EFFEITHIOL.

Ymgorffori diwylliant sy'n annog ac yn galluogi arloesi er mwyn gwella canlyniadau

TEG

Gwasanaethau sydd wedi'u cyd-gynhyrchu sy'n defnyddio asesiad o anghenion lleol i ddeall a diwallu anghenion y boblogaeth

AMSEROL

Darparu ymyriadau, triniaethau a gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn y lleoliad mwyaf priodol

EFFEITHLON

Dull sy'n seiliedig ar werth er mwyn gwella canlyniadau sydd bwysicaf i bobl mewn ffordd sy'n gynaliadwy

CANOLBWYNTI O AR Y PERSON

Gweithio mewn partneriaeth â'r trydydd sector i ddarparu cyfleoedd cymorth gan gymheiriaid i'r rheiny sydd â phrofiad bywyd

Pam bod hyn yn Flaenoriaeth

Fel Rhanbarth Marmot, mae Gwent wedi ymrwmo i leihau anghydraddoldebau iechyd drwy ganolbwyntio ar benderfyniadau cymdeithasol iechyd.

Mae lleoedd iach yn cwmpasu'r ardaloedd lleol rydyn ni'n treulio amser ynddynt. Mae trigolion Gwent wedi nodi bod teimlo'n rhan o gymuned, a gallu cymdeithasu, yn ffactorau pwysig ar gyfer iechyd da. Mae data diweddar yn dangos mai dim ond tua dwy ran o dair o drigolion Gwent sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal, bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda, a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth. At hyn, roedd pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn aml yn nodi eu bod yn teimlo'n ynysig ac eisiau opsiynau trafndiaeth gwell i'w helpu i deithio ar draws Gwent.

Er mwyn cefnogi **cymunedau gwydn a chysylltiedig**, rydym wedi ymrwmo i gynyddu'r gyllideb a'r capasiti ar gyfer gwasanaethau yn y gymuned. Yng Ngwent, mae tua 12% o oedolion yn nodi eu bod yn unig, tra bod mwy na thraean o bobl ifanc yn nodi na allant ddibynnu ar ffrindiau pan fydd pethau'n mynd o chwith. Mae tystiolaeth yn dangos effaith niweidiol unigrwydd gan ei fod yn cynyddu'r risg o farwolaeth gynamserol yn sylweddol. Mae hyn yn cyfateb i 15 sigarét y dydd. Mae Cymru ar flaen y gad gyda'i fframwaith Rhagnodi Cymdeithasol Cenedlaethol ac

rydym ni wedi ymrwmo i gysylltu a defnyddio'r cryfderau presennol o fewn cymunedau i'w galluogi i ffynnu.

Mae cael mynediad at **fannau diogel** yn agwedd bwysig ar lesiant, ac yn berthnasol o ystyried mai yng Ngwent y mae'r gyfradd uchaf o ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig a gofnodwyd gan yr heddlu yng Nghymru a Lloegr o hyd, sef 34 ar gyfer bob 1,000 o'r boblogaeth yn 2025. Mae tua 57% o drigolion yn teimlo'n ddiogel ar ôl iddi nosi pan fyddant gartref, yn teithio, neu'n cerdded yn eu hardal leol. Fodd bynnag, roedd hyn yn amrywio o 47% ym Mlaenau Gwent i 76% yn Sir Fynwy, gan dynnu sylw at heriau amrywiol ar draws ein cymunedau lleol.

Mae ansawdd bywyd yn fesur o'n lles cymdeithasol, corfforol ac emosiynol, ac rydym eisiau mwynhau ansawdd bywyd da gydol ein hoes, tra byddwn yn yn iach ac yn wael. Rydym wedi ymrwmo i gefnogi lles trigolion trwy fentrau megis caffis cymorth, Melo, ein gwefan hunangymorth ar gyfer iechyd meddwl, a rhaglenni "rhagsefydlu" newydd a gynlluniwyd i gyflymu adferiad a lleihau cymhlethdodau yn dilyn triniaeth.

Drwy flaenoriaethu Bywydau Gwell, gallwn adeiladu cymunedau cryfach, mwy diogel a mwy cysylltiedig a rhoi cyfle i bawb fyw bywydau hirach, iachach ac hapusach.

Blaenor iaeth	Llif gwaith		Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
Mannau Iach	Amgylchedd Adeiledig a Mannau Gwyrdd	P	Gwella iechyd drwy'r amgylchedd adeiledig drwy brosesau cynllunio a chydweithio integredig ledled Gwent	Menter Gofod Gwyrdd Blaenau Gwent i wella iechyd a lles trwy ddefnyddio gerddi a gofod awyr agored	Gwella iechyd drwy'r amgylchedd adeiledig drwy brosesau cynllunio a chydweithio integredig ledled Gwent	Ymgorffori partneriaethau natur ar draws rhwydweithiau lles integredig sydd wedi’u halinio â gofal sy'n seiliedig ar le
	Partneriaethau Addysg ac Ysgol	P	Dull ysgol gyfan ar gyfer rhaglen lles emosiynol a meddyliol; datblygu a dechrau cynllun cyflawni gyda Cynefin	Parhau i gyflwyno sesiynau sgiliau byr i athrawon gan gynnwys technegau sylfaenu ac ymateb i straen	Yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus yng Nghasnewydd, cyflwyno gweithdai pontio i blant blwyddyn 6 ledled Gwent	Parhau i weithredu dull ysgol gyfan ar gyfer cynllun cyflawni lles emosiynol a meddyliol mewn partneriaeth â Cynefin
Cymunedau Gwydn a Chysylltiedig	Adeiladu Gallu Cymunedol a Rhagnodi Cymdeithasol	P	Mapio asedau cymunedol presennol a gweithredu llwybr rhagnodi cymdeithasol i gyd-fynd â'r model Gofal yn Seiliedig ar Le; Gwella recriwtio rhwydwaith cyfeillion lles	Cyd-gynhyrchu model rhagnodi cymdeithasol trwy sesiynau dylunio ar y cyd â NCNs, Rhwydweithiau Lles Integredig, awdurdodau lleol, a phartneriaid y sector gwirfoddol	Gwaith parhaus ochr yn ochr â sefydliadau partner i nodi, cysylltu a defnyddio’r cryfderau presennol o fewn cymunedau i'w galluogi i ffynnu.	Parhau i weithio mewn partneriaeth â rhwydweithiau NCN, gan nodi bylchau yn y ddarpariaeth a gwerthuso cynlluniau peilot llwybrau rhagnodi cymdeithasol er mwyn eu cynnal ledled Gwent
	Gofalwyr	P	Datblygu canlyniadau a phartneriaethau penodol i ofalwyr ar draws y rhaglen	Sefydlu a chyflwyno model Achrediad sy'n Gyfeillgar i Ofalwyr	Parhau i weithredu cynllun Hwb Gofalwyr	Cyflwyno cynlluniau pontio diwedd y Gronfa Integredig Ranbarthol
	Trafnidiaeth	P	Dod o hyd i bartner cyflenwi newydd yn y sector gwirfoddol ar gyfer cludo cleifion	Datblygu asesiad o anghenion trafnidiaeth ac iechyd er mwyn nodi rhwystrau o ran mynediad	Ymgysylltu â phartneriaid ar ganlyniadau asesiad o anghenion trafnidiaeth ac iechyd	Treialu atebion o ran trafnidiaeth gymunedol er mwyn mynd i’r afael â heriau allweddol o ran mynediad at iechyd

Blaenoriaeth	Llif gwaith		Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
Mannau Diogel	Lleihau Cam-drin Domestig	P	Hyrwyddo Rhwydwaith Cynghreiriaid Dynion a darparu dealltwriaeth o effaith Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)	Gweithredu argymhellion asesiad o anghenion VAWDASV gyda phartneriaid amlasiantaeth	Parhau i gyflawni Dyletswydd Trais Difrifol yng Ngwent	Datblygu strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2027, wedi'i halinio â'r strategaeth genedlaethol
	Tai	P	Adolygu gwerthusiad Iechyd Cyhoeddus a Severn Wye a gweithredu'r canfyddiadau ym mhrosiect Cartrefi Cynhesach Gwent	Gweithio mewn Partneriaeth Dadansoddi data gofal sylfaenol, gan weithio gyda Meddygfeydd Teulu i nodi pobl ar gyfer y Prosiect Cartrefi Cynhesach	Cwblhau a chyflawni cynnig 2026 ar gyfer Cymorth Cartrefi Cynhesach; Cwblhau asesiad Tai ac Iechyd a meincnodi gyda phartneriaid	Gweithio mewn Partneriaeth Gwerthuso llwyddiant ymgorffori data gofal sylfaenol yn i waith adnabod y garfan Cartrefi Cynhesach
Ansawdd bywyd	Cadw'n Iach	P	Adolygu gwaith a gomisiynwyd gan y Trydydd Sector er mwyn deall sut y gallant gefnogi lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd orau	Gwella iechyd a lles cleifion sy'n cael mynediad at ofal wedi'i gynllunio trwy baratoi'n rhagweithiol ar gyfer triniaeth	Datblygu ac ymgysylltu parhaus ar draws ein cymunedau ar Melo er mwyn cefnogi lles meddyliol	Gwella iechyd a lles cleifion sy'n cael mynediad at ofal wedi'i gynllunio trwy baratoi'n rhagweithiol ar gyfer triniaeth
	Adferiad ac Adsefydlu	P	Datblygu cyfeiriadur cymunedol yn amlinellu gwasanaethau cyn-ysbyty a rhyddhau; Sefydlu Caffi Canser arall, a redir gan wirfoddolwyr yng Nghanolfan Lles 19 Hills	Datblygu manyleb gwasanaeth Eiriolaeth Dementia Cenedlaethol gyda'r uchelgais o greu darpariaeth seiliedig ar le wedi'i alinio â hwb lleol	Cyflwyno fframwaith adsefydlu sefydliadol yn dilyn datblygiad drwy ymgysylltu eang	Archwilio cynllun cyfalaf i gynnal y gwasanaeth hwb dementia presennol a ddarperir gan Gymdeithas Alzheimer
	Gofal Diwedd Oes		Rhoi ffrydiau gwaith newydd ar waith (Gweithlu, Cyflenwi Clinigol, Digidol a Data, Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd a Phrofedigaeth a Chymorth Gofalwyr) wedi'u halinio â manyleb a fframwaith cymhwysedd y Gwasanaeth Cenedlaethol Newydd	Mae ffrydiau gwaith newydd yn dechrau gyda dull system gyfan a mesur llwyddiant wedi'u cytuno gyda dangosyddion perfformiad allweddol	Parhau i weithredu amcanion allweddol yn erbyn y pum ffrwd waith sydd wedi'u halinio â'r fframwaith manyleb a chymhwysedd cenedlaethol gydag atebolrwydd system gyfan.	Gwerthusiad o gyflawniad yr amcanion allweddol a nodwyd yn erbyn y pum ffrwd waith er mwyn llywio cyflawniad yn 27/28

Yr hyn y byddwn yn ei gyflawni – 2027/28

Cyflawniadau	
Cyflwyno fframwaith ar gyfer asesu effaith iechyd o fewn gwaith cynllunio ardaloedd lleol	Cwblhau a lansio'r strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) newydd
Sefydlu fforwm partneriaeth iechyd traws-addysg	Graddio ymyriadau Cartrefi Cynhesach ar draws carfannau blaenoriaeth
Ehangu'r rhwydwaith cyfeillion lles a'i ymgorffori ar draws NCNs	Mewnosod y cyfeiriadur cymunedol ar gyfer gwasanaethau cyn-ysbyty a rhyddhau
Asesiad aeddfedrwydd o'r Hwb Gofalwyr gydag argymhellion ar gyfer cynaliadwyedd	Gweithredu llwybr cymorth seicolegol ar draws gofal lliniarol arbenigol

Yr hyn y byddwn yn ei gyflawni – 2028/29

Nodau	
Effeithiau ar iechyd yn cael eu hystyried yn gyson ym mhob penderfyniad cynllunio mawr	Mae strategaeth VAWDASV ranbarthol yn cyflawni gostyngiadau mesuradwy mewn niwed
Llesiant cymunedol a rhagnodi cymdeithasol wedi'u hymgorffori'n llawn ledled Gwent	Canlyniadau iechyd gwell trwy lwybrau rhag-sefydlu ac adsefydlu
Effeithiau tai gwael ar iechyd wedi'u lleihau	Gofal Diwedd Oes Cyson a Chyfartal ar draws pob lleoliad

Mesur ein llwyddiant: Disgwyliadau Perfformiad		Targed Cenedlaethol	Cyrraedd y Targed?	Llinell sylfaen	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
Cynnydd mewn capasiti nyrsio cymunedol a nyrsio gofal lliniarol arbenigol ar benwythnosau i o leiaf y lefelau gofynnol a osodwyd yn flaenorol ar gyfer 2024/25	MD	↑	Ie	91,128	29,556	59,112	88,667	118,223
Cynnal 95% o atgyfeiriadau Gofal Lliniarol a aseswyd o fewn 2 ddiwrnod		-	-	91%	92%	93%	94%	95%
Nifer yr ymweliadau â Gwefan Melo		-	-	33,844	12,000	24,000	36,000	48,000

Gyda'n partneriaid mae gwaith parhaus yn mynd rhagddo i ddiffinio dangosyddion perfformiad Bywydau Gwell drwy gydol 2026/27. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys datblygu Fframwaith Dangosyddion Iechyd y Cyhoedd Gwent a Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd Gwent. Bydd tystiolaeth o'r gwaith hwn yn cael ei gynnwys yn yr adroddiadau perfformiad a'n cynllun ar gyfer 2027/28.

Adran 4 Galluogwyr

Ansawdd

**Gweithlu a
Diwylliant**

**Digidol, Data a
Thechnoleg**

Ystadau

Cyllid

Iechyd gwyrdd

**Gwerth, Arloesi
ac Ymchwil**



Ansawdd a diogelwch yw blaenoriaeth uchaf y Bwrdd Iechyd o hyd, ac yn sail iddynt mae'r Dyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd statudol. Mae'r dyletswyddau hyn yn siapio'r ffordd y mae sicrwydd yn llifo o'r ward i'r Bwrdd ac maent wedi'u hymgorffori drwy'r Fframwaith Rheoli Ansawdd (2025–28) sydd wedi'i chryfhau a'r System Rheoli Ansawdd (QMS) sy'n datblygu. Gyda'u gilydd mae'r rhain yn darparu dull cyson, ar draws y sefydliad, ar gyfer cynllunio, rheoli, sicrwydd a gwell.

Mae dwyn ynghyd Ansawdd a Diogelwch Cleifion, PTR, Gwasanaethau Cyfreithiol a Gwell Ansawdd wedi gwella cysondeb, cryfhau gallu uwchgyfeirio, a chyflymu'r symud o ganfyddiadau digwyddiadau neu archwiliadau i weithredu a sicrwydd. Mae data amser real, profiad byw a strwythurau llywodraethu cliriach bellach yn gyrru'r broses o wneud penderfyniadau drwy ein strwythurau.

Y ffocws ar gyfer 2026/27 yw parhau i ymgorffori'r QMS, sefydlogi'r Fframwaith Canlyniadau Ansawdd, a chryfhau'r systemau, y prosesau a'r diwylliant sydd eu hangen ar gyfer dibynadwyedd uchel. Bydd arweinyddiaeth weladwy o ran diogelwch, diogelwch seicolegol a sicrwydd amser real yn hanfodol. Mae disgwyliadau gweinidogol ar gyfer ansawdd wedi'u cofnodi yn *[MT: Ansawdd]*

System Rheoli Ansawdd a Fframwaith Canlyniadau Ansawdd – Yn 2025/26 fe gryfhaom ddisgyblaeth weithredol y QMS drwy gyflwyno dangosyddion mwy safonol, naratif cliriach a delweddu cyson ar draws y sefydliad. Gwellodd gwaith i awtomeiddio llif data a sefydlogi diffiniadau ar draws y chwe philer ddibynadwyedd adrodd. Roedd data siart a oedd yn cael ei redeg yn ronnynog ar gyfer dangosyddion allweddol, megis wlserau pwysau a chwympiadau, yn galluogi adnabod amrywiad yn gynharach ac yn cefnogi camau gweithredu mwy targedig. Yn 2026/27 byddwn yn:

- Ymgorffori disgyblaeth weithredu QMS, gan symud o fframwaith i waith safonol
- Galluogi dangosfyrddau QOF i ddrilio i lawr i lefel yr ardal glinigol
- Cryfhau'r gallu i ddehongli amrywiad gan ddefnyddio siartiau wedi'u safoni
- Darparu synthesisau dysgu chwarterol cliriach ar gyfer QMG a PQSOC
- Cryfhau cydweithrediad â Data a Thechnoleg Digidol i gynnal iaith weledol unedig a chefnogi awtomeiddio.

Ymgorffori Diwylliant Dysgu - Mae ymgorffori diwylliant dysgu yn golygu nodi themâu'n gyson ar draws digwyddiadau, cwynion, archwiliadau, marwolaethau ac adborth, a throi'r mewnwelediadau hyn yn welliannau cynaliadwy. Mae triongli cryfach, adolygiadau strwythuredig, cronfeydd dysgu hygyrch ac ymgysylltiad dyfnach â chleifion, teuluoedd a staff yn gwneud dysgu'n fwy gweladwy, yn haws i'w olrhain ac yn rhywbeth y gellir ei gysylltu â chanlyniadau wrth i'r QMS aeddfedu. Yn 2026/27 byddwn yn:

- Ymgorffori adrodd ar Effeithiolrwydd Clinigol wedi'i safoni
- Cryfhau data ar ganlyniadau a chynllunio archwilio integredig
- Sicrhau dolenni dysgu gweladwy, y gellir eu olrhain, sydd wedi'u cysylltu â chmau gwella
- Cynyddu dysgu, rhannu gwybodaeth a defnyddio'r storfa ddysgu
- Cryfhau'r gwaith triongli tystiolaeth feintiol ac ansoddol, gan gynnwys profiad byw

Llwybrau Cleifion sy'n Dirywio a Sepsis - Gwnaed cynnydd sylweddol wrth weithredu NEWS2, PEWS a NEWTT2, gyda chefnogaeth hyfforddiant cryfach trwy ESR a phecynnau lleol. Symud paratodau ar gyfer Call 4 Concern (Rheol Martha) yn eu blaen drwy gyfathrebu cydlynol. Daeth y Sgwrs Fawr ar Sepsis â phrofiad byw pwerus i mewn i waith gwella, gan atgyfnerthu'r angen am systemau uwchgyfeirio dibynadwy, cyfathrebu clir ac adnabod yn gynnar. Yn 2026/27 byddwn yn:

- Mabwysiadu'r EWS yn llawn ar draws pob maes, gan gynnwys mamolaeth unwaith y bydd y templed cenedlaethol ar gael
- Datrys problemau rhyngwyneb gweithredol a lleihau risgiau siartiau deuol
- Tracio effaith drwy fesurau dirprwyol amser i adnabod, amser i uwchgyfeirio a mesurau dirprwyol sy'n gysylltiedig â niwed
- Mabwysiadu "golwg hofrennydd" amser real CareFlow ar gyfer gweledd ward ac adnabod risg yn gynnar

Canlyniadau Clinigol, Marwolaethau, Archwilio ac Effeithiolrwydd – Fe symudom gyflawniad Archwilio yn ei flaen o dan raglen y cytunwyd arni, gyda chefnogaeth AMaT fel un system dryloyw ar gyfer rheoli canfyddiadau a chmau gweithredu. Cryfhawyd prosesau Dysgu o Farwolaeth trwy dempledi gwell, dilysu data gwell a thriongli gwell gyda data archwilio, diogelwch a chanlyniadau. Llywiodd allbynnau thematig CSEG, QMG a PQSOC, a darparwyd golwg fwy integredig o niwed ac amrywiadau o fewn y system. Yn ystod 2026/27 byddwn yn:

- Integreiddio'r rhaglen olrhain archwiliadau CSEG gyda'r QMS



- Canolbwyntio'r Cynllun Archwilio ar gamau gweithredu wedi'u cwblhau a newid amlwg
- Darparu crynodebau “cau’r ddolen” chwarterol i QMG a PQSOC
- Cryfhau dysgu am farwolaethau, gan sicrhau camau gweithredu gweladwy sy'n gysylltiedig â chanlyniadau

Profiad y Claf, PTR a'r System Ddysgu - Prosesau PTR yn gwella trwy gydnabyddiaeth gynharach, cyswllt cychwynnol mwy cyson a chyflwyno dangosfyrddau dilysu Datix. Llwyddodd gwaith LEAN wedi'i dargedu, yn enwedig mewn Meddygaeth, i leihau oedi a gwella ansawdd data. Chwaraeodd straeon cleifion a staff rôl gynyddol bwysig wrth siapio gwelliant a chefnogi diwylliant tosturiol, cyfiawn sy'n seiliedig ar ddysgu. Yn ystod 2026/27 byddwn yn:

- Cydgrynhoi gwelliannau yn amser cylchred PTR a rheoli ôl-groniadau
- Rhoi mwy o sylw i adborth amser real
- Cyhoeddi crynodebau dysgu bob deufis ar gyfer timau rheng flaen
- Monitro lleihad mewn gwallau Datix ac ansawdd data trwy siartiau a redir gan QMS
- Cyd-gynhyrchu straeon sy'n tynnu sylw at broblemau yn y system a chamau gwella
- Cryfhau tryloywder ac ymddiriedaeth trwy ddysgu sy'n seiliedig ar straeon ac ymgysylltu tosturiol.

Heintiau, Atal a Rheoli a Chydymffurfiaeth Iechyd a Diogelwch - Mae hanfodion IPC ac Iechyd a Diogelwch wedi'u cryfhau trwy well gwyliadwriaeth, gwell goruchwyliaeth RIDDOR, safoni polisïau a chau camau gorfodi diogelwch tân. Lleihawyd risgiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â phroblemau ystadau, ac roedd datblygiad cynnar y Strategaeth Atal a Lleihau Trais yn adlewyrchu'r angen cynyddol i gefnogi diogelwch a lles seicolegol staff. Yn 2026/27 byddwn yn:

- Cynnal cydymffurfiaeth statudol tra'n symud i leihau risg mewn modd rhagweithiol
- Tracio hyfforddiant ac amseroldeb adrodd ar RIDDOR
- Cyflwyno teithiau cerdded diogelwch wedi'u targedu
- Cynnal gwelliannau diogelwch tân a chlirio'r ôl-groniad y polisi
- Cyflwyno ymyriadau atal trais yn seiliedig ar ddata
- Cryfhau perchnogaeth timau rheng flaen o risgiau IPC ac Iechyd a Diogelwch, gan gynnwys ffactorau amgylcheddol.

Gofal Diwedd Oes a Phrofedigaeth – Mae hyn yn parhau i gryfhau trwy fodel GRACE, gyda llwybrau cliriach, cefnogaeth gynharach a gofal agosach ansawdd ar draws timau ward, timau lliniarol, caplaniaeth, corffdy a thimau chymunedol. Mae un pwynt cyswllt, Graces' Places yn y gymuned a hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Alar yn gwella parhad, cyfathrebu a hyder staff, gan helpu i sicrhau bod teuluoedd yn derbyn cefnogaeth dosturiol a chyson cyn ac ar ôl marwolaeth. Yn ystod 2026/27 byddwn yn:

- Ymgorffori model GRACE gyda llwybrau clir ac un pwynt cyswllt
- Cryfhau rhag-gynllunio a dogfennu
- Ehangu Graces' Places a chefnogaeth galar yn y gymuned
- Gwella cydlyniad amlddisgyblaethol ar draws gwasanaethau diwedd oes
- Cynyddu hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Alar i feithrin hyder staff.

Gwella Ansawdd - Cychwynnom ymgorffori'r Fframwaith Gallu Gwella Ansawdd 2025–2028, gan gryfhau ein diwylliant o welliant parhaus trwy lansio'r Rhaglen Anogwyr Gwella Ansawdd gyda gwelliannau mesuradwy mewn llwybrau canser, llif llawfeddygol, diogelwch theatrau a dirywiad wardiau. Y flwyddyn nesaf byddwn yn:

- Ymgorffori ymarfer QI a chefnogi anogwyr QI
- Sefydlu Cyfadran QI a piblinell o arweinwyr QI ar draws y sefydliad
- Treialu'r Rhaglen Datblygu Arweinwyr QI newydd

Mae ein galluogwyr allweddol yn cyd-fynd â'r galluogwyr o fewn y Safonau Iechyd a Gofal:

Galluogwyr Ansawdd	Arweinyddiaeth- arweinyddiaeth weledol ac atebol sy'n gyrru gwella ansawdd
	Gweithlu- adeiladu galluedd, sgiliau QI a diogelwch seicolegol
	Diwylliant- diwylliant sy'n canolbwyntio ar fod yn agored, dysgu, tegwch a phrofiad bywyd
	Gwybodaeth – data dibynadwy, siartiau wedi'u safoni, gwelededd amser real
	Dysgu, Gwella ac Ymchwil – llwybrau archwilio i welliant, rhwydweithiau QI
	Dull System Gyfan- trefniadau llywodraethu integredig, cyd safonau, perchnogaeth ar lefel is-adrannau

Rydym yn ailddatgan ein hymrwymiad i ddarparu gofal diogel, effeithiol a thosturiol drwy ymgorffori disgyblaeth weithredu'r QMS, sefydlogi'r QOF, cryfhau llwybrau cleifion sy'n dirywio a sepsis, a sicrhau bod dysgu'n arwain at newid amlwg. Bydd y ffocws gweithredol hwn yn meithrin y gallu, yr amodau a'r cysylltiadau sydd eu hangen ar gyfer dibynadwyedd uchel a gwelliant mesuradwy mewn canlyniadau a phrofiad.

Cerrig Milltir 2026/27		
QMS, QOF, Integreiddio Data a QI	Ch1	Ymgorffori prosesau QMS ar draws y sefydliad a gwerthuso blwyddyn 1; Gweithredu siartiau wedi’u safoni a rhedeg dehongliadau o siartiau; Sefydlu grŵp dehongli data QOF a chytuno ar set o ddangosyddion QOF wedi’i halinio â Chymru gyfan.
	Ch2	Lansio ôl-werthusiad QMS diwygiedig; Treialu llif data QOF awtomataidd; Darparu crynodeb QMS/QOF chwarterol wedi’i ddiweddarau; Ymgorffori arfer QA
	Ch3	Gwella cysondeb allbynnau'r QMS; Cyhoeddi set o ddangosyddion QOF wedi'u halinio â Chymru Gyfan wedi'i mireinio; Sefydlu Cyfadran Gwella Ansawdd
	Ch4	Sicrhau bod QMS yn cael ei mabwysiadu gan y sefydliad cyfan, Cwblhau gwiriad sefydlogrwydd awtomeiddio QOF diwedd blwyddyn; Adolygiad blynyddol o fetrigau QOF; Rhaglen Datblygu Arweinwyr QI peilot
Diogelwch Cleifion	Ch1	Mabwysiadu EWS yn llawn mewn ardaloedd cleifion mewnol i oedolion
	Ch2	Integreiddio trosolwg risg amser real CareFlow
	Ch3	Mabwysiadu EWS mamolaeth llawn (yn dibynnu ar barodrwydd cenedlaethol)
	Ch4	Mewnosod canlyniadau CareFlow a gwerthuso metrigau sy'n gysylltiedig â niwed
Effeithiolrwydd Clinigol, Oedolion a Marwolaethau	Ch1	Lansio system olrhain archwiliadau CSEG
	Ch2	Cyflwyno crynodeb chwarterol gyntaf o archwiliadau “cau’r ddolen”
	Ch3	Cryfhau aliniad allbynnau archwilio, marwolaethau a QMS
	Ch4	Crynodeb terfynol blynyddol o archwilio a gwelliant
Profiad y Claf, PTR a System Ddysgu	Ch1	Gweithredu cylch PTR cyflymach (cydnabyddiaeth gynnar, cyswllt cyson)
	Ch2	Cylchredeg diweddariadau dysgu bob deufis ar draws y sefydliad
	Ch3	Ymgorffori straeon cleifion a staff sydd wedi'u cyd-gynhyrchu i mewn i’r busnes gweithredol
	Ch4	Cyflwyno allbynnau PTR diwedd blwyddyn gan ddangos cylchoedd cyflymach a dysgu sy'n cael ei yrru gan stori

Cyflawniadau 2027/28	Nodau 2028/29
Awtomeiddio QOF ac adrodd QMS yn llawn	Ymgorffori model gweithredu dibynadwyedd uchel yn llawn sy’n adnabod risg yn rhagweithiol
System ddiogelwch a dysgu integredig, gan gyfuno data i mewn i un olygfa driongllog	Cyflwyno Effeithiolrwydd Clinigol yn gyson ar draws y sefydliad
Cylchoedd dysgu Adrannol aeddfed, gyda dysgu safonol, adolygiadau thematig rheolaidd a thystiolaeth o ddolenni dysgu-i-weithredu	Gwelliant cynaliadwy mewn diwylliant diogelwch, fel y dangosir drwy fesurau diogelwch seicolegol a gostyngiadau o flwyddyn i flwyddyn mewn niwed y gellir ei osgoi



Mae ein Cynllun Pobl 2025–2030 yn adeiladu ar ein strategaeth gweithlu flaenorol ac yn gosod cyfeiriad pendant ar gyfer cefnogi a datblygu ein pobl. Mae wedi'i llunio trwy ymgysylltiad eang ar draws y Bwrdd Iechyd, ac mae'n adlewyrchu profiadau a dyheadau go iawn. Mae'r Cynllun yn parhau ein hymrwymiad i wella profiad gweithwyr, cryfhau arweinyddiaeth, galluogi trawsnewid, a chydabod cyfraniad hanfodol ein gwirfoddolwyr, sy'n rhoi dros **20,000** o oriau bob blwyddyn.

Rydym wedi gwneud cynnydd ystyrlon yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae swyddi gwag nyrsio a meddygol wedi lleihau trwy recriwtio a chadw swyddi wedi'u targedu, ac mae cadw swyddi sefydlog wedi helpu i leihau dibyniaeth ar asiantaethau a gwella parhad gofal. Rydym wedi cyd-gynhyrchu Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau, wedi cryfhau ein diwylliant Codi Llais Heb Ofn, wedi ehangu gwasanaethau lles, wedi ymgorffori arferion cydraddoldeb a chynhwysiant, ac wedi cyflwyno systemau digidol newydd i wella dadansoddeg a chefnogi effeithlonrwydd ar draws y gweithlu Meddygol a Deintyddol.

Rydym yn cydnabod bod heriau o hyd. Mae anghenion y boblogaeth yn newid, mae anghydraddoldebau iechyd parhaus, a demograffig sy'n heneiddio yn cynyddu'r pwysau ar wasanaethau. Mae disgwyliadau'r gweithlu'n newid, mae gallu digidol yn datblygu'n gyflym, ac mae'r cyflenwad yn y dyfodol yn ansicr. Mae'r ffactorau hyn yn tynnu sylw at yr angen am weithlu ystwyth sy'n canolbwyntio ar y dyfodol ac mae hyn yn siapio uchelgeisiau'r Cynllun hwn.




Ein gweithlu heddiw a'r heriau rydym yn eu hwynebu

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflogi **13,717** o staff WTE - cynnydd o 479 WTE yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda'r twf mwyaf mewn Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae ein cyd-destun demograffig yn cyflwyno pwysau hirdymor: erbyn 2030, disgwyliar i Went fod â thua **14,000** yn fwy o drigolion dros 65 oed, ond llai o bobl ifanc

mynd i mewn i'r farchnad lafur. Gyda chwarter o'n gweithlu eisoes dros 55 oed, rydym yn wynebu cynnydd mewn cyfradd gadael sy'n cael ei ysgogi gan ymddeoliad a bylchau sy'n ehangu mewn meysydd hanfodol. Mae Gofal Sylfaenol yn adlewyrchu'r un duedd, gyda **33%** o staff - a 22% o feddygon teulu - dros 55 oed.



Mae absenoldeb oherwydd salwch yn parhau i fod yn her sylweddol barhaus. Mae cyfraddau'n parhau'n gyson uwchlaw 6%, gyda **33%** o'r holl absenoldeb wedi'i briodoli i straen, gorbyder ac iselder. Mae absenoldeb yn yn uwch ymhlith ein gweithlu sy'n heneiddio, gan adlewyrchu tueddiadau ehangach mewn disgwyliad oes iach a chyflyrau cronig. Er bod cynnydd wedi'i wneud i leihau swyddi gwag mewn proffesiynau allweddol, mae prinder sgiliau yn parhau mewn rhai rolau clinigol a thechnegol.



Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn, mae'r Cynllun Pobl wedi'i strwythuro o amgylch tair colofn gydgyssylltiedig - **Gwell Iechyd a Llesiant , Gwell Gweithlu yn y Dyfodol a Bywydau Gwaith Gwell** . Gyda'i gilydd, maent yn darparu'r llwyfan ar gyfer datblygu gweithlu gwydn, tosturiol, a pharod ar gyfer y dyfodol sy'n cefnogi ein gweledigaeth o rymuso ein pobl i ffynnu fel y gallwn ofalu'n well am ein cymunedau.



Iechyd a Lles Staff

Mae cefnogi cydweithwyr i aros yn iach, teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, a ffynnu yn hanfodol o ran adeiladu gweithlu gwydn a chynhyrchiol. Mae'r Cynllun Pobl yn ymrwymo i gryfhau gwasanaethau lles, cynnal capasiti lechyd Galwedigaethol, gwella presenoldeb, a sefydlu arferion pobl tosturiol ac adferol.

Eleni, rydym yn parhau i wella ein diwylliant o ddiogelwch seicolegol a chodi llais. Gan adeiladu ar y Fframwaith Codi Llais Heb Ofn, rydym wedi ehangu'r seilwaith sydd ei angen ar staff i godi pryderon yn hyderus a gweld datrysiad amserol. Cynyddodd ymgysylltiad Arolwg Staff o **13.3%** i



32.5%, gan roi cipolwg cryfach ar ble mae angen i ni ganolbwyntio ymdrechion er mwyn meithrin ymddiriedaeth, perthyn a diogelwch.

Rydym yn parhau i ymgorffori arweinyddiaeth dosturiol fel y sylfaen ar gyfer newid diwylliant. Y llynedd, cwblhaodd **864** o gydweithwyr raglenni arweinyddiaeth, gyda 32% o gyfranogwyr Academi Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cael dyrchafiad. Mae datblygu arweinyddiaeth yn dod yn fwy cynhwysol, gyda mwy o gasglu data EDI yn digwydd i sicrhau mynediad teg. Mae gweithdai cynllunio talent ac olyniaeth yn helpu rheolwyr i nodi unigolion sydd â llawer o botensial a allai fod wedi cael eu hanwybyddu o'r blaen.

Mae lleihau absenoldeb oherwydd salwch yn flaenoriaeth bwysig ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Rydym eisiau dealltwriaeth fwy manwl o wraidd problemau ac eisiau cryfhau'r cefnogaeth ar gyfer staff sy'n profi straen, gorbryder ac iselder. Drwy wneud gwell defnydd o ddata, gallu rheolwyr gwell, a gwasanaethau lechyd Galwedigaethol a lles hygyrch a chynaliadwy, ein nod yw cefnogi cydweithwyr yn gynharach a lleihau absenoldeb hirdymor.

Gweithlu Gwell yn y Dyfodol

02 Mae datblygu gweithlu modern, ystwyth a pharod ar gyfer y dyfodol yn ianfodol ar gyfer darparu gofal o ansawdd uchel ar draws gofal aciwt, ymunedol a sylfaenol a lleoliadau ataliol. Gan alinio â'r Strategaeth Digidol sy'n dod i'r amlwg, byddwn yn canolbwyntio ar fentrau allweddol a gynnwys systemau digidol cenedlaethol, roboteg a gwella sgiliau digidol ein gweithlu i alluogi arferion modern ac effeithlonrwydd.

Mae ein cynllun yn ymrwymo i gynllunio gweithlu strategol, wedi'i arwain gan ddata, er mwyn deall gofynion gwasanaeth, alinio adnoddau a chryfhau gallu. Byddwn yn gweithio gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru i gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol ar draws Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, Gwyddonwyr Gofal Iechyd, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, Gofal Brys a Gofal Mewn Argyfwng, Gofal Sylfaenol, a phiblinellau addysg a hyfforddiant.

Bydd cydweithio rhanbarthol rhwng y gweithlu yn parhau i fod yn ganolog i gryfhau cynaliadwydd ledled De-ddwyrain Cymru a byddwn yn parhau i gefnogi a hysbysu er mwyn cefnogi a llywio rhaglenni

hysbysu er mwyn cefnogi a llywio rhaglenni rhanbarthol mewn Offthalmoleg, Orthopedig a Chanser, gan sicrhau bod ein cynlluniau rhanbarthol yn optimeiddio capasiti, gwydnwch ac yn cefnogi cynaliadwyedd hirdymor.

Er mwyn diwallu anghenion gwasanaeth sy'n esblygu, byddwn yn creu rolau arloesol a hyblyg sy'n ymateb i fodelau gofal, technoleg a chymhlethdod y boblogaeth sy'n newid. Byddwn yn cryfhau arfer uwch ac yn ehangu modelau gweithlu amlddisgyblaethol, sy'n seiliedig ar y gymuned, gan gynnwys ACPs, Ymgynghorwyr Nyrsio, CAAPs a rolau Anogwyr Iechyd sy'n dod i'r amlwg. Bydd ymarfer uwch hefyd yn tyfu o fewn maes adrodd radiograffeg, gyda mwy o rolau technegwyr fferyllol a rolau cynorthwyyr yn cefnogi wardiau dan arweiniad technegwyr, optimeiddio meddyginiaethau ac mentrau amlawdriniaethol newydd. Mae cefnogaeth a trefniadau llywodraethu i feddygon SAS wedi'u cryfhau trwy Siarter SAS, gan gynnwys y Polisi Ymarfer Awtonomaidd, cefnogaeth Llwybr Portffolio gwell a gwell ymsefydlu a mentora IMG, datblygiad gyrfa, lles ac ymarfer awtonomaidd diogel.

Byddwn yn adeiladu ar yr hyn sydd wedi'i ddysgu o ran recriwtio a chadw staff i gefnogi cydweithwyr i ddatblygu a thyfu, gan gryfhau timau amlddisgyblaethol cynaliadwy, lleihau cyflog amrywiol a gwella effeithlonrwydd. Ein nod yw gweithle lle mae pobl yn dewis ymuno, aros a datblygu ynddo, gan ymgorffori model gweithlu gwydn sy'n canolbwyntio ar y dyfodol.

Mae'r Contract Meddygon Preswyl newydd, a ddaw i rym ym mis Awst 2026, yn cyflwyno strwythur cyflog wedi'i foderneiddio a mesurau diogelwch cryfach ar gyfer hyfforddiant a lles. Er ei fod o fudd, bydd yn ei gwneud yn ofynnol i ni adolygu modelau gweithlu meddygol a chyfleoedd trawsnewid gwasanaethau oherwydd ei effaith weithredol. Bydd ein Grŵp Llywio, dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Meddygol, yn arwain y gwaith o'i weithredu ac yn ystyried y risgiau a'r cyfleoedd i sicrhau trosglwyddiad diogel a chynaliadwy.





Bydd ein gweithlu nyrsio yn esblygu yn ystod y flwyddyn nesaf o dan y Cytundeb Cenedlaethol ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd, a bydd cymysgedd mwy hyblyg o sgiliau sy'n cryfhau ein modelau gofal. Bydd hyn yn sicrhau cyflog teg, yn cefnogi datblygu sgiliau, ac yn galluogi staff i weithio ar eu gorau. Bydd adolygiad pendant o'r cymysgedd sgiliau, hyfforddiant wedi'i dargedu, a phiblinellau newydd—megis prentisiaethau gwyddor gofal iechyd Lefel 4 mewn awdioleg a dieteteg—yn ein helpu i ddarparu gofal mwy effeithiol ac ymatebol ac adeiladu gweithlu cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Gan edrych ymlaen at 2026/27, byddwn yn defnyddio Datrysiaid Gweithlu'r GIG y Dyfodol newydd - platfform modern, sy'n seiliedig ar y cwmwl, a fydd yn symleiddio prosesau, yn gwella ansawdd data ac yn gwella profiad staff. Er bod y manteision yn sylweddol, mae'r newid yn dod â risgiau sy'n gysylltiedig â'r capasiti a'r gefnogaeth arbenigol sydd eu hangen ar gyfer parodrwydd a gweithredu. Ein blaenoriaeth fydd datblygu parodrwydd sylfaenol a chryfhau strwythurau rhaglenni mewnol er mwyn sicrhau trosglwyddiad diogel a chynaliadwy.



Bywydau Gwaith Gwell

63 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i greu gweithle lle mae pobl yn teimlo'n falch o berthyn a thyfu. Byddwn yn parhau i gryfhau ein rôl fel sefydliad angor drwy weithio mewn partneriaeth ac, fel y cyflogwr mwyaf yng Ngwent, byddwn yn buddsoddi mewn cyflogaeth leol ystyrlon yn enwedig mewn cymunedau sy'n wynebu anghydraddoldeb economaidd. Rydym yn archwilio mynediad lleol

llwybrau a chefnogi datblygu sgiliau trwy fentrau fel Consortiwm Coleg Gwent, interniaethau â chymorth, Syrjeri Sgiliau, cynlluniau Cadetiaid a Chysylltu'r Coleg Nyrsio Brenhinol, ac Academi Nyrsys y Dyfodol. Mae'r rhaglenni hyn yn ehangu mynediad i drigolion lleol, gan gynnwys y rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur, ac maent yn hyrwyddo gyrfaedd teg, diogel ac ystyrlon sy'n cefnogi lles cymunedol a gweithlu a ddatblygwyd yn lleol ar gyfer y dyfodol yn unol ag egwyddorion yr economi sylfaenol.

Ochr yn ochr â hynny, mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 drwy gydweithio'n agos ag Undebau Llafur i gyd-gynllunio newidiadau i'r gweithlu, ymgorffori egwyddorion gwaith teg a sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu llywio gan ddeialog gymdeithasol gref. Mae hyn yn cryfhau ymddiriedaeth, cydraddoldeb a chyd-berchnogaeth dros newid. Mae ein Hadroddiad Partneriaeth Gymdeithasol cyntaf (Medi 2025) yn amlinellu sut rydym yn cyflawni'r Ddyletswydd. Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn dyfnhau'r dull hwn drwy hunanasesiad ar y cyd ag Undebau Llafur, gan ymgorffori egwyddorion Partneriaeth Gymdeithasol i mewn i gaffael, cryfhau lleisiau cynrychioliadol mewn fforymau allweddol, ymestyn partneriaethau i feysydd datgarboneiddio a chynlluniau sero net, ac archwilio menter Hyrwyddwr Partneriaeth Gymdeithasol.

Bydd ein rhwymedigaethau cydraddoldeb ehangach yn cael eu cyflawni drwy alinio ein gwaith â Chynlluniau Gweithredu Gwrth-Hiliol Cymru, LHDTG+, Hawliau Pobl Anabl a VAWDASV, yn ogystal â Safonau Cyfathrebu a Gwybodaeth Hygyrch Cymru Gyfan. Cefnogir hyn gan ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024–28 a'n rhwydweithiau cydraddoldeb staff, sy'n sbarduno cyflawniad ac ymgysylltiad. Wrth edrych ymlaen, byddwn yn canolbwyntio ar wella data ethnigrwydd y gweithlu, sicrhau recriwtio a dilyniant teg a chynhwysol, meithrin gallu arweinyddiaeth, darparu cefnogaeth wedi'i thargedu i staff sydd wedi cael addysg ryngwladol, a chyflawni'r safonau hygrychedd diweddaraf.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i strategaeth sgiliau dwyieithog gadarn, gan sicrhau bod gofynion iaith Gymraeg yn cael eu hasesu ar gyfer pob swydd newydd neu swydd wag. Bydd teclyn digidol newydd yn gwella cywirdeb yr asesiadau hyn ac yn cefnogi rheolwyr recriwtio. Rydym yn gweithredu strategaeth i gynyddu ymgynghoriadau clinigol yn y Gymraeg, gan sicrhau bod systemau digidol newydd yn gwbl ddwyieithog, a chynnig cyfleoedd dysgu amrywiol i helpu staff i feithrin hyder a gallu o ran defnyddio'r Gymraeg, yn unol â Mwy na Geiriau.

Bydd ein Cynllun Pobl yn nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen i fynd i'r afael â heriau presennol a heriau hirdymor i'r gweithlu. Bydd ein camau nesaf yn canolbwyntio ar adeiladu timau a diwylliannau sy'n ffynnu trwy wella effeithlonrwydd trwy systemau gwell, ffyrdd o weithio gwell ac arloesi.

Cerrig Milltir 2026/27			
Iechyd a Lles Staff	Ch1	Dechrau gweithredu'r rhaglen absenoldeb salwch i gyflawni'r targed o 6.49%, gan ddefnyddio methodoleg sgrym, mapio sbardunau, adolygu prosesau ymyrraeth gynnar a datblygu dangosfyrddau i olrhain tueddiadau gostyngiad.	EA
	Ch2	Dangos gwelliant mewn dangosyddion perfformiad allweddol Iechyd Galwedigaethol a chyflwyno dangosfyrddau monitro newydd.	
	Ch3	Cynnal gweithgarwch gwasanaeth lles, arallgyfeirio'r cynnig, sicrhau monitro canlyniadau, a chynnal cyfraddau boddhad >90%.	
	Ch4	Gwella sgoriau arolygon staff ar ddiwylliant lles a diogelwch, a chynyddu nifer y bobl sy'n teimlo eu bod yn gallu codi llais ac sy'n fwy ymgysylltiedig.	
Gweithlu Gwell yn y Dyfodol	Ch1	Ymgysylltu â Digidol a Dadansoddeg i gwmpasu'r strategaeth gweithlu digidol, gan gynnwys gweithdai, asesiad aeddfedrwydd a modelu cyflwr y dyfodol.	
	Ch2	Datblygu a gweithredu camau gweithredu lleol sy'n cefnogi fframweithiau cenedlaethol ar gyfer dilyniant a datblygu gyrfa. Cyflwyno ymyriadau wedi'u targedu i fodloni PADR (>85%) a chydymffurfiaeth Stat/Mand (>85%)	
	Ch3	Ehangu rolau gwirfoddoli, prentisiaeth, a chyflogaeth â chymorth drwy adolygu swyddi lefel mynediad, mapio cyfleoedd yn y biblinell, ehangu ymrwymadau sefydliadau angor, a chryfhau partneriaethau â sefydliadau FE/HE.	
	Ch4	Cynyddu capasiti a gallu cynllunio'r gweithlu drwy hyfforddiant, rhannu adnoddau a datblygu cynllun strategol ar gyfer meysydd blaenoriaeth.	
Bywydau Gwaith Gwell	Ch1	Gweithredu fframwaith gwerthoedd ac ymddygiadau, ei ymgorffori mewn recriwtio, PADR, rhaglenni arweinyddiaeth, a sefydlu dangosfwrdd monitro sy'n triongli â dangosyddion ansawdd, diogelwch a chysylltiadau staff.	
	Ch2	Parhau i graffu ar lawer o ddefnydd o gyflog amrywiol, yn unol â Chylchlythyr Iechyd Cymru ar gyfer Fframwaith Rheoli Cyflogau Amrywiol ac Asiantaethau, gydag archwiliadau dwfn, gwell adrodd ar berfformiad, cynlluniau adfer, a gostyngiad wedi'i dargedu yn y defnydd o asiantaethau gweinyddol i gyflawni gostyngiad o 30%.	EA
	Ch3	Cyflawni gostyngiad cynaliadwy mewn swyddi gwag a throsiant sefydliadol drwy ymgyrchoedd recriwtio wedi'u targedu, adolygu prosesau dethol, cymhellion cadw staff, llwybrau datblygu, a gwell profiad cynefino	
	Ch3	Gwella cydymffurfiaeth â chynllunio swyddi i 80% ochr yn ochr â gweithredu'r gyfres o E-Systemau Meddygol	EA
	Ch4	Gwella amrywiaeth a chynrychiolaeth ar draws pob grŵp staff a rolau arweinyddiaeth, gan gyflawni Cynlluniau Gweithredu Gwrth-Hiliaeth, Cyfathrebu Hygyrch, Anabledd ac LHDTC+ Cymru, wedi'u halinio â'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol, a chynyddu dangosyddion perfformiad allweddol y Gymraeg.	
	Ch4	Cynyddu nifer y staff sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni datblygu gan gynnwys rhaglenni arweinyddiaeth a datblygu	
Cyflawniadau 2027/28		Nodau 2028/29	
Parhau i ddarparu a gwreiddio cefnogaeth i arweinwyr a rheolwyr		Dangos symudiad tuag at fodel gweithlu cynaliadwy, parod ar gyfer y dyfodol a llai o gyflog amrywiol	
Cyflwyno datrysiad gweithlu newydd – People Portal		Cyflawni uchelgeisiau ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028	
Adeiladu ar gynlluniau gweithlu wedi'u targedu sy'n cefnogi cynaliadwyedd, gweithio rhanbarthol a gofal seiliedig ar le		Gweithrediad ddi-dor o ddatrysiad gweithlu'r dyfodol	



Mae digidol yn alluogwr allweddol sy'n gwella diogelwch, yn gwella canlyniadau, yn cryfhau integreiddio, yn cefnogi staff ac yn darparu'r sylfaen ddata ar gyfer GIG modern a chynaliadwy. Mae'n hanfodol ar gyfer bodloni'r galw presennol a'r galw yn y dyfodol, ar gyfer cymwysiadau digidol sy'n wynebu cleifion ac mae'n cefnogi uchelgeisiau ein strategaeth Gwent 35.



Seilwaith Ddigidol 2 ganolfan ddata yn GUH a YAB gyda 420+ o weinyddion yn cefnogi cannoedd o systemau 1,220+ Cronfeydd Data SQL 300 o ystafelloedd cyfrifiadurol 2,900 pwynt mynediad di-wifr 1,200 Swits rhyddwaith sy'n rhoi 30000+ o bwyntiau rhyddwaith defnyddwyr 15,000 defnyddwyr gwasanaeth 99,300 o docynnau desg gwasanaeth wedi'u codi i fwyddyn 320Tb o storfa ddata + 400Tb o ddata wrth gefn	Gwasanaethau Cofnodion Iechyd 1,404,403 o gofnodion papur ar draws pob is-adran 663,139 cofnod achos aciw't wedi'u digideiddio 506,189 cofnod achosion nad ydynt yn aciw't wedi'u digideiddio (gan gynnwys 272,109 cofnod/delweddau cyllid) 17 system glinigol 140,000 o arsylwadau trwy CareFlow/ mis 506,879 e-furflen clinigol wedi'u llenwi y flwyddyn 301 diffiniad ffurflen newydd wedi'u creu y flwyddyn 300-500 Galwad i'r ganolfan Trefnu Apwyntiadau gan y cyhoedd y dydd 534,285 apwyntiad cleifion allanol wedi'u trefnu y flwyddyn 24/7 - switsffwrdd, 3 canolfan 901206 galwad y flwyddyn	Gwasanaethau Gwybodaeth Gwasanaethau Deallusrwydd Busnes 198,732 o gofnodion wedi'u codio'n glinigol y flwyddyn 35 dangosfwrdd data Live Click 387 golwg ar ddata ar gyfer mynediad uniongyrchol defnyddwyr 25 dangosfwrdd wedi'u hawtonomeiddio ee SITREPs Dsts analytics 17 ffwrdd ddata
Dyfeisiadau a Chyfrathrebu Digidol 15,329 bwrdd gwaith a giniadurol 2,318 dyfais Vocera, 38000 galwad y dydd 300-500 galwad i'r canolfannau trefnu apwyntiadau y dydd 5,500 o ffonau symudol a thabedl apple ac android 9,500 o ffonau 18,000 o drwyddedau Microsoft 365	Llywodraethu Gwybodaeth 71 Asiad Diogelu Data 63 o gwynion cymhleth mewn perthynas â IG a diogelu data 205 Cais am Ffyniad ad Ddata gan y Testun cymhleth 708 o ddigwyddiadau Llywodraethu Gwybodaeth yn ymwneud â chyfrinachedd, uniondeb ac argeiledd gwybodaeth.	Sicrwydd Busnes Rheolaeth Ariannol is-adrannau £33 miliwn o gyllideb £7 miliwn oariant cyfalaf y flwyddyn 163 contract cyflenwr digidol – Meddalwedd, WiFi, ffonau, gweinyddwyr, gosod ceblau y flwyddyn 3,160 pryniadau digidol trwy Oracle y flwyddyn £19,000,000 gwerth archebion y flwyddyn

Mae'r galw am wasanaethau digidol yn cynyddu ac mae cyfleoedd i ddefnyddio offer digidol i wella ein prosesau, ac mae rhai ohonynt wedi'u rhestru isod:

- Cyfrathrebu Iechyd Digidol sy'n helpu cleifion i ymgysylltu a chyd-gynhyrchu eu gofal.
- Trawsnewid gofal Cleifion Mewnol ac Allanol trwy ddefnyddio technolegau newydd.
- Gwella llif cleifion gyda byrddau ward electronig a dangosfyrddau data.
- Mae Deallusrwydd Artiffisial yn realiti, mae'n darparu buddion yn y byd go iawn.
- Defnydd cynyddol, lle bo'n briodol, o Dechnoleg Awtomeiddio Prosesau Robotig gyda chyfleoedd ar gyfer effeithlonrwydd ac arbedion sy'n rhyddhau arian parod.
- Manteisio ar gyfleoedd pellach y mae Microsoft 365 yn eu cyflwyno.
- Mwy o arweinwyr clinigol yn y maes digidol i gefnogi trawsnewid.
- Dadansoddeg data yn arwain iechyd y cyhoedd ac yn cefnogi pobl i aros yn iach gartref.

Er gwaethaf y cyfleoedd hyn, mae sawl her o hyd:

- Cynnal ein hystâd ddigidol tra'n buddsoddi mewn technolegau newydd.
- Heriau parhaus o ran cyflenwyr digidol yn mabwysiadu gwasanaethau cwmwl yn unig yn hytrach na seilwaith a gweithrediadau hanesyddol ar y safle - gan arwain at ofynion ariannol refeniw cynyddol.
- Sicrhau ein bod yn mabwysiadu mentrau cynhwysiant digidol yn ein holl waith.

Yn ystod y tair blynedd nesaf bydd nifer o gyfleoedd strategol i greu gwasanaeth cynaliadwy sy'n gallu diwallu ein hanghenion trawsnewid digidol. Yn 2026/27 y rhain yw:

Strategaeth Trawsnewid Digidol	Mae ein strategaeth Trawsnewid Digidol newydd yn y cyfnod ymgynghori ar hyn o bryd a'r gobaith yw y bydd caniatâd yn cael ei roi i'r strategaeth fod ar waith erbyn dechrau 2026/27. Bydd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar ddefnyddio technolegau ac offer digidol gan gynnwys technolegau deallusrwydd artiffisial a thechnolegau awtomeiddio a gymeradwywyd gan NICE a Thechnoleg Iechyd Cymru, datblygu gweithlu digidol ymgysylltiedig sydd â'r sgiliau a'r gallu ar bob lefel i gefnogi mabwysiadu technoleg ddigidol a manteisio ar fuddion technoleg, a strategaeth fuddsoddi sy'n gweithio o fewn cyd-destun polisi digidol cenedlaethol.
Strategaethau Digidol	Cwblhau cyfres benodol o strategaethau a chynlluniau ar gyfer: • Strategaeth Seilwaith Technoleg Ddigidol. • Strategaeth Rheoli Gwasanaethau (sut mae gwasanaethau'n gweithredu). • Llywodraethu Gwybodaeth, Sicrwydd a Seiberddiogelwch. • Galluoedd datblygu meddalwedd a chymwysiadau digidol. • Llywodraethiant Cofnodion Iechyd. • Strategaeth cymwysiadau sy'n wynebu'r claf. • Strategaeth Gweithlu Digidol. • Ailystyried y cynllun gwella codio clinigol.
Datblygu Arweinwyr a'r Bwrdd	Parhau i ymgysylltu a chyflwyno'n rheolaidd yn sesiynau datblygu'r Bwrdd; Mae Cyngor Clinigol Digidol wedi'i sefydlu a'i gynnwys yn y strwythur Llywodraethu Digidol cyffredinol; Bydd y cyngor yn gweithio ar sicrhau bod amser clinigwyr yn cael ei glustnodi trwy drafodaethau a chefnogaeth gan y Cyfarwyddwr Meddygol.
Cynllunio Trawsnewid Digidol	Adeiladu ar gyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd sefydledig gyda rhanddeiliaid er mwyn datblygu cynlluniau digidol tymor canolig i hirdymor ar gyfer timau rheng flaen a'n rhaglenni trawsnewidiol.



Strwythur cyfarwyddiaethau a gwella llywodraethu	Cwblhau proses newid sefydliadol digidol; Parhau i ymgorffori rheolaethau cynllunio yng nghylch bywyd llywodraethu digidol; Awdurdod Dylunio Technegol wedi'i sefydlu i sicrhau bod ein datblygiadau'n cyd-fynd â safonau, patrymau, polisiau ac egwyddorion digidol proffesiynol a chenedlaethol; Parhau i gymhwyso egwyddorion dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr.
Cofnod Iechyd a Gofal Digidol	Ailgyflwyno achos busnes ar gyfer mynd i'r afael â risgiau Clinical Workstation (CWS) ynghyd â thechnolegau cysylltiedig a risgiau o ran capasiti.
Strategaeth Rheoli Data, Dadansoddeg a Gwybodaeth (IM)	Lansio a chychwyn cynlluniau cyflawni ar gyfer y Strategaeth Data, Dadansoddeg a Rheoli Gwybodaeth; Datblygu'r Gwasanaeth Dadansoddeg ac Academi Data a Dadansoddeg i gefnogi datblygu sgiliau.
Adnodd Data Cenedlaethol (NDR)	Gweithio gyda'r tîm NDR i wneud y gorau o'r cyfleoedd a datblygu mewnwelediadau i wella gwasanaethau cleifion a chefnogi gweithgarwch iechyd y boblogaeth.
Llywodraethu Gwybodaeth, Sicrwydd a Seiberddiogelwch	Byddwn yn datblygu achos busnes ar gyfer creu Tîm Sicrwydd Llywodraethu i gynyddu cydymffurfiaeth yn rhagweithiol a sicrhau llywodraethiant. Byddwn yn parhau i wneud cynnydd yn erbyn y Fframwaith Sicrwydd Seiber gan fwydo sicrwydd i mewn i strwythur ein pwyllgorau. Darparu hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth, gan gynnwys hyfforddiant seiberddiogelwch i 85% o staff.
Datgarboneiddio	Parhau i edrych ar gyfleoedd digidol ar gyfer datgarboneiddio a datblygu dulliau cynaliadwy ar gyfer cylch bywyd digidol.
Gweithio rhanbarthol	Ymgysylltu a chynllunio parhaus gyda'r Rhaglen Ddigidol Ranbarthol ar gyfer Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd De-ddwyrain Cymru er mwyn galluogi darpariaeth o wasanaethau clinigol ar y cyd gydag atebion digidol rhanbarthol addas at y diben.
Cofnodion Iechyd	Cydgrynhoi lleoliadau llyfrgelloedd cofnodion papur. Os yw ehangu'r cynllun peilot yn llwyddiannus, digideiddio meysydd o'r cofnod nad yw'n aciwt gan gynnwys Iechyd Meddwl.
Sicrwydd Busnes a Chaffael	Mae 25 o gontractau newydd a chontractau wedi'u hadnewyddu wedi'u hamserlennu i gael eu rheoli a'u prosesu ar gyfer 2026/27; Mae safonau dadgarboneiddio wedi'u sefydlu ar gyfer digidol - i'w hymgorffori yn ystod y tair blynedd nesaf.
Cynhwysiant Digidol	Parhau i weithio ar ddeall anghenion digidol y gweithlu a chleifion er mwyn galluogi mynediad at ein datrysiadau digidol; Achredu a chyflawni yn erbyn y siarter cynhwysiant digidol.

Mae gennym wahanol flaenoriaethau ar gyfer datblygiadau digidol fel y nodir

Blaenoriaeth 1

- Risgiau CWS
- Amnewid WCCIS
- Arddweud Digidol ac Adnabod Lleferydd
- Cyfathrebu Iechyd Digidol
- Awtomeiddio Prosesau Robotig
- Tîm Archwilio Llywodraethu a Sicrwydd

Blaenoriaeth 2

- Trefnu Apwyntiadau Cleifion Allanol
- Arweinwyr Clinigol MS365
- Fy Nghofnod Meddygol
- Amnewid Siartiau Twf
- PACS Cardïoleg
- Patholeg Cellog Digidol
- System Gwybodaeth Gofal Dwys Cymru

Blaenoriaeth 3

- E-ganiatâd
- Imprivata
- System Theatr Newydd
- Ward Rhithwir (Doccla)
- System CHC
- System Iechyd Cymunedol

- **30 o Brosiectau Seilwaith Critigol a Chymwysiadau** - cyfalaf yn ddibynol ar y rhagolwg cyfredol ar gyfer 2026/27 sy'n cario risg os nad oes cynnydd.
- **129 o geisiadau am wasanaeth digidol newydd** - a allai fod angen cyllid i'w darparu.
- **21 cais newydd am gymorth ar galluogwr digidol ychwanegol** - wedi'u nodi gan Dimau Clinigol.

Gwasanaethau Gwybodaeth: Bydd ein Strategaeth Ddigidol yn cael ei lansio cyn bo hir, symud datblygiad NRD yn ei flaen a gwaith pontio Hybrid/Cwmwl. Mae cynlluniau'n dod i'r amlwg ar gyfer Tîm WPAS.

**Sylfeini digidol** – Darparu dyfeisiau, storio a rhwydweithiau cyflym, hynod ddibynadwy a diogel

**Sefydliad digidol** – Galluogi staff i fod yn barod i ddarparu gofal gwirioneddol gyfannol a gwasanaethau o ansawdd uchel

**Cymuned ddigidol** – Galluogi pobl i reoli eu anghenion eu hiechyd a'u gofal yn annibynnol lle bynnag y bo modd

**Data digidol, gwybodaeth a deallusrwydd** – Cael y mwyaf posibl o'n data a'n gwybodaeth

Crynodeb lefel uchel o brosiectau sy'n cael eu cyllido ac achosion busnes wedi'u grwpio yn ôl pedair thema allweddol y genhadaeth:

Cerrig Milltir 2026/27			
Sylfeini Digidol	Ch1	Ystadau Cyfalaf (Mawr) - Aber Valley a Meddygfa Dixon, Trefynwy.	
	Ch2	Networks Critical Edge Refresh - NHH; Strategaeth Seilwaith.	
	Ch3	Caffael ar gyfer Partner Digidol Strategol	
	Ch4	Cynllun Gwella Gwasanaeth Adnewyddu Ffibr LGH	
Sefydliad Digidol	Ch1	Caffael System Gwybodeg Radioleg; Digideiddio Gofal y Llygaid - EPR Open Eyes; LIMS 2.0; Gofal Eilaidd ePrescribing (ePMA); Patholeg Cellog Ddigidol; Cymuned: Uwchraddio EPR Deintyddol; Digideiddio Gofal Llygaid Cenedlaethol - ERS (eReferral); Asesiad o Ddatrysiadau Llif Cleifion; CareFlow Connect; Cofnod Gofal Nyrsio Cymru Pediatreg; IM ac LD – Amnewid WCCIS; Achos Busnes RPA; Cyflwyno Arddweud Digidol; Uwchraddio Symphony v3; Strategaeth Trawsnewid Digidol; achos busnes risg CWS; Cam 1 EPMA: Diweddariadau alergedd, meddyginiaethau i LCDR, rhyddhau CWS, bwydo WRRS trwy HBIE, cynnal MAR yn ystod trosglwyddiadau, a chofrestru cleifion trwy CWS2; bwydo Canlyniadau Cardioleg i'r Storfa Data Clinigol Leol; CWS Datblygu eAdvice.	
	Ch2	Cyfathrebu Iechyd Digidol; Alinio â safonau rheoli hunaniaeth GIG Cymru, Dileu'r risg seiberddiogelwch sy'n gysylltiedig ag IS4 (Cynllun Ymateb Seiber); Cofnod Cleifion Electronig Iechyd Cymunedol; Achos Busnes Tîm Archwilio Llywodraethu Gwybodaeth; Uwchraddio Symphony 3.1.	EA
	Ch3	Galluogi Hysbysiadau Canlyniad Annisgwyl Histopatholeg yn CWS; Siartiau Twf - Amnewid systemau etifeddol h.y. cymhwysiad CCUBE	
	Ch4	Strategaeth Llywodraethu Cofnodion Iechyd.	
Cymuned Ddigidol	Ch1	Cefnogi'r gwaith o gyflwyno Ap GIG Cymru gan DCHW	EA
	Ch2	MyMR – graddio a rhannu; Strategaeth Cymwysiadau sy'n Wynebu'r Claf	
	Ch4	Cyfathrebu Digidol â Chleifion (HCC) - Cynnydd yng nghwmpas y gwasanaeth	
Digidol, Data, Gwybodaeth a Deallusrwydd	Ch1	NDR - Symud i'r Cwmwl / Hybrid; Datblygu Gwasanaethau Dadansoddeg; Datblygu dangosfwrdd; Hyfforddiant a chanllawiau RTT wedi'u hadnewyddu.	
	Ch2	WPAS – Hyfforddiant Academi Gofal Cynlluniedig	
	Ch3	Cynllun Gwella WPAS	

Cyflawniadau 2027/28		Nodau 2028/29	
Connecting for Care- Disodli WCCIS		Datrysiad Rheoli Gwelyau	
Gofal Eilaidd ePrescribing (ePMA)		Regional Symphony - Llythyrau Rhyddhau Adran Argyfwng ac Integreiddio Nodiadau Theatr	
EPMA - Iteriad 2		Rhaglen Gwella ECR/CCR	



Mae ein Strategaeth Ystadau 10 mlynedd (2018-28), a gymeradwywyd ym mis Ionawr 2019 ac a adnewyddwyd yn 2021/22, yn amlinellu ugain o Amcanion Strategol ar draws pum is-gategori. Mae'r rhaglen gyfalaf yn hanfodol ar gyfer cyflawni'r strategaeth hon a chynnal ein hystâd. Bydd cyllid cyfalaf disgrisiynol sylweddol yn cefnogi rhwymedigaethau statudol, cynnal a chadw ystadau, risgiau seilwaith ac ailosod offer yn amserol.

Mae cryn dipyn o waith wedi'i wneud i gyflawni'r blaenoriaethau ar gyfer y Strategaeth Ystadau bresennol. Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i ddatblygu'r gwaith hwn drwy ddatblygu Strategaeth Ystadau newydd, a fydd yn ddull 3 lens i ganolbwyntio a y Strategaeth Angen Gwasanaethau a Strategaeth Sefydliadol, Cyflwr a Defnydd Ystadau'r Bwrdd Iechyd. Bydd yn adlewyrchu'r agenda cyfalaf ac ystadau rhanbarthol (iechyd) a rhanbarthol (RPB) i sicrhau bod cyfleoedd yn cael eu halinio a'u hintegreiddio.

Mae Arolwg o Agweddau yn cael ei gaffael ar hyn o bryd a bydd yn cael ei ddefnyddio i lywio'r cyfeiriad strategol o safbwynt yr ystâd. Bydd y gwaith yn cyd-fynd â'r Safonau Iechyd a Gofal Ansawdd newydd, a disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn diwedd chwarter 3 2026/27.



Y blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2026/27 yw ad-drefnu Ysbyty Gwynllyw ac ad-drefnu Ysbyty Nevill Hall oherwydd presenoldeb Concrit Awyredig Awtoclawiedig Cyfnerth (RAAC) . Mae rhaglen Gyfalaf Cymru Gyfan yn gwahaniaethu rhwng prosiectau sydd wedi cael rhyw fath o gymeradwyaeth a'r rhai sy'n dal i gael eu datblygu. Yn 2025/26, cafodd yr Uned Radiotherapi Lloeren yn Nevill Hall ei gorffen a'i hagor - prosiect ar y cyd ag Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, gorffennwyd estyniad yr Adran Argyfwng yn Ysbyty Athrofaol y Faenor ac agorwyd, hefyd, Uned Dadheintio ganolog yn Ysbyty Brenhinol Gwent.

Cyflwynwyd yr Achos Amlinellol Strategol ar gyfer ad-drefnu Nevill Hall i Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2025 ac mae trafodaethau ar y camau nesaf yn parhau. Ochr yn ochr â'r datblygiad tymor hwy, mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â RAAC yn unol â'r canllawiau technegol cyfredol (sy'n parhau i ddod i'r amlwg) gyda chefnogaeth arbenigol.

Mae Canolfannau Iechyd a Lles ar gyfer Aber Valieu a Trefynwy yn symud ymlaen trwy Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwysu (IRCF), gan ail-ddarparu gwasanaethau Meddyg Teulu ochr yn ochr â swyddogaethau ehangach y Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod Lleol.

Yn dilyn agor Ysbyty Athrofaol y Faenor, mae gwaith sylweddol yn parhau ar draws Ysbytai Cyffredinol Lleol i alinio cyfluniadau â modelau clinigol a llif cleifion. Mae hyn yn cynnwys symud gwasanaethau o Ysbyty Gwynllyw a buddsoddiad Cronfa Ystadau Wedi'i Thargedu mewn seilwaith, dadhalogi, datgarboneiddio, iechyd meddwl, ac atal a rheoli heintiau.

Bydd Cam 2 estyniad GUH - ailgyflunio'r hen ardal aros - yn cael ei gwblhau yn gynnar yn 2026/27, gan greu gofod mwy priodol i gleifion sy'n 'ffit i eistedd'.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sicrhau cefnogaeth ddwy flynedd gan y Gronfa Ystadau wedi'i Thargedu Mae gwaith helaeth wedi'i gyflawni yn 2025/26, ac mae rhaglen wella lawn yn parhau i gael ei rhedeg yn 2026/27. Darperir cyllid ar sail 70% Llywodraeth Cymru a 30% Bwrdd Iechyd ac fe'i dyrennir ar draws y meysydd canlynol:



Mae ein timau Ystadau yn hanfodol ar gyfer darparu gwasanaethau, ac rydym yn gweithio ar strategaeth gweithlu ystadau a chyfleusterau i sicrhau gwasanaethau cynaliadwy.

Cerrig Milltir 2026/27			
Prosiectau Cyfalaif	Ch1	Cwblhau Cam 2 o Estyniad yr Adran Argyfwng yn Ysbyty Athrofaol y Faenor	
	Ch2	Datblygu Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Aber Valley a Trefynwy	EA
	Ch3	Cwblhau Strategaeth Ystadau'r Bwrdd Iechyd	EA
	Ch3	Achos Amlinellol Strategol Cyflawn ar gyfer Ysbyty Gwynllyw	EA
	Ch4	Cyflawni blaenoriaethau cymeradwy Cronfa Ystadau Wedi'i Thargedu ar gyfer 26/27	
	Ch4	Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Ysbyty Nevill Hall	EA
Newid a Gwella Gwasanaeth	Ch1	Cefnogi ac ymateb i unrhyw gynlluniau sy'n cael eu cymeradwyo ar draws y sefydliad sy'n gofyn am gamau gweithredu Ystadau a Chyfleusterau	
	Ch1	NHH RAAC – monitro/rheoli problemau; cefnogi gwaith achos ailddatblygu	
	Ch2	Campws SWH a Champws Casnewydd – datblygu cynigion i gau hen ystâd SWH ac optimeiddio'r defnydd o Gasnewydd ac YBG	EA
	Ch3	Cynlluniau datgarboneiddio REFIT – cyflawni'r rhaglen hyd at Hydref 2026	
	Ch3	Contract ynni PFI NHH – datblygu cynigion ar gyfer cynnal a chadw a rheoli parhaus	
	Ch4	System Rheoli Cyfleusterau â Chymorth Un Cyfrifiadur – gwneud y mwyaf o fanteision y system newydd ar draws BIPAB	
Prifddinas Ranbarthol Integredig	Ch1	Parhau i ddatblygu datblygiadau cyfalaf Iechyd Meddwl i gefnogi argaeledd a sefydlogrwydd lleoliadau yng Ngwent	
	Ch2	Mapio hybiau er mwyn deall y ddarpariaeth bresennol yng Ngwent a nodi cyfleoedd pellach i hybiau integredig gefnogi'r agenda gofal sy'n seiliedig ar leoedd	
	Ch3	Sefydlu Rhwydwaith Hybiau i rannu'r hyn a ddysgir a chynyddu cydweithio ar draws gwasanaethau hybiau ar gyfer pob grŵp poblogaeth yng Ngwent	
	Ch4	Cadarnhau'r ddarpariaeth o ganolfannau integredig allweddol ar raddfa fach ar gyfer grwpiau poblogaeth allweddol RPB i gefnogi gofal seiliedig ar le gyda phartneriaid cyflawni.	

Cyflawniadau 2027/28		Nodau 2028/29	
Achos Busnes Llawn ar gyfer Ysbyty Nevill Hall a rheolaeth barhaus RAAC ac Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Gwynllyw		Symud y gwaith o ad-drefnu Ysbyty Gwynllyw yn ei flaen	
Achos Busnes Terfynol ar gyfer Canolfannau Iechyd a Lles Aber Valley a Threfynwy		Cychwyn adeiladu Uned Cleifion Mewnol Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Meddwl	
Cyflawni blaenoriaethau wedi'u cymeradwyo Cronfa Ystadau Wedi'i Thargedu ar gyfer 27/28		Adeiladu Canolfannau Iechyd a Lles Aber Valley a Sir Fynwy	
Gwella seilwaith ystadau, yn enwedig yn YBG a NHH		Cychwyn ailddatblygu Ysbyty Nevill Hall	



Mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd ddatblygu cynllun ariannol sy'n cydbwysu dros gyfnod treigl o 3 blynedd. Nid yw BIPAB wedi gallu gweithredu o fewn y cyllid sydd ar gael ac mae ganddo ddiffyg treigl dros 3 blynedd. Mae'r rhagolygon ar gyfer 2026/27 yn parhau i fod yn heriol yn ariannol yn seiliedig ar uchelgeisiau gweithredol a pherfformiad y Bwrdd. Mae'r Bwrdd wedi cynghori Llywodraeth Cymru ei bod yn debygol y bydd rhagolwg o ddiffyg ariannol ar gyfer 2026/27, ac yn unol â chanllawiau bydd y Bwrdd yn cynhyrchu cynllun ariannol blynyddol ar gyfer 2026/27, gyda'r uchelgais i gael cydbwysedd ariannol unwaith eto dros gyfnod o 3 blynedd.

Nodau'r Cynllun Ariannol

Mae 'Cyllid' a'r adnoddau y buddsoddir ynddynt yn alluogwyr a dyma amcanion Cynllun Ariannol BIPAB ar gyfer 2026/27:

- Datblygu map llwybr wedi'i adnewyddu ar gyfer adferiad er mwyn cyflawni cydbwysedd ariannol dros 3 blynedd.
- Lleihau'r diffyg sylfaenol, i sero yn y pen draw.
- Lleihau costau a chynyddu arbedion cylchol ar draws y gweithlu a'r sectorau di-dâl drwy gydol y trosiant o £2bn a ddefnyddiwyd.
- Dangos bod camau galluogi wedi'u cyflawni'n llawn a gwella effeithlonrwydd a chynhyrchiant ar draws pob maes cyllideb gyda ffocws ar ryddhau arian parod.
- Dangos y manteision a wireddwyd o fuddsoddiadau gyda metrigau meintiol a chanlyniadau sy'n seiliedig ar werth.
- Dangos gafael a rheolaeth ariannol barhaus a llywodraethu rhagorol.
- Ailgynllunio'r ddarpariaeth o wasanaethau (swyddfa ôl ac wynebu cleifion) fel eu bod yn gweithredu o fewn terfynau fforddiadwyedd.
- Lleihau'r galw, gwella llwybrau gofal, cael gwared ar amrywiad diangen, canolbwyntio ar wella gwerth i gleifion.
- Gwella effeithlonrwydd gwerth dyrannol drwy flaenoriaethu strategol gan gynnwys symud gwasanaethau y tu allan i ysbytai drwy gynllunio cymunedol a gofal sy'n seiliedig ar le ac atal.

Mae'r cynllun ariannol wedi'i ddatblygu a'i driongli â chynlluniau a dyheadau'r gweithlu a gwasanaethau, gan gynnwys perfformiad tybiedig a chyflawniad arbedion.

Cyfansoddiad y cynllun ariannol:

Mae'r sefyllfa ariannol gychwynnol wedi'i sefydlu ar ddadansoddiad o'r sefyllfa sylfaenol, dyma gost reolaidd rhedeg gweithrediadau'r sefydliad ar ddechrau'r flwyddyn heb unrhyw gostau na chynilion blwyddyn newydd pellach wedi'u cynnwys, mae hyn yn cyflwyno diffyg o ran costau rhedeg sy'n fwy na'r cyllid o £38.2m. Mae hyn yn adlewyrchu arbedion anghylchol a gyflawnwyd mewn blynyddoedd blaenorol, cyllid anghylchol yn dod i ben ac effaith blwyddyn lawn o ran costau ac arbedion o flynyddoedd blaenorol.

Diffyg Sylfaenol	ULD wedi'i gynllunio ar gyfer diwedd 25/26	Pwysau costau cylchol i mewn i 2026/27 newydd yn y flwyddyn	ULD wedi'i adolygu ar gyfer cychwyn y flwyddyn
	£m	£m	£m
Pwysau ar y gweithlu	2.0	13.4	15.4
CHC	2.6	2.5	5.1
Rheoli Meddyginiaethau (presgripsiynu a chostau cyffuriau aciwt)	4.8	2.8	7.6
WHSSC/EASC (twf gwasanaeth uwch na lefelau cyllid)	5.0		5.0
Digidol		5.1	5.1
Cyfanswm	14.5	23.8	38.2

I liniaru'r diffyg sylfaenol hwn, mae arbedion wedi'u datblygu a thybir y byddant yn gwrthbwysu'r sefyllfa sylfaenol fel y flaenoriaeth gyntaf, amcangyfrifir bod y rhain yn £28m wedi'u nodi a chyfleoedd pellach o £17m i'w cadarnhau, mae'r targed arbedion hwn tua 2% o drosiant neu dros 3% pan gaiff cyllid wedi'i glustnodi ei ddileu ac mae'n fwy na lefelau arbedion 25/26.



Mae risgiau o ran cyflawni'r rhain yn llawn ar hyn o bryd. Mae proses Asesu'r Effaith ar Ansawdd wedi'i chynnal i ddarparu asesiad o effaith ehangach cynigion ar wasanaethau clinigol ac ar gleifion.

Cynllun Arbed BIPAB 26/27	£m	£m	£m
Arbedion wedi'u cadarnhau gan ddeiliad cyllideb ar gyfer 26/27	(13.3)		
Opsiynau Arbedion QIA			
Wedi'u cadarnhau	(1.8)		
Mwy o waith i gadarnhau (rhagdybio effaith mis Ch3 a Ch4 ar gyfer 26/27	(6.1)		
Cyfanswm arbedion y disgwylir eu cyflawni o fewn cynlluniau		(21.2)	
Cyfleoedd Ychwanegol i greu arbedion			
V a SB y gweithlu	(3.7)		
Cyflawni QIA yn gynnar	(3.1)		
		(6.8)	
Cyfanswm yr arbedion a nodwyd		(28.0)	
Targed Arbedion wedi'i ymestyn yn uwch na 25/26 – Cyfleoedd i gael eu symud ymlaen		(17.0)	
Cyfanswm yr arbedion ar gyfer yr IMTP			(45.0)

Mae cyllid ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd yn cynnwys cynnydd o £18.7m (1.11%) yn y dyraniadau a chyllid ychwanegol tybiedig o £6m ar gyfer Blaenoriaethau Digidol. Disgwylir i gyllid dyfarniad cyflog ychwanegol dalu am setliadau 26/27. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i 26/27 fod yn flwyddyn fuddsoddi annewisol gyda gwariant ychwanegol wedi'i gyfyngu i alw anochel a chwyddiant na ellir ei osgoi.

Mae'r Bwrdd wedi asesu costau blwyddyn newydd ABUHB fel £75.2m. Mae'r problemau mwyaf yn ymwneud â chwyddiant anochel a thwf yn y galw am CHC a chyffuriau presgripsiwn a buddsoddiadau hanfodol mewn systemau digidol, costau cyfraniad BIPAB i Gronfa Risg Cymru ac adolygiad ail-fandio cenedlaethol o staff band 2 a chostau gwasanaethau cleifion a gomisiynir gan sefydliadau eraill y GIG.

Mae ychydig o fuddsoddiadau isel eu gwerth lleol wedi'u cynnig ar gyfer gwella ansawdd a gwasanaethau canser yn ogystal â darparu gwasanaethau mamolaeth, newyddenedigol, diabetes ac endosgopi. Mae'r tabl ar yr ochr dde yn rhoi crynodeb:

Costau Blwyddyn Newydd BIPAB 26/27	£m	£m
Twf Galw a Chwyddiant (CHC, Cyffuriau, 2% nid tâl)	28.2	
Darparwyr y GIG	8.8	
Pwysau Lleol – Ansawdd	1.0	
Pwysau Lleol – canser /Radiograffeg	2.8	
Pwysau Cenedlaethol (WRP, B2 i 3)	29.4	
Gaeaf / ONP	3.0	
Targedau RTT ac endosgopi	2.0	
Cyfanswm Costau Blwyddyn Newydd 26/27		75.2

Mae sawl risg o ran cyflawni'r cynllun ariannol hwn, gan gynnwys rhagdybiaethau twf a chyllid, cyflawni cynlluniau arbed yn llawn, twf gwasanaethau arbenigol a risgiau gweithredol sy'n codi yn ystod cyfnod y cynllun.

Crynodeb o'r Cynllun Ariannol Cyffredinol Mae'r tabl i'r dde yn rhoi crynodeb lefel uchel o'r cynllun ariannol ar gyfer 2026/27, gan gyflwyno'r holl elfennau uchod i sefydlu rhagolwg o ddiffyg o £43.7m. Mae'r diffyg a ragwelwyd ar gyfer 26/27 o 43.7m yn cymharu â'r diffyg o £18.3m a brofwyd yn 25/26 a'r pwysau cost newydd nad yw wedi'i lliniaru sy'n deillio o Gronfa Risg Cymru o £25m.

BIPAB 2026/27	Rhagamcan £m
Diffyg cychwynnol	18.3
Addasiadau UL	19.9
DIFFYG UL CYCHWYNNOL	38.2
Arbedion (Gwyrdd/Oren)	-21.2
Arbedion i'w cyflawni gan y QIA	-6.8
Arbedion pellach i ddod o hyd iddynt (2+%)	-17
CYFANSWM ARBEDION	-45
CYNNYDD CYLLID (A DPIF)	-24.7
Galw a Chwyddiant	37
Pwysau Cenedlaethol	4.4
Blaenoriaethau Ansawdd Lleol	1.2
Cyflawni Perfformiad	4.6
Gaeaf/ONP	3
CYFANSWM COSTAU	50.2
RHAGAMCAN DIFFYG (CYN WRP)	18.7
Pwll Risg Cymru (WRP)	25
RHAGAMCAN DIFFYG 26/7	43.7



Mae'r Bwrdd Iechyd eisoes yn profi effeithiau newid hinsawdd, sy'n gwaethygu anghydraddoldebau iechyd presennol ac yn rhoi pwysau ar gyfleusterau gofal iechyd a systemau darparu. Mae'r Fframwaith Datgarboneiddio yn nodi llwybr y Bwrdd Iechyd i gyflawni sefyllfa Sero Net erbyn 2030. Mae'n diffinio'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu, y nodau a'r amcanion sy'n ofynnol i fodloni disgwyliadau perfformiad cenedlaethol, a'r amserlenni a'r cynlluniau cyflawni a fydd yn llywio cynnydd dros y blynyddoedd nesaf.

Ar gyfer 2026/27, bydd y rhaglen yn parhau i hyrwyddo effeithlonrwydd ynni, lleihau allyriadau carbon ar draws pob maes gweithredol, ac ymgorffori datgarboneiddio fel un o egwyddorion craidd cynllunio strategol a buddsoddi. Mae'r Fframwaith hefyd yn darparu strwythur llywodraethu ac adrodd clir i sicrhau atebolrwydd, tryloywder a ffocws sefydliadol cynaliadwy. Caiff y ddarpariaeth ei threfnu drwy bum ffrwd waith gefnogol:



Gyda'i gilydd, mae'r ffrydiau gwaith hyn yn darparu'r strwythur sydd ei angen i gydlyn camau gweithredu, monitro cynnydd a chyflymu trawsnewidiad y Bwrdd Iechyd i system iechyd carbon isel sy'n wydn o ran yr hinsawdd.

Ystadau: Rydym yn lleihau effaith carbon ein hystâd drwy fesurau effeithlonrwydd ynni wedi'u targedu, ailgylchu gwell a buddsoddi mewn seilwaith carbon isel. Mae'r defnydd o ynni wedi gostwng eto yn 2025/26, gan gefnogi gostyngiad o 4% mewn allyriadau carbon. Un o'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2026/27 yw bwrw ymlaen â'r rhaglen ReFit, gyda'r gwaith gosod yn dechrau yn dilyn cymeradwyaeth weinidogol.

Cyfathrebu a Hyfforddiant: Rydym yn parhau i gynyddu ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad staff o ran agenda Sero Net y Bwrdd Iechyd trwy negeseuon gwell a chynnwys wedi'i dargedu. Mae 'Cylchlythyr Gofal Iechyd Gwyrdd AB' ar ei newydd wedd wedi cael ei ddatblygu ochr yn ochr â chalendr cynnwys newydd, ac mae Wythnos Hinsawdd wedi'i hyrwyddo i dynnu sylw at flaenoriaethau cynaliadwyedd allweddol.

Gofal Clinigol a Gofal Iechyd: Rydym yn lleihau effaith amgylcheddol ymarfer clinigol drwy dargedu nwyon meddygol, gwastraff meddyginiaethau, deunyddiau traul ac ymddygiadau. Yn 2025/26, rydym wedi datblygu archwiliadau a threialon i optimeiddio'r defnydd o nwy, gwella rheolaeth o silindrau, adolygiadau Omnicell, diweddarau canllawiau cyn llawdriniaeth, a chynlluniau peilot i leihau profion gwaed a draenio diangen, ac mae hyn wedi'i gryfhau gan addysg staff. Rydym hefyd yn archwilio cyllid ar gyfer Arweinydd Nyrsio Cynaliadwyedd i wella ymgysylltiad ar lefel nyrsio a lefel ward.

Adnoddau: Rydym yn cryfhau gwaith cyfrifyddu carbon, caffael a monitro perfformiad i gefnogi nodau Sero Net. Ers 2018/19, rydym wedi lleihau 4,380 tCO₂e o linell sylfaen o 140,193 tCO₂e, gyda 6,000 tCO₂e yn fwy wedi'i nodi trwy gynlluniau ar gyfer cynhyrchu solaryn GUH. Mae ymdrechion cyfredol yn cynnwys alinio â gofynion adrodd newydd, paratoi ar gyfer Cynllun Datgarboneiddio GIG Cymru wedi'i adnewyddu, a gwella dangosfyrddau ar gyfer allyriadau Math 1 a 2.

Gwastraffau: Rydym yn datblygu camau gweithredu i fodloni rheoliadau ailgylchu newydd a chynnal cydymffurfiaeth â ISO14001. Mae hyfforddiant gwahanu gwastraff ac ymwybyddiaeth amgylcheddol yn dilyn y broses gymeradwyo, a bydd yn hybu dealltwriaeth staff ac yn cefnogi rhwydwaith Hyrwyddwyr Gofal Iechyd Gwyrdd. Mae gwaith hefyd ar y gweill i gau bylchau o ran ailgylchu toner a batris a chyflwyno biniau ailgylchu mewnol newydd yn RGH a GUH, gyda'r nod o gydymffurfio'n llawn ar y safle erbyn Hydref 2026.

Eleni, mae addasu i'r hinsawdd wedi dod yn rhan o arfer arferol y Bwrdd Iechyd wrth i ni gwblhau ein hasesiad risg addasu cyntaf, sy'n roi darlun cliriach inni o'n risgiau uchaf a sut i fynd i'r afael â hwy. Yn 2026/27, byddwn yn datblygu cynllun ymateb i'r hinsawdd i ymgorffori addasu, datgarboneiddio a bioamrywiaeth ymhellach ar draws y sefydliad.

Dim ond drwy ymdrech system gyfan y gellir cyflawni ymateb llwyddiannus i heriau hinsawdd, gan ddylanwadu ar bopeth o reoli ystadau i ymarfer clinigol. Bydd gweithio'n agos gyda phartneriaid a rhanddeiliaid yn hanfodol wrth i ni gyflymu ein trawsnewidiad.

Cerrig Milltir 2026/27		
Ystadau	Ch1	Cwblhau Cam 1 y gwaith o ail-osod Goleuadau LED a dechrau prosiectau solar ar y to
	Ch2	Cwblhau Cam 1 ReFit prosiectau solar ar y to
	Ch3	ReFit Cam 1 - porth car solar yn GUH (yn amodol ar ganiatâd Cynllunio terfynol)
	Ch4	Cwblhau Cam 1 ReFit a dechrau gwaith cwmpasu ar gyfer Cyfnod 2 posibl
Cyfathrebu	CH1 -4	Cyfathrebu parhaus ynghylch gweithgaredd datgarboneiddio
Gofal Clinigol a Gofal Iechyd	Ch1	Peilot COTE ar gyfer prosiect profion gwaed diangen
	Ch2	Silindr nwyon meddygol SOP
	Ch3	Newid Entonox o'r maniffold i'r silindrau
	Ch4	Datgomisiynu'r maniffold N2O
Adnoddau	Ch1	Lansio dangosfwrdd adrodd ar Garbon BIPAB
	Ch2	Cymeradwyo strategaeth i leihau allyriadau Caffael drwy gynyddu cywirdeb (symud o adrodd Math 1 i adrodd Math 3) a chynyddu dadansoddiadau o effaith prosiectau clinigol a gofal iechyd
	Ch4	Dangos cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni a darparu tystiolaeth o'r gostyngiad mewn allyriadau yn ei sgil ar gyfer 2026/27.
Gwastraff	Ch1	Biniau ailgylchu wedi'u harchebu ar gyfer RGH, GUH, ac NHH. Dyddiad dosbarthu disgwyliedig yn ystod wythnos gyntaf mis Ebrill ac yna'r ymgorffori i ddilyn.
	Ch2	Tîm Rheoli Is-adrannol i adolygu'r sefyllfa o ran cydymffurfiaeth bresennol â'r rheoliadau ailgylchu newydd. Cynllunio mwy o safleoedd ar gyfer cydymffurfiaeth.
	Ch3	Cyfarfod cychwynnol blychau offer miniog ailddefnyddiadwy yn gyda ODP y Theatr, Rheolwr Amgylcheddol, Stericycle, a phartïon eraill sydd â diddordeb.

Cyflawniadau 2027/28	Nodau 2028/29
Cyfnod Ailwampio Posibl 2 – yn amodol ar gyllid LIC yn y dyfodol	Lleihau profion diangen
Ailddefnyddio gwisgoedd nyrsio	Ymgorffori Gofal Iechyd Gwyrdd mewn arferion gwaith ac addysg
Cyrhaeddiad a graddfa'r prosiect profion gwaed	



Tîm Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth

Mae Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth (VBHC) yn parhau i fod yn ganolog o ran darparu gwell iechyd, lles, canlyniadau a gwerth i'n pobl, i'n gweithlu ac i'n cymunedau. Mae ein ffocws ar wneud yr hyn sydd bwysicaf i bobl yn allweddol wrth fynd i'r afael â heriau yn y tymor byr, y tymor canolig ac yn hirdymor.

Mae'r dirwedd sy'n newid yn barhaus yn cynyddu ein huchelgais i gydweithio ac arloesi gyda'n partneriaid ac i fanteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio dealltwriaethau newydd er mwyn gwneud y gorau o'r ffordd yr ydym yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i ni i wella canlyniadau iechyd. Rydym yn cryfhau ein rhaglen gofal iechyd sy'n seiliedig ar werthoedd i gefnogi blaenoriaethau 3 blynedd Fframwaith Cynllunio'r GIG. Gan weithio gyda phartneriaid, gan gynnwys Cyfarwyddiaeth Trawsnewid Gwerth a Pherfformiad GIG Cymru, byddwn yn annog ystyried gwerth ym mhopeth a wnawn, ar draws y llwybr gofal llawn - o atal i ofal hirdymor/diwedd oes.



Bydd ein strategaeth alluogi VBHC yn cynnal ffocws ar:

- **Mesur Canlyniadau a Gweithredu:** Byddwn yn casglu, monitro, dadansoddi a gweithredu'n systematig ar ganlyniadau sy'n bwysig i gleifion.
- **Llwybrau Gofal Cyfan:** Edrych yn holistaidd ar ofal sy'n seiliedig ar y person cyfan, sy'n seiliedig ar systemau, gan leihau darpariaeth gofal ddarniog rhwng sectorau.
- **Gwneud y mwyaf o adnoddau a chostau presennol:** Byddwn yn asesu'r defnydd o gyllid ac adnoddau gan sicrhau ffocws ar ansawdd gofal a chanlyniadau, a byddwn yn anelu at roi'r gorau i ymgymryd â gweithgarwch gwerth isel.

- **Data a Thechnoleg:** Byddwn yn gwneud y defnydd gorau o ddata, dadansoddeg a thechnoleg leol a chenedlaethol i gasglu, cyfuno dadansoddi a chyflwyno costau a data allweddol arall yn systematig i gefnogi cynllunio a gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- **Meddylfryd:** Byddwn yn hyrwyddo iechyd a lles sy'n seiliedig ar werth drwy ganolbwyntio ar atal, mynediad cynnar a dysgu ar adegau penodol, er mwyn galluogi pobl i ddeall canlyniadau penderfyniadau iechyd gwael a chefnogi pobl i reoli eu hiechyd yn well. Bydd hyn yn cael ei yrru gan arweinyddiaeth, addysg, ymwybyddiaeth a hyfforddiant.

Cyflwyno Gwerth a Thrawsnewid

- Gwella a mesur canlyniadau sy'n bwysig i bobl, clinigwyr a'r system gofal iechyd.
- Sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl.
- Adolygu data, gwasanaethau, prosesau ac arferion gan nodi cyfleoedd i wella.
- Mesur effaith a manteision mabwysiadu VBHC.
- Gweithio gyda phartneriaid a'r trydydd sector i archwilio cyfleoedd i ddarparu gwell gwerth i gleifion.

Datblygu a Chynaliadwydd dulliau VBHC

- Rhaglen Addysg Gofal Iechyd Lleol sy'n Canolbwyntio ar y Person ac yn Seiliedig ar Werth.
- Hyrwyddo canlyniadau prosiectau VBHC.
- Monitro portffolio arloesi, gan ddangos effaith ar bobl, prosiectau, cyllidebau a phartneriaethau
- Aseswyr Panel Cyn-Fuddsoddi i'w hystyried ar gyfer VBHC.
- Ymgysylltu, Cyfathrebu a Marchnata.
- Gwobrau.
- Ymchwil er Budd y Cleifion a'r Cyhoedd.
- Datblygu Staff VHBC



Galluo gwyr Digidol

- Casglu PROMs (Llwybrau Lleol a Chenedlaethol).
- Defnyddio canlyniadau mewn gofal uniongyrchol.
- Defnyddio canlyniadau i gefnogi rhestrau aros a mynediad at ofal pan fo angen.
- Defnyddio canlyniadau i gefnogi monitro o bell.
- PROMs a gychwynnwyd gan y claf.
- Cefnogaeth i gasglu PREM (lle bo'n berthnasol).
- Casglu PROMs yn yr hirdymor i ddangos newid cynaliadwy a llywio ailgynllunio gwasanaethau.

Deallusrwydd Busnes a Mewnwelediadau

- Gwella mynediad at ddata.
- Gwella Strategaeth Gwybodaeth VBHC.
- Gwelededd PROMs trwy systemau clinigol.
- Cyfuno canlyniadau a delweddiadau costio.
- Mabwysiadu DSCNau Cenedlaethol ar gyfer PROMs.
- Datblygu Safonau Proms Data Lleol.
- Cyflwyno data PROM yn unol â WHC.

Ymchwil

Rydym yn cydnabod bod ymchwil yn arwain at ganlyniadau gwell i gleifion a gwell gallu i recriwtio a cadw staff a gwell boddhad staff. Fel un o brif bileri statws Bwrdd Iechyd Prifysgol, mae ein dull Ymchwil a Datblygu (Ym&D) yn canolbwyntio ar gyflawni ymchwil glinigol hanfodol sy'n diwallu anghenion y boblogaeth ac yn cefnogi Cymru iachach. Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i ymgorffori ymchwil mewn llwybrau gofal ac yn parhau i ehangu ein rhaglen addysg ymchwil, gan gynnwys cyrraedd staff nad oes ganddynt brofiad ymchwil trwy hyfforddiant anwytho a hyfforddiant ar-lein.

Wrth i ni ddechrau blwyddyn pedwar ein strategaeth pum mlynedd, rydym yn myfyrio ar yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn sydd eto i'w gyflawni. Mae'r gwaith o weithredu'r strategaeth wedi symud yn ei flaen, gyda chefnogaeth y Grŵp Strategaeth Ymchwil chwarterol sy'n darparu goruchwyliaeth ac yn sicrhau aliniad â Fframwaith yr NHSR&D a chyfeiriad polisi ehangach HCRW a Llywodraeth Cymru.

Mae mwy o ffocws wedi'i roi ar gynyddu cyfleoedd arweinyddiaeth ymchwil ar gyfer gweithwyr proffesiynol anfeddygol, gyda ffisiotherapyddion, nyrsys a phodiatryddion bellach yn gweithredu fel Prif Ymchwilwyr. Mae hyn yn adlewyrchu ymdrech fwriadol i amrywio arweinyddiaeth ymchwil ar draws proffesiynau a gwasanaethau.

Mae cyflawniadau allweddol yn cynnwys:

-  Dyfarnwyd 1.4 miliwn mewn cyllid VPAG i gynyddu faint o astudiaethau ymchwil a ariennir gan y diwydiant.
-  Dathlwyd 1 mlynedd ers sefydlu'r Rhaglen Hyrwyddwyr Ymchwil.
-  Gwobr Arloesi Medi-Wales am gydweithio â diwydiant am ein gwaith ar astudiaeth Sandbox Dementia Biomarker sy'n anelu at drawsnewid diagnosis clefyd niwroddirymol.
-  Parhau i gyrraedd y metrig Amser i Darged 80% ar gyfer pob astudiaeth fasnachol ac anfasnachol sydd wedi cau.
-  Penodi Cymrawd Ymchwil Clinigol cyntaf yr adran i gefnogi Prif Ymchwilwyr i gyflawni ymchwil glinigol
-  Cyfarwyddwr Meddygol Cyswllt ar gyfer Ymchwil a Datblygu wedi cael Athrofa Anrhydeddus ym Mhrifysgol Caerdydd.

Mae cyllid VPAG wedi cyflymu buddsoddiad mewn staff a seilwaith allweddol er mwyn hyrwyddo ymchwil fasnachol. Gan fod y cyllid hwn wedi'i gyfyngu o ran amser, blaenoriaeth ar gyfer 26/27 fydd cynyddu ymchwil a ariennir gan y diwydiant i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor.

Cerrig Milltir 2026/27			
Ffocws Treial Masnachol	Ch1	Pob swydd a ariennir gan VPAG i gael ei phenodi. Cyflwyno proses sefydlu gyflym ar gyfer treialon masnachol.	
	Ch2	Cyflwyno system sgorio leol i gymhwyso blaenoriaethau o fetrigau cenedlaethol a lleol i gefnogi gwneud penderfyniadau a gwella perfformiad.	
	Ch3	Sefydlu proses adolygu perfformiad chwarterol fewnol i amlygu problemau, monitro cynnydd a chytuno ar gamau unioni os oes angen er mwyn sicrhau ein bod ar y trywydd iawn i gyflawni amcanion VPAG	
	Ch4	Bodloni holl delerau ac amodau cyllid VPAG	
Gweithredu Strategaeth	Ch1	Hwyluso mynediad a chynnig cefnogaeth i staff ar bob lefel sy'n dymuno ymgymryd ag ymchwil.	
	Ch2	Sicrhau bod ymchwil yn cael ei chynnwys o fewn rhaglenni anwytho'r Bwrdd lechyd ar draws proffesiynau perthnasol.	
	Ch3	Cydweithio â gwasanaethau i gyflawni, asesu ac adrodd yn erbyn pileri Fframwaith Ymchwil a Datblygu'r GIG ar gyfer Cyflawni Ymchwil.	
	Ch4	Dechrau ymgysylltu, cydweithio a thrafod â rhanddeiliaid i gefnogi datblygiad y strategaeth ymchwil nesaf.	
Cyflenwi Busnes	Ch2	Alinio mabwysiadu High Value, High Interventions Cenedlaethol (HvHi) 'newydd' gan gynnwys Diabetes ac Iechyd Esgyrn	EA
	Ch3	Gwella ac uwchraddio Gwerth mewn Gwasanaethau Diabetes, Canser, Methiant y Galon a Gwasanaethau MSK ac Archwilio a mabwysiadu cyfleoedd Gwerth T&O	EA
	Ch4	Parhau i fesur a chyflawni manteision disgwyliedig rhaglenni gwaith VBHC presennol	
Datblygu Busnes a Galluogwr BI Digidol	Ch1	Casglu Canlyniadau a Phrofiadau Digidol; dylunio, datblygu, profi, gweithredu a chynnal mewnwelediadau ac adroddiadau data VBHC	
	Ch2	Cynllunio menter ar gyfer darparu platfform PROMs yn y dyfodol a gweithredu casgliad o PROMs mewn Radioleg, Poen Cronig, IBD, Escape-Pain	
	Ch3	Galluogi defnyddio canlyniadau a chostau i ddatblygu llwybrau sy'n lleihau amrywiad diangen	
	Ch4	Mabwysiadu proses ar gyfer mabwysiadu a defnyddio dangosfyrddau cenedlaethol ar gyfer achosion Gwerth lle bo'n berthnasol	
Cynaliadwy edd Duilliau VBHC	Ch1	Parhau i gyflwyno rhaglenni hyfforddiant ymwybyddiaeth ac addysgol ar draws y Sefydliad	
	Ch3	Gwasanaethau cymorth sy'n dangos gwerth a rhannu dysgu ar gyfer cyflwyno y tu hwnt i BIPAB	
	Ch4	Gweithio ar draws y Sefydliad i gwmpasu, dylunio, cyflwyno setiau offer canlyniadau, casglu ac awtomeiddio	
Cyflawniadau 2027/28		Nodau 2028/29	
Targedau adfer costau wedi'u cyflawni yn unol â chynllun VPAG		Yn gallu adrodd ar werth economaidd ymchwil.	
Adolygiad terfynol o amcanion strategol, gwerthuso effaith a llwyddiant.		Strategaeth a chynllun gweithredu newydd a gymeradwywyd gan y Bwrdd ar waith	



Mae gan sefydliadau sy'n perfformio'n dda Fframweithiau Rheoli Perfformiad ac Atebolrwydd (PMF) effeithiol sy'n cael eu deall yn glir. Ein PMF mewnol yw'r mecanwaith sy'n ein galluogi i fonitro a chyflawni blaenoriaethau strategol, disgwyliadau perfformiad a chynlluniau gweithredol y Bwrdd Iechyd. Yn 25/26 adolygwyd a diweddarwyd y PMF yn unol ag adborth a'r hyn a ddysgwyd ychydig dros 12 mis wedi iddo gael ei gymhwyso. Arweiniodd hyn at ddiweddarau ein meysydd perfformiad ac atebolrwydd i 5 i gyd;

- 1

Ansawdd a Diogelwch
- 2

Arweinyddiaeth
- 3

Llywodraethu Corfforaethol
- 4

Cyllid
- 5

Perfformiad Gweithredol a Chyflenwi


Mae ein PMF ynghyd â'n rhaglenni trawsnewid yn ffurfio fframwaith gyflawni gadarn ar gyfer ein sefydliad sy'n plethu ynghyd; Llywodraethu ac Arweinyddiaeth, PMF, Dull Rheoli Rhaglenni ac Adrodd Wedi'i Dargedu.

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

- Strwythurau Atebolrwydd
- Goruchwyliaeth Weithredol Misol
- Sicrwydd Misol

Fframwaith Rheoli Perfformiad ac Atebolrwydd

- Amodau Atebolrwydd
- Adolygiadau Rheolaidd
- Adrodd Cadarn



Adrodd Wedi'i Dargedu

- Adroddiadau Perfformiad Integredig
- Fframwaith Canlyniadau Ansawdd
- Archwiliadau Dwfn

Dull Rheoli Rhaglenni

- Arweinyddiaeth Weithredol
- PMO ymroddedig
- Prosesau Wedi'u Safoni, Llywodraethu ac Adrodd

Mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i gwblhau'r rhaglenni newid a fydd yn cefnogi'r ddarpariaeth yn 2026/27. Isod mae crynodeb o'n rhaglenni trawsnewid sy'n dod i'r amlwg. Mae rhagor o fanylion am y Rhaglenni wedi'u nodi yn Atodiad 4 a bydd y rhain yn cael eu cwblhau ar 26 Ebrill yn dilyn cymeradwyo'r cynllun.

Rhaglenni Blaenoriaeth	Diben
Gofal sy'n Seiliedig ar Leoedd	Sefydlu model cymunedol clir ar gyfer y sefydliad gyda dull ataliol, wedi'i alinio â Chymunedol o'r Cychwyn
Gofal Brys a Gofal Mewn Argyfwng	Cyflawni trawsnewidiad wedi'i ddiffinio'n glir o fewn ein cynllun adfer Gofal Brys a Gofal Mewn Argyfwng i gefnogi isgyfeirio
Gofal Wedi'i Gynllunio a Chanser	Trawsnewid gofal wedi'i gynllunio a llunio canser mewn gwaith atal gofal sylfaenol ac eilaidd a chefnogi gwelliant mewn amseroedd aros
Iechyd meddwl	Cyflawni ein hymrwymadau i gyflawni'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant a chwblhau ailgynllunio gwasanaethau i greu modelau gwasanaethau cynaliadwy
Gwerth a Chynaliadwyedd	Ffocws system gyfan ar werth a chynaliadwyedd sy'n cyflawni newid i wasanaethau a themâu trawsbynciol yn unol â VSB cenedlaethol

ATODIAD 1 Disgwyliadau Cyflawni y Gweinidog

Disgwyliadau Cyflawni Gweinidogol ar gyfer 2026-27		Llinell sylfaen	Mawrth 27	
Mynediad Amserol at Ofal	Sicrhau nad oes unrhyw glaf yn aros mwy na 45 munud am drosglwyddiad. <i>Cynllun i gyflawni meini prawf isgyfeirio</i>	1,230	364	N
	Sicrhau nad oes unrhyw glaf yn treulio 12 awr neu fwy ym mhob cyfleuster gofal brys mawr a bach ar o'r amser cyrraedd i'r amser derbyn, trosglwyddo neu rhyddhau. <i>Cynllun i gyflawni meini prawf isgyfeirio</i>	1,089	799	N
	Dim cleifion yn aros mwy na 104 wythnos am atgyfeiriad i driniaeth.	50	3,022	N
	Byrddau Iechyd i gyflawni'r targed o 75% ar gyfer y llwybr lle'r Amheuir Canser drwy gyflwyno'r llwybrau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol, gan leihau'r ôl-groniad o gleifion sy'n aros mwy na 62 diwrnod erbyn diwedd mis Mawrth 2027.	55.9%	75%	Y
	Dim cleifion yn aros mwy nag 8 wythnos am ddiagnosis penodol	166	0	Y
Iechyd y Boblogaeth ac Atal	Cynyddu cyfran y plant yng Nghymru sydd â phwysau iach drwy atal y codiad, a chyfrannu at ostyngiad o flwyddyn i flwyddyn yn lefelau gorbwysau a gordewdra fel y'u mesurir ac a adroddir drwy'r Rhaglen Genedlaethol Mesur Plant, gan ganolbwyntio ar y rhai sydd fwyaf dan anfantais.	75.1% (2023/24)	76%	Y
	Lleihau anghydraddoldeb o ran y nifer sy'n manteisio ar ddulliau atal afiechyd yn yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig, yn enwedig o ran brechu, sgrinio ac atal a gofal diabetes.	-	Chwarterol Adrodd	Y
	O leiaf 90% o unigolion wedi'u nodi drwy'r Audit Plus Frailty Tool (neu'r hyn sydd wedi'i ddisodli) i dderbyn gofal rhagweithiol yn unol â'u cynlluniau gofal cytunedig.	-	90% (cynllun gofal yn ei le)	Y
	Cynnydd yng nghanran y cleifion (12 oed a throsodd) â diabetes a dderbyniodd yr holl wyth proses gofal a argymhellwyd gan NICE..	44.3%	50%	Y
Cymuned o'r Cychwyn	Cyflawni tuedd sy'n gostwng dros 12 mis o ran nifer y bobl sy'n wynebu oedi yn yr ysbyty a nifer y dyddiau o oedi ar gyfer y bobl hynny fel y'i mesurir gan y dangosfwrdd Oedi yn Achos Llwybrau Gofal <i>Cynllun i gyflawni meini prawf isgyfeirio</i>	180 Nifer 6,165 diwrnod	120 Nifer 3,840 diwrnod	Y
	Cynnydd mewn capasiti nyrsio cymunedol a nyrsio gofal lliniarol arbenigol ar benwythnosau i o leiaf y lefelau gofynnol a osodwyd yn flaenorol ar gyfer 2024/25 a mwy ble mae hynny'n bosibl	91,128	118,223	Y

ATODIAD 1 Disgwyliadau Cyflawni y Gweinidog

Disgwyliadau Cyflawni Gweinidogol ar gyfer 2026-27		Llinell sylfaen	Mawrth 27	
Iechyd meddwl Mynediad	Cyflwyno a gwerthuso Cymorth Iechyd Meddwl Mynediad Agored erbyn Mawrth 2027.	-	Cerrig milltir	Y
	Gwella diogelwch mewn gwasanaethau Iechyd Meddwl Gofal Eilaidd (wedi'i fesur drwy fatrics diogelwch iechyd meddwl y cytunwyd arno a PROM ReQuol) erbyn Mawrth 2027.	-	Cerrig milltir	Y
	Gwella Iechyd Corfforol Pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl hirdymor drwy gynnal adolygiadau o farwolaethau a chyflwyno cynlluniau gwella yn seiliedig ar yr hyn sydd wedi'i ddysgu erbyn mis Mawrth 2027.	-	Cerrig milltir	Y
Iechyd Menywod	Ehangu model Hwb Iechyd Menywod ymhellach ym mhob ardal Bwrdd Iechyd erbyn mis Mawrth 2027 (yn unol â'r Chynllun Iechyd Menywod).	-	Cerrig milltir	Y
	Gwella ansawdd ein gwasanaethau mamolaeth drwy leihau cyfraddau marwolaethau amenedigol.	5.22	5.067	Y
Ansawdd a Diogelwch	Tuedd ar i lawr yn ystod 12 mis treigl o ran cyfartaledd fras marwolaethau a chynnal cyfradd aildderbyn wastad dros 7 diwrnod..	1.36%	Wedi'i bennu drwy 26/27	Y
	Dyddiau o ofal diogel a ddarparwyd ers y digwyddiad byth diwethaf, wedi'u monitro gan ddefnyddio Siart-T SPC.	-	Gweithredu	Y
	Canran y cwynion a gafodd eu datrys yn gynnar - targed o 40% erbyn Mawrth 2027.	33.9%	40%	Y
	Mae'n rhaid i'r gwasanaeth codio clinigol sicrhau bod o leiaf 95% o achosion cleifion mewnol ac achosion dydd wedi'u codio'n llawn o fewn un mis adrodd ar ôl eu rhyddhau, yn unol â mesurau Llywodraeth Cymru Yn ogystal, rhaid cywiro 90% o'r holl wallau codio a nodwyd o fewn 35 diwrnod ar ôl iddynt ddod i'r amlwg, gan sicrhau gwelliannau o ran ansawdd data amserol a chywir ar draws pob Bwrdd Iechyd. Rhaid canolbwyntio ar ansawdd codio gan roi pwyslais ar benodolrwydd, a chofnodi cyd-forbidrwydd a ddaw i'r amlwg drwy gynnydd o 10% yn y mynegai dyfnder o flwyddyn i flwyddyn.	89.9%	91%	N

Atodiad 2: Galluogi Camau Gweithredu

Camau Galluogi: gwneud yn orfodol ar sail “mabwysiadu neu gyfiawnhau”			Llinell sylfaen	26/27
Cynhyrchiant	Sicrhau bod y model cynhyrchiant ffactor cyfan yn cael ei ddefnyddio, a nodi'r camau gweithredu a'r effaith o ran cynhyrchiant meintiol a fydd yn cynyddu cynhyrchiant cyffredinol yn 2026/27 o'r sefyllfa sylfaen.	Y	Mae model a methodoleg TPF yn dal i gael eu datblygu ac yn aros am ddiweddariad	Drwy ddefnyddio'r model ar gyfer 26/27, pan fydd cyfleoedd ar gael, byddant yn cael eu hasesu a'u blaenoriaethu yn y meysydd canlynol: cynllun gwelyau, gwella hyd arhosiad ac ad-drefnu, effeithlonrwydd gweithredol i leihau costau gyda ffocws ar Theatrau
Iechyd meddwl	Rhoi camau gweithredu ar waith i sicrhau gostyngiad sylweddol yn nifer y cleifion sy'n cael eu hanfon y tu allan i'r ardal yn 2026/27, a'r costau cysylltiedig.	Y	0.	Dal i 0.
Iechyd y Boblogaeth ac Atal	Sicrhau cynnydd y llwybr ffocws Diabetes Gwerth Uchel Effaith Uchel	Y	Pob un o'r 8 proses gofal: 44.3% Gwylidwriaeth traed: 66.4% Albwmin wrin: 66.0%	Pob un o'r 8 proses gofal: 50% Gwylidwriaeth traed: 80% Albwmin wrin: 80%
Creu Capasiti yn y Gymuned	Cefnogi'r gwaith o gyflwyno ap GIG Cymru er mwyn cael yr effaith a'r budd mwyaf, gan gynnwys y defnydd ohono ar gyfer presgripsiynau amlroddadwy.	Y	Swyddogaeth rhestr aros, atgyfeirio ac apwyntiadau'r APP yn fyw, .	Mae gweithrediad llawn cam nesaf yr APP yn cael ei ddatblygu gyda'r tîm digidol cenedlaethol
Creu'r Gwerth Mwyaf am Arian	Heb Gyflog - sicrhau bod argymhellion y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd yn cael eu gweithredu, sy'n cynnwys cyflwyno dewis cynnyrch a gymeradwywyd yn glinigol ac o dan fandad yn lleol i wneud y mwyaf o gyfran o'r farchnad a darparu'r gwerth gorau.	Y	Goruchwyliaeth drwy'r Bwrdd Heb Gyflog yn ein Rhaglen Gwerth a Chynaliadwyedd. Mae'r grŵp arloesi theatrau yn adolygu cyfleoedd cenedlaethol a lleol nad ydynt yn gysylltiedig â thâl—megis pwythau, dyfeisiau egni, styffylu, a chynhyrchion orthopedig.	Isafswm o £2.3m o arbedion wedi'u cyflawni trwy amrywiaeth o gynlluniau gan gynnwys prisio cyfleustodau a rhaglen ReFit

Atodiad 2: Galluogi Camau Gweithredu

Camau Galluogi: gwneud yn orfodol ar sail “mabwysiadu neu gyfiawnhau”			Llinell sylfaen	26/27
Gwneud y Mwyaf o Werth am Arian	Rheoli Meddyginiaethau - sicrhau bod rhaglen y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd meddyginiaethau gwerth uchel yn cael ei gweithredu'n llawn, sy'n cynnwys cyflawni cyfleoedd ym mhob un o feysydd y rhaglen.	Y	Mae BIPAB yn parhau i fod â'r nifer uchaf o feddyginiaethau biodebyg sefydledig yng Nghymru. Mae adolygiad o feddyginiaethau contract generig wedi'i gynnal. Gwrthgeulyddion Trwy'r Geg Uniongyrchol - 93% ar gyfer Gofal Sylfaenol, 95% ar gyfer WP10(HP) Stribedi Profi Glwcos yn y Gwaed (92%) Cyd-gludwr Sodiwm-Glwcos-2 (SGLT2) 81% ar gyfer Gofal Sylfaenol, 88% ar gyfer WP10(HP)	Bydd y rhaglen waith yn parhau, gan adrodd i'r V&SB. Proses achos busnes Blueteq yn parhau Cynnal statws nifer uchaf yng Nghymru.
	Ystâd - sicrhau bod camau gweithredu cryfach yn cael eu cymryd i wella'r defnydd o ystâd, gan gynnwys ailbwrpasu a gwaredu ystâd nad yw'n cael ei defnyddio'n ddigonol mewn modd priodol.	Y	Blaenoriaethau ffrwd waith ad-drefnu ystadau wedi'u cytuno ac maent yn cynnwys Gwynllyw, NHH, Trefynwy, Aber Valley	Achosion busnes allweddol sydd ar y gweill wedi'u datblygu ar gyfer Nevill Hall, Aber Valley a Threfynwy Ailgynllunio Gwasanaeth Iechyd Meddwl yn arwain at ad-drefnu ystadau Strategaeth 2028–2038 wedi'i chwblhau
	Gofal Iechyd Parhaus - sicrhau bod argymhellion y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd yn cael eu gweithredu, sy'n cynnwys camau gweithredu parhaus i wella effeithiolrwydd clinigol ac ariannol sy'n gysylltiedig â phecynnau gofal.	Y	Mae goruchwyliaeth drwy'r Bwrdd Gofal Iechyd Parhaus yn ein Rhaglen Gwerth a Chynaliadwyedd yn cynnwys monitro parhaus, cynnydd ar achosion cyfreithiol, a materion sy'n ymwneud â chymhwysedd heb eu datrys gydag Awdurdodau Lleol.	Datrysiaid Digidol Cymru Gyfan wedi'i weithredu Cytundeb wedi'i symud yn ei blaen ynghylch cymhwysedd a gofal gwell gydag Awdurdodau Lleol. Cyflawni arbedion o £1.6 miliwn ar draws rheoli galw ac adolygiadau o becynnau

Atodiad 2: Galluogi Camau Gweithredu

Camau Galluogi: gwneud yn orfodol ar sail “mabwysiadu neu gyfiawnhau”			Llinell sylfaen	26/27
Gwella Gwerth Optimeiddio Canlyniadau, a Lleihau Amrywiad	Sicrhau cynnydd o ran gweithredu llwybr Gwerth Uchel Effaith Uchel y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd - Iechyd Esgyrn	Y	Cyfraddau adnabod a thrin torasgwrn eiddilwch uwch. Mae adolygiad codio, olrhain canlyniadau, a gwerthuso gwasanaethau ar y gweill, gyda staffio sefydlog.	Mabwysiadu'r mesur Cyfle a Gollwyd o fewn y FLS-DB. Yn amodol ar gyllid, ehangu'r rôl Fferylllydd Gwasanaeth Cyswllt Torasgwrn a rolau cymorth.
	Dileu systemau a dyfeisiau heb eu cefnogi a sicrhau cynllun ymateb seiber clir ar gyfer y sefydliad.	P	Mae rhaglen uwchraddio Windows Server 2012 wedi'i chwblhau, gyda'r gweinyddion sy'n weddill wedi'u cynnwys o dan ddiweddariadau diogelwch estynedig tra bod gwaith yn dechrau ar uwchraddiad 2016 a'r diweddariadau cysylltiedig i'r gweinydd SQL. Mae seiber-wydnwch yn parhau i wella trwy ymarferion ymateb i ddigwyddiadau, gwelededd SIEM estynedig, cyflwyno waliau tân y genhedlaeth nesaf, a goruchwyliaeth gryfach trwy'r Grŵp Sicrwydd Rhwydwaith a Systemau Gwybodaeth .	Mae prosiectau'n cynnwys: Dileu gweinydd Windows 2016 ac MS Sequel 2012, 2014 a 2016 Cyflwyno Palo Alto. Ymarfer seiber bob chwarterol ar gyfer 2026. Asesiad Archwilio CAF NIS CRU Mehefin 2026.

Atodiad 2: Galluogi Camau Gweithredu

Camau Galluogi: gwneud yn orfodol ar sail “mabwysiadu neu gyfiawnhau”			Llinell sylfaen	2026/27
Trosglwyddo Cleifion o Ambiwylans	N	Y llinell sylfaen yn Adran Argyfwng GUH yw 24.9% o fewn 15 munud, a 24.8% ar draws pob math arall o leoliad.	Cyflawni 80% o fewn 45 munud yn Adran Argyfwng GUH a 100% ym mhob math arall o leoliad. Cyflwyno meini prawf isgyfeirio
Fframwaith Optimeiddio Llif Cleifion Mewn Ysbytai	P	Mae rhyddhau yn seiliedig ar feini prawf wedi'i gyflwyno Ymgorffori OHFF	Cyflwyno'r OHFF ar draws pob safle
Gofal brys yr un diwrnod a gwasanaethau eiddilwch aciwt wrth y drws ffrynt	P	Lolfa Asesu Gymunedol wedi'i hymestyn gyda chyfradd rhyddhau i'r cartref o 76%, Tîm Cartref yn Gyntaf Canolog a rhaglen pobl hŷn ar waith	Rhaglen pobl hŷn i gyflwyno model clinigol wedi'i ailgynllunio.
Fframwaith ymateb i gwympiadau yn y gymuned	P	Ymateb i gwympiadau Lefel 1 yn cynyddu i 34% o 25%. Mewnbwn therapydd canolog drwy SPOA. Y gyfradd drosglwyddo sylfaenol yw 36%.	Parhau â'r rhaglen waith a lleihau cyfradd trosglwyddo gyfartalog 12 mis o 10% arall.
Un Pwynt Mynediad	P	Lansiwyd y cynllun peilot Desg Glinigol Gymunedol ym mis Tachwedd 2025 (wedi'i leoli o fewn Hwb SPOA), ac asesodd dros 200 o gleifion ac arhosodd dros 60% ohonynt gartref.	Bydd cynllun peilot SPOA yn rhedeg tan ddiwedd Chwarter 4 gyda gwerthusiad ac asesiad opsiynau i ddilyn.

Atodiad 4: Rhaglenni Blaenoriaeth iii. Gofal Wedi'i Gynllunio a Chanser

Gofal Wedi'i Gynllunio a Chanser

Mae'r galw am ofal wedi'i gynllunio yn parhau i dyfu, gyda rhagolygon yn awgrymu y bydd cyfanswm yr atgyfeiriadau yn codi 4.2% yn 2026/27 o'i gymharu â 2025/26, gan barhau â'r patrwm o gynnydd o flwyddyn i flwyddyn ar ôl COVID. Disgwylir i apwyntiadau cleifion allanol newydd gyrraedd 177,261 (cynnydd o 6.8%), gyda apwyntiadau dilynol yn cynyddu 9.9% i 356,983. Disgwylir i driniaethau dewisol ostwng 11% i 6,523, er y bydd gweithgarwch achosion dydd yn cynyddu 7.7% i 21,961. Rhagwelir y bydd nifer triniaethau cyffredinol yn cynyddu 2.7% o'i gymharu â rhagolygon 25/26, wedi'i gefnogi gan welliannau effeithlonrwydd mewn theatrau a chynnydd o ran safonau GiRFT. Mae'r cynllun gweithgarwch yn seiliedig ar gapasiti craidd ar y dybiaeth na fydd unrhyw weithgarwch ychwanegol.

Rhagwelir y bydd y galw o ran canser yn tyfu 3% ar gyfer cyfanswm yr atgyfeiriadau a'r atgyfeiriadau gan feddygon teulu , gan sefydlogi ar ôl cyfnodau o dwf uchel ar ôl y pandemig. Er na ddisgwylir cynnydd mawr yng nghyfanswm y triniaethau, bydd perfformiad gwell yn dibynnu ar gynyddu cyfran y triniaethau canser a gychwynnir o fewn 62 diwrnod o'r pwynt lle'r amheuir canser, gan olygu bod angen llwybrau cadarn, wedi'u rheoli'n dynn ar draws diagnosteg, apwyntiadau cleifion allanol a chynllunio triniaeth.

Fel rhan o ddatblygiad ein cynllun, rydym wedi ymgymryd â modelu galw a chapasiti manwl ar draws Gofal Wedi'i Gynllunio i lywio'r ddarpariaeth o fewn capasiti craidd, nodi cyfleoedd ar gyfer cynhyrchiant ac effeithlonrwydd, a rhagweld perfformiad disgwyledig yn erbyn metrigau allweddol. Mae'r gwaith hwn wedi dangos diffygion sylweddol o ran galw a chapasiti ar draws sawl arbenigedd gydag is-arbenigeddau penodol yn sbarduno'r diffyg, yn enwedig yn y cyfnod triniaeth.

Dim ond trwy weithgarwch ychwanegol sylweddol a ddarparwyd y tu allan i gapasiti craidd (gan gynnwys Mentrau Rhestrau Aros , sesiynau ôl-lenwi, a chontractio mewnol) y cyflawnwyd perfformiad yn erbyn Disgwyliad Cyflawni Gweinidogol 2025/26 ar gyfer Atgyfeiriad i Driniaeth (RTT) 104 wythnos. Mae'r gweithgarwch ychwanegol hwn wedi cael ei gefnogi trwy gyfuniad o ddryniadau cenedlaethol a chyllid mewnol anghylchol . Hyd at Fis 11, mae cyfanswm y gweithgaredd triniaeth ychwanegol wedi costio £7.1m, gyda rhagolygon o £2m pellach ym Mis 12 ac rydym yn parhau i weithio tuag at sefyllfa bron yn sero ar gyfer cleifion sy'n aros dros 104 wythnos erbyn diwedd y flwyddyn gyda rhai risgiau. Heb lefelau cymharol o fuddsoddiad anghylchol yn y dyfodol, bydd perfformiad 104 wythnos yn dirywio oherwydd y galw sylfaenol yn ystod y cyfnod triniaeth a bylchau o ran capasiti mewn ENT, Llawfeddygaeth Gyffredinol, Offthalmoleg, Llawfeddygaeth y Geg, Yr Ên a'r Wyneb ac Orthopedig.

Mae'r rhaglen mewnoli cleifion allanol genedlaethol wedi lleihau maint y rhestr aros yn gyffredinol. Wrth gymharu'r garfan 104 wythnos ar gyfer 2025/26 â charfan 2026/27, mae cyfanswm y garfan sy'n dechrau'r flwyddyn newydd tua 10,000 o gleifion yn llai, ond mae'r gostyngiad hwn yn gyfan gwbl yn y cyfnod cleifion allanol.

Mewn camau eraill o'r llwybr, mae meintiau'r carfanau wedi cynyddu o'i gymharu â 2025/26:

- Mae Diagnosteg Cyfnod 2 68% yn fwy nag ar ddechrau 25/26;
- Mae Gofal Dilynol /Therapiau Cam 3 3% yn fwy, a;
- Mae Triniaeth Cam 4 15% yn fwy.

Yn y Cam Triniaeth yn unig, mae hyn yn cynrychioli tua 1,500 o gleifion ychwanegol yn y garfan 104 wythnos o'i gymharu â'r un pwynt y llynedd, gyda'r cynnydd mwyaf i'w weld mewn Llawfeddygaeth y Geg yr Ên a'r Wyneb ac Orthopedig. Er bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i fod wedi ymrwmo i gyflawni ei amcanion trawsnewid a'r Camau Galluogi o fewn Gofal Wedi'i Gynllunio fel yr amlinellir yn yr IMTP hwn, bydd cynnal y lefelau perfformiad presennol heb y capasiti ychwanegol anghylchol, sydd wedi cefnogi'r ddarpariaeth hyd yma, yn heriol iawn. Gallem wneud cynnydd pellach ar 104 a diagnosteg pe bai arian ychwanegol ar gael ac mae gennym gynlluniau cyflawni drafft ar waith i gyflawni hyn.

Perfformiad yn 25/26

Disgwyliad Cyflenwi	Ymrwymiad BIPAB	Perfformiad yn ystod y mis yn erbyn y trywydd
Tuedd o welliant dros 12 mis yng nghanran y cleifion sy'n dechrau triniaeth cancer bendant gyntaf o fewn 62 diwrnod o'r pwynt lle'r amheuwyd cancer	70% Mawrth-26	55.9% (Trywydd Ionawr-26: 69.0%)
Gostyngiad yn yr ôl-groniad o gleifion sy'n aros dros 62 diwrnod (SCP)	200 Mawrth-26	344 (Trywydd Ionawr-26: 220)
Gostyngiad yn yr ôl-groniad o gleifion sy'n aros dros 104 diwrnod (SCP)	50 Mawrth-26	95 Ion-26 (Trywydd Ion-26: 55)
Cynnydd yng nghyfradd y triniaethau sy'n dechrau o fewn 28 diwrnod i'r penderfyniad i drin	75% Mawrth-26	86.9% (Trywydd Ionawr-26: 75.0%)
Nifer y cleifion sy'n aros dros 104 wythnos (pob cam)	3,291 Mawrth-26	434 (Trywydd Ariannu Ion-26: 459)
Nifer y cleifion sy'n aros dros 52 wythnos am apwyntiad Cleifion Allanol	18,095 Mawrth-26	3,779 (Trywydd EoY Ion-26: 4,237)
Gostyngiad yn nifer y cleifion sy'n aros 100% yn fwy na dyddiad targed apwyntiad dilynol cleifion allanol	27,275 Mawrth-26	31,478 (Trywydd Ionawr-26: 28,750)
Cynnydd yng nghyfradd yr Apwyntiadau Dilynol ar gais y Claf ar gyfer Sylw yn ôl Symptomau	13.5 Mawrth-26	11.6% (Trywydd Ionawr-26: 13.0%)
Monitro DNA/CNA ar gyfer pob clinig Cleifion Allanol. Pan mae DNA >5%, bydd angen cyflwyno a monitro gor-drefnu a bydd CNA yn cael ei leihau	5% Mawrth-26	5.2% (Trywydd Ionawr-26: 5.0%)
Gostyngiad yn nifer y cleifion sy'n aros mwy na 8 wythnos am ddiagnosis penodol	1,077 Mawrth-26	2,387 (Trywydd Ion-26: 1,077)
Nifer yr oedolion sy'n aros mwy na 14 wythnos am bob llwybr awdioleg	5,440 Mawrth-26	5,628 (Trywydd Ionawr-26: 5,366)
Nifer y plant sy'n aros mwy na 6 wythnos am bob llwybr awdioleg	3,630 Mawrth-26	1,455 (Trywydd Ionawr-26: 2,783)
Dim claf yn aros mwy na 14 wythnos am asesiad therapiwtig	105 Mawrth-26	366 (Trywydd Ionawr-26: 110)
Ar 90% o ddiwrnodau gofal wedi'i gynllunio, dylid amddiffyn y capasiti cleifion mewnol/achosion dydd/adfer theatrau rhag pwysau ac allanolion	90% Mawrth-26	96.3 (Trywydd Ionawr-26: 90.0%)
Defnydd o theatrau - dechrau'n hwyr yn llai nag 20%	25% Mawrth-26	37.0 (Trywydd Ionawr-26: 30.0%)
Defnydd o Theatrau: gorffen yn gynnar i lai nag 10%	25% Mawrth-26	50.6% (Trywydd Ionawr-26: 31.0%)
Defnydd o Theatrau: defnyddio 85% o sesiynau	85% Mawrth-26	83.1% (Trywydd Ionawr-26: 85.0%)
Cyflawni gwelliannau mewn cyfraddau llawdriniaeth ddydd, gan gyflawni cyfradd achosion dydd BADS	55% Mawrth-26	77.0% (Trywydd Ionawr-25: 50.0%)
Nifer yr oedolion sy'n aros mwy na 14 wythnos am bob llwybr awdioleg	5,440 Mawrth-26	5,628 (Trywydd Ionawr-26: 5,366)
Nifer y plant sy'n aros mwy na 6 wythnos am bob llwybr awdioleg	3,630 Mawrth-26	1,455 (Trywydd Ionawr-26: 2,783)

Ffrydiau Gwaith y Rhaglen

Gofal Wedi'i gynllunio

Arweinydd Gweithredol:
Cyfarwyddwr Strategaeth,
Cynllunio a Phartneriaethau

Llif Gwaith

Llwybrau Iechyd, Cadw'n Iach, Trawsnewid Cleifion Allanol, heatrau Academi Gofal Wedi'i Gynllunio.

â Chanser

Arweinydd Gweithredol: Prif Swyddog Gweithredu

Atal, Canfod Cynnar, Diagnosis Amserol, Gofal Gwell a wedi'i safoni, Byw Gyda Chanser a Thu Hwnt a Gwella ein Gwybodaeth

Prif Gyflawniadau'r Rhaglen yn 25/26

Yn ystod 25/26 fe wnaethom gyflawni'r cyflawniadau canlynol:

- ✓ Cyflawnwyd 180 o Llwybrau Iechyd byw
- ✓ Lanswyd gwasanaeth Cadw'n Iach, gan gefnogi a chyfeirio cleifion ar restrau triniaeth ddewisol
- ✓ Cyflwyno model Interface GP yn llwyddiannus ar draws nifer o arbenigeddau
- ✓ Rhestrau HVLC wedi'u graddio i huwchraddio gyda ffocws ar NHH ar gyfer llawdriniaeth ddydd a HVLC wedi'u halinio ag adroddiad MAG
- ✓ Felindre @ Canolfan Radiotherapi NHH wedi'i chyflwyno'n llwyddiannus
- ✓ Cynyddodd y defnydd o theatrau yn sylweddol o 56.5% → 79.1%, gan ddangos gwelliant cryf ac ar y trywydd iawn i gyrraedd llwybrau GIRFT.
- ✓ Mae perfformiad llawdriniaeth ddydd (BADS) wedi gwella o 76% → 80%, gan ddangos cynnydd da tuag at ddisgwyliadau cenedlaethol.
- ✓ Arloesi sylweddol mewn diagnosteg gyda defnydd o ddeallusrwydd artifisial yn cael ei wneud mewn radioleg, TNE a thechnegau speedboat mewn endosgopi
- ✓ Arwain y gwaith rhanbarthol o gyflwyno rhaglen cataractau fawr, gan gefnogi dros 12,000 o driniaethau ychwanegol o'i gymharu â 2024/25

Ffocws Gofal Wedi'i Gynllunio ar gyfer 2026/27

Maes	Ymrwymïadau
Rheoli Galw	• Sefydlu grwpiau rhyngwyneb gofal sylfaenol a gofal eilaidd ar draws arbenigeddau allweddol i gryfhau arweinyddiaeth glinigol a pherchnogaeth ar y cyd • Ymgorffori manteision Llwybrau Iechyd yn llawn ochr yn ochr â datblygu llwybrau ychwanegol mewn meysydd sydd â niferoedd uchel • Ymchwiliadau dwfn i ddata atgyfeirio meddygon teulu ar draws arbenigeddau a gofal sylfaenol a gofal eilaidd • Defnyddio e-advice i gefnogi cyfathrebu dwyffordd rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd
Cleifion allanol	• Canolbwyntio ar restr aros gofal dilynol trwy gais SOS/PIFU yn rhagolygol ac yn ôl-weithredol • Adolygiad templed clinig yn ôl arbenigedd
Cleifion Mewnol a Diagnosteg	• Gyrru effeithlonrwydd theatrau gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn 2025/26 gan gynnwys defnydd a chynhyrchiant, gan gynnwys mis perffaith mewn Orthopedig • Datblygu cynllun theatrau system gyfan sy'n cwmpasu Uned Triniaeth Cleifion Allanol (a dewisiadau gofal dydd eraill), llawdriniaeth ddydd a llawfeddygaeth risg uchel i wneud y mwyaf o'r seilwaith presennol a llywio cynllunio ar gyfer NHH a LHP • Camau nesaf cynllunio manwl ar gyfer orthopedeg fel rhan o waith rhanbarthol a LHP • Cynllun diagnostig rhanbarthol gan gynnwys cynllun gweithredu ar gyfer Cyfnod 1 o LHP • Cwblhau cynlluniau cynaliadwyedd ar gyfer arbenigeddau nad ydynt mewn cydbwysedd cylchol gan gynnwys orthopedig

Gofal Wedi'i Gynllunio a Chanser

94

Maes	Ymrwymadau
Galluogwyr	- Lansio a defnyddio strategaeth ddilysu - Manteisio’n barhaus ar gyfleoedd mewn fframweithiau CIN - Cam nesaf datblygiad Academi Gofal Wedi’i Gynllunio a chyflwyno hyfforddiant - Blaenoriaethau digidol allweddol i gefnogi gofal wedi’i gynllunio gan gynnwys Open Eyes, e-advice, ap trefnu apwyntiadau cleifion allanol

Ffocws Canser ar gyfer 26/27

Maes	Ymrwymadau
Cynllunio	- Datblygu Cynllun Gwella Canser hirdymor hyd at 2035 i ddarparu tystiolaeth barhaus o welliant wedi’i gynllunio, llywodraethu a blaenoriaeth strategol yn dilyn Strategaeth Canser y Bwrdd Iechyd 2021-2026. - Adolygiad o'r manteision a wireddwyd o'r Strategaeth Canser flaenorol i lywio'r Cynllun newydd
Perfformiad SCP	Trywydd perfformiad Llwybr Lle’r Amheuir Canser (SCP) yw clirio'r ôl-groniad presennol yn Ch1 a chyflawni gwelliant graddol trwy'r chwarteri sy'n weddill i gyrraedd neu fod yn agos at y targed cenedlaethol o 75% erbyn diwedd y flwyddyn. O ran yr ôl-groniadau 62 a 104 diwrnod, mae'r llwybrau'n ceisio lleihau'r rhain dros 50% yn ystod 26/27.
Rheoli galw	- Bydd gwaith modelu galw a chapasiti cryfach yn cael ei wneud i alluogi rhagweld pwysau ar wasanaethau yn gynharach a'r gallu i nodi capasiti ychwanegol lle bo modd ac ym mhle y mae ei angen cyn i berfformiad ddirywio. - Alinio diagnosteg â chamau llwybr a argymhellir/llwybr mewnol (NOP) gan nodi galw cynyddol ar draws dulliau
Gwella	Gweithio ar draws pob safle tiwmor gyda dull sy’n canolbwyntio ar y Gastroberfeddol Isaf, Wroleg a'r Fron sy’n wynebu problemau parhaus o ran cynaliadwyedd. Bydd cynlluniau gwella ffurfiol yn cael eu drafftio a byddant yn nodi disgwyliadau clir ar gamau gweithredu ôl MDT a dilyniant llwybrau a darperir goruchwyliaeth Weithredol lle bo angen.
Atal	- Parhau i gyfathrebu’n effeithiol ym meysydd atal, ymwybyddiaeth, nifer y bobl sy'n cael eu sgrinio a chyflwyno'n gynharach. - Monitro effeithiau gweithredol cyfathrebu wedi’i dargedu a defnyddio mewnwelediadau o ymatebion i ymgyrchoedd cyfathrebu a fydd yn bwydo i Ddatblygiad y Cynllun Gwella Canser
Profiad y Claf	Ochr yn ochr â'r ffocws ar gydymffurfiaeth sy'n effeithio'n uniongyrchol ar brofiad cleifion, blaenoriaethau cyfathrebu cliriach â chleifion yn dilyn MDT, dilyniant mwy esmeyth trwy lwybrau ac ailgynllunio gwasanaeth sy'n gwella profiad cleifion. Ymgorffori adborth cleifion yn llwybr canser a gweithredu ar ganlyniadau perthnasol ac adborth Civica.

Cyflawni yn erbyn Nodau Strategol (26/27)

Blaenori aeth	Llif gwaith		Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
Atal	Marwolaethau Cynamserol y gellir eu Hatal	MD	Grŵp atal cancer yn canolbwyntio ar ymwybyddiaeth o symptomau o fewn grwpiau poblogaeth sy'n cael eu trangynrychioli	Adolygu a datblygu Atal Cancer fel rhan o fframwaith cyflawni Cancer Gwent 2035	Parhau i gyflawni cynllun gwaith y Gynghrair Rheoli Nicotin a gweithredu camau gweithredu o Ran 2 yr Adroddiad Darganfod Nicotin	Cyflwyno Atal Cancer fel rhan o fframwaith cyflawni Cancer Gwent 2035
Mynediad a Chynaliadwyedd	Cleifion sy'n aros hiraf	MD	Dechrau peilot o welliannau gwasanaeth mewn Endosgopi gan gynnwys Sbwng Capsiwl, Capsiwl y Colon, Endosgopi Traws-drwynol a Speedboat	Parhau i oruchwyllo trywydd 8 wythnos diagnosteg gan wella MR, CT ac Uwchsain	Datblygu cynnig ar gyfer model gwasanaeth 3C mewn Endosgopi i wella cynaliadwyedd a lleihau amseroedd aros	Cyrraedd 0 claf yn aros mwy nag 8 wythnos am ddiagnosis penodol trwy wella MR, CT, Uwchsain ac Endosgopi
		MD	Dechrau gweithredu cynllun gweithredu cynaliadwyedd Awdioleg i wella amseroedd aros i fabanod, plant ac oedolion	Cymryd camau wedi'u targedu ar gynlluniau rheoli galw er budd sefyllfa cleifion allanol 52 wythnos	Cyflwyno cynlluniau effeithlonrwydd a chynhyrchiant i leihau'r cleifion sy'n aros hiraf am driniaeth	Rheoli galw, effeithlonrwydd a chynhyrchiant er budd y cleifion sy'n aros hiraf am apwyntiadau a thriniaeth cleifion allanol, gan gyflawni'r trywydd disgwyliedig
		MD	Cynllun adferiad Cancer Rhan Isaf y GI gan arwain at ostyngiad yn yr amser i'w gwmpasu; Sefydlu grwpiau adferiad GI Uchaf Gynaecoleg	Gostyngiad chwarterol mewn ôl-groniad cancer i 9% neu lai; Monitro cydymffurfiaeth grwpiau adferiad cancer y llwybr	Gostyngiad chwarterol mewn ôl-groniad cancer i 7% neu lai; Adolygu cydymffurfiaeth grwpiau adferiad cancer y llwybr Mynediad cyflym at ddiagnosis a thriniaeth cancer.	Gostyngiad chwarterol mewn ôl-groniad cancer i 5% neu lai; Adolygu grwpiau adferiad cancer y llwybr yn seiliedig ar gydymffurfiaeth
Gwella Ansawdd a Phrofiad	Gofal Wedi'i Gynllunio a Chaner	EA	Cynnal dadansoddiad bylchau o argymhellion GIRFT a datblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer GI Isaf ac Wroleg Gymhleth a chynlluniau i wella cefnogaeth seicoleg i gleifion cancer	Arbenigeddau i ddatblygu a thracio cydymffurfiaeth â Fframweithiau CIN; Gweithredu cynlluniau i wella cefnogaeth seicoleg i gleifion cancer	Cyflwyno cynllun gweithredu argymhellion GIRFT; Gweithredu cynllun i sicrhau bod Uned y Llygaid yn bodloni safonau cydymffurfio RNIB	Cyflwyno cyffuriau NICE i gleifion Hematoleg; Gweithredu rhagsefydlu i gleifion sy'n aros am lawdriniaeth fel rhan o'u llwybr cancer

Blaenor iaeth	Llif gwaith		Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
Ymgorffori Gwerth ac Effeithlonrwydd	Gwneud y Gorau o Theatrau	EA	Cofnod manwl o'r hyn a ddysgwyd o Fis Perffaith T&O a meincnodi cenedlaethol i gyflawni safon EA; Gyrru gwelliannau o ran cychwyn yn hwyr/gorffen yn gynnar a theatrau	Defnyddio'r hyn a ddysgwyd o Fis Perffaith a meincnodi cenedlaethol i ddylunio cynllun gweithredu ar gyfer cyflwyno ehangach; Rhestru uniongyrchol ar gyfer cataractau; cyflwyno HVLC mewn Llawfeddygaeth Gyffredinol (yn amodol ar gytundeb codio)	Parhau i olrhain gwelliannau a datrys problemau mewn achosion o ddechrau'n hwyr/gorffen yn gynnar a chleifion canser yn mynychu'r Theatr o fewn 21 diwrnod yn unol â Llwybrau Delfrydol Cenedlaethol	Cyflawni Cyfradd Achosion Dydd HVLC o 25%; Parhau i olrhain gwelliannau a datrys problemau o ran cychwyn yn hwyr/gorffen yn gynnar
	Llwybrau Iechyd	EA	Cyflwyno 8 llwybr newydd ychwanegol; Datblygu dull i fonitro cysondeb a dolenni adborth meddygon teulu ar ôl brysennu	Cyflwyno 8 llwybr newydd ychwanegol; Ymgorffori trwy ddulliau cyfathrebu wedi'u targedu a grwpiau rhyngwyneb clinigol	Gweithredu 8 llwybr newydd ychwanegol; adolygiad bob 6 mis o ddata, defnydd, effaith a dysgu	Gweithredu 8 llwybr newydd ychwanegol; Troi cyfleoedd o adolygiad 6 mis yn gamau gweithredu pendant
	Trawsnewid Cleifion Allanol <i>[MT: Gofal Wedi'i Gynllunio]</i>	EA	Adolygu defnydd gofod cleifion allanol drwy archwiliadau o ddefnydd o ystafelloedd/amser cychwyn a gorffen; cyflwyno cymhwysiad ôl-weithredol SOS/PIFU; Gweithredu Strategaeth Ddilysu;	Adolygiad o dempledi a chyflwyno safoni yn ôl arbenigedd (newydd, dilyniannau); Peilot ap trefnu apwyntiadau cleifion allanol yn Ysbyty Brenhinol Gwent; Arbenigeddau ychwanegol yn yr Uned Triniaeth Cleifion Allanol	Ymchwiliadau manwl pellach o Heb Fynychu/Methu Mynychu, Gweithio gydag arbenigeddau i wella'r defnydd, cyflwyno'r ap archebu i NHH ac YYF;	Parhau i weithio gydag arbenigeddau i wella defnydd
Ansawdd bywyd	Cadw'n Iach	P		Gwella iechyd a lles cleifion sy'n cael mynediad at ofal wedi'i gynllunio trwy baratoi'n rhagweithiol ar gyfer triniaeth		Gwella iechyd a lles cleifion sy'n cael mynediad at ofal wedi'i gynllunio trwy baratoi'n rhagweithiol ar gyfer triniaeth

Disgwyliadau Perfformiad 26/27		Targed Cenedlaethol	Cyrraedd y Targed?	Llinell sylfaen	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
Nifer y cleifion sy'n aros dros 104 wythnos (pob cam)	MD	0	Na	50	842	1,577	2,213	3,022
Gostyngiad yn nifer y cleifion sy'n aros mwy na 8 wythnos am ddiagnosis penodol	MD	0	le	166	3,048	2,559	1,292	0
Nifer y cleifion sy'n aros dros 52 wythnos am apwyntiad Cleifion Allanol		0	Na	1,834	3,587	5,435	5,578	5,898
Nifer y cleifion sy'n aros dros 26 wythnos am apwyntiad Cleifion Allanol		0	Na	12,222	15,772	19,475	20,948	22,361
Gostyngiad yn y gyfradd atgyfeirio ar gyfer pob 100,000 o'r boblogaeth erbyn mis Rhagfyr 2026 - gan ddefnyddio Llwybrau Iechyd delfrydol	EA	↓	le	900	900	900	800	800
Monitro cyfraddau Heb Fynychu Clinigau cleifion allanol		<5%	le	5.2%	5%	5%	5%	5%
Gostyngiad yn nifer y cleifion sy'n aros 100% yn fwy na dyddiad targed apwyntiad dilynol cleifion allanol		25% ↓	le	31,478	29,150	27,542	25,574	23,606
Cynnydd yng nghyfradd yr Apwyntiadau Dilynol ar gais y Claf ar gyfer Sylw yn ôl Symptomau		↑	le	11.6%	13.5%	14%	14.5%	15%
Defnydd o Theatrau: dechrau'n hwyr i lai nag 20%	EA	20%	Na	37%	35%	32%	29%	25%
Defnydd o Theatrau: gorffen yn gynnar i lai nag 10%	EA	10%	Na	30.7%	22.5%	20%	17.5%	15%
Defnydd o Theatrau: defnyddio 85% o sesiynau	EA	85%	le	83.1%	85%	85%	85%	85%
Cyflawni gwelliannau mewn cyfraddau llawdriniaethau ddydd, wedi'u mesur drwy gyfraddau achosion dydd Cymdeithas Llawfeddygaeth Ddydd Prydain		80%	le	77%	78%	79%	80%	80%
Tuedd o welliant dros 12 mis yng nghanran y cleifion sy'n dechrau triniaeth cancer bendant gyntaf o fewn 62 diwrnod o'r pwynt lle'r amheuwyd cancer	MD	75%	le	55.9%	66.5%	74.3%	74.8%	75%
Gostyngiad yn yr ôl-groniad o gleifion sy'n aros dros 62 diwrnod (Llwybr Lle'r Amheuir Canser sengl)	MD	↓	le	344	350	300	240	170
Gostyngiad yn yr ôl-groniad o gleifion sy'n aros dros 104 diwrnod (Lle'r Amheuir Canser sengl)	MD	↓	le	95	105	90	72	50
% o gleifion brys lle'r Amheuir Canser a gafodd ddiagnosis o fewn 28 diwrnod o'r pwynt lle'r Amheuwyd		-	75%	73.6%	72.5%	75%	75%	75%

Dadansoddiad Arbenigedd 104 Wythnos				
Enw'r Arbenigedd	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
Y Glust, y Trwyn a'r Gwddf	123	228	352	486
Llawfeddygaeth Gyffredinol	64	148	210	269
Yr Ên a'r Wyneb	46	105	161	311
Offthalmoleg	64	215	350	539
T&O - Asgwrn y cefn	29	78	125	172
T&O – Arthroplasti	302	514	669	847
T&O – Arall	214	289	346	398
T&O - POB UN	545	881	1,140	1,417
Wroleg	0	0	0	0
CYFANSWM	842	1,577	2,213	3,022

Galluogi Gweithredu	Mabwys iadu	Llinell sylfaen	Cynllun 26/27
HVLC (Cataractau, Arthroplasti, Llawfeddygaeth Gyffredinol)	P	Cataractau – 6.83 y rhestr Arthroplasti – 3.6 y rhestr Llawfeddygaeth Gyffredinol – yn aros am godau perthnasol gan y Tîm Cenedlaethol	Cataractau – 7 y rhestr Arthroplasti – 4 y rhestr Llawfeddygaeth Gyffredinol – yn aros am godau perthnasol gan y Tîm Cenedlaethol
Sicrhau gweithrediad llawn y Llwybr Delfrydol Cenedlaethol mewn Canser	P	Mae Llwybrau Delfrydol Cenedlaethol yn parhau i gael eu dilyn.	Mapio a chostio canser malaen newydd o darddiad cynradd amhenodol/canser o brif lwybr anhysbys, gyda dadansoddiadau o fylchau a chynllunio i gyflwyno ar gyfer canser yr arennau, myeloma, a sarcoma.
Defnydd o sesiynau theatr	P	Dechrau’n hwyr – 37%, Gorffen yn gynnar – 30.7%, Defnydd o sesiynau – 83.1%	Dechrau’n hwyr – 25%, Gorffen yn gynnar – 15%, Defnydd o sesiynau – 85%
Dilysu clerigol a chlinigol cyson	Y	Pob carfan wedi’u dilysu yn unol â Phecyn Cymorth a Chanllawiau Dilysu Rhestrau Aros y Polisi Gofal Wedi’i gynllunio Cenedlaethol.	Bydd y rhaglen waith yn parhau ar draws pob cam, lansio strategaeth ddilysu yn Ch1 26/27.
Defnyddio Llwybrau Iechyd yn y ffordd orau bosibl.	P	Cyfradd atgyfeirio: 900 ar gyfer pob 100,000 o’r boblogaeth	800 ar gyfer pob 100,000 o’r boblogaeth

Iechyd meddwl

Mae’r galw am wasanaethau iechyd meddwl yn cynyddu’n sydyn ac mae angen i ni ddod o hyd i ffyrdd o gefnogi pobl yn gynharach o fewn y gymuned, er mwyn ceisio osgoi argyfwng a chefnogi gwellhad. Y weledigaeth yw darparu gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu tosturiol o ansawdd uchel sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn gyda’r nod o greu canlyniadau rhagorol i bobl Gwent. Mae nifer o yrwyr strategol cenedlaethol gan gynnwys y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl a Lles, y Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl a’r Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed.

Ym maes Iechyd Meddwl, mae Oedolion a CAMHS yn parhau i ddefnyddio modelu galw a chapasiti yn seiliedig ar lwyth achosion, gyda dim ond twf cymedrol yn y galw i’w ddisgwyl a’r modelu cyfredol yn dangos y gallu i gynnal lefelau perfformiad o 80%, er bod effaith y model Mynediad Agored yn parhau i fod yn ansicr a gallai ddylanwadu ar lif galw yn y dyfodol. Mae galw niwroddatblygiadol CAMHS wedi cynyddu yn ystod 2025/26, gan greu heriau o ran lleihau’r ôl-groniad presennol ac amseroedd aros hir, a fydd yn dylanwadu ar berfformiad yn 2026/27. Ar draws gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu, mabwysiadwyd dull cynllunio sy’n seiliedig ar ddata. Mae dadansoddiad cynnar yn dangos galw cynyddol ac ôl-groniad cynyddol yn y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, sydd wedi’i waethygu gan gyfyngiadau ar fynediad i ADHD. Mae’r Gwasanaeth Asesu Cof hefyd yn profi twf parhaus mewn atgyfeiriadau a rhestrau aros sy’n cynyddu, gyda’r galw yn fwy na’r twf bychan mewn capasiti, gan beri risgiau i berfformiad diagnostig ac asesu.

Perfformiad yn 25/26

Disgwyliad Cyflenwi	Ymrwymiad BIPAB	Perfformiad yn ystod y mis yn erbyn y trywydd
Cynnal Rhan 1a Oedolion i’r targed cenedlaethol (asesiad wedi’i wneud o fewn 28 diwrnod)	80% Mawrth-26	85.7% Ion-26 (Trywydd Ion-26: 80.0%)
Cynnal Rhan 1b Oedolion i’r targed cenedlaethol (ymyrraeth wedi’i wneud o fewn 28 diwrnod)	80% Mawrth-26	94.8% Ion-26 (Trywydd Ion-26: 80.0%)
Cynnal cyfraddau Rhan 2 Oedolion (nifer yr unigolion sydd â chynllun gofal a thriniaeth dilys)	90% Mawrth-26	91.7% Ion-26 (Trywydd Ion-26: 90.0%)
Cynnal y gyfradd ar gyfer derbyn therapi seicolegol o fewn 26 wythnos	60% Mawrth-26	47.0% Tachwedd-25 (Trywydd 25 Tachwedd: 60.0%)
Cynnal cydymffurfiaeth â tharged cenedlaethol Rhan 1a CAMHS (asesiad wedi’i wneud o fewn 28 diwrnod)	80% Mawrth-26	96.8% Ion-26 (Trywydd Ion-26: 80.0%)
Cynnal cydymffurfiaeth â tharged cenedlaethol Rhan 1b CAMHS (ymyriad wedi’i wneud o fewn 28 diwrnod)	80% Mawrth-26	83.8% Ion-26 (Trywydd Ion-26: 80.0%)
Cynnal cydymffurfiaeth â thargedau cenedlaethol CAMHS Rhan 2	90% Mawrth-26	92.6% Ion-26 (Trywydd Ion-26: 90.0%)
Gwelliant mewn cydymffurfiaeth ag amseroedd aros niwroddatblygiad	80% Mawrth-26	51.6% Ion-26 (Trywydd Ion-26: 80.0%)
Cynnal cydymffurfiaeth o 80% ag Asesiadau o Ddewis SCAMHS o fewn 28 diwrnod o’r atgyfeiriad	80% Mawrth-26	93.2% Ion-26 (Trywydd Ion-26: 80.0%)

Ffrydiau Gwaith y Rhaglen

Datblygu Gwasanaethau sy'n Cefnogi'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Lles
Arweinydd Gweithredol: Prif Swyddog Gweithredu

Drawsnewid

Gwasanaeth Cleifion Mewnol, Gwasanaethau Cymunedol, Mynediad Agored, Dewisiadau Llety Amgen

Prif Gyflawniadau'r Rhaglen yn 25/26

Yn ystod 25/26 fe wnaethom gyflawni'r cyflawniadau canlynol:

- ✓ Cyflawnwyd cydymffurfiaeth ag Oedolion Rhan 1a o 85.7%
- ✓ Cyflawnwyd cydymffurfiaeth ag Oedolion Rhan 1b o 94.8%
- ✓ Cyflawnwyd 91.7% yng Nghyfraddau Oedolion Rhan 2
- ✓ Defnydd o PROMS wedi'i ehangu i bob ward ar draws gwasanaethau oedolion ac oedolion hŷn
- ✓ Ymgysylltiad llawn â'r Rhaglen Diogelwch Cleifion Genedlaethol
- ✓ Wedi cyflawni peilot o fodel gwasanaeth Tŷ Lafant
- ✓ Canlyniad cadarnhaol yn dilyn sawl arolygiad AGIC
- ✓ Mae pob gwasanaeth Argyfwng wedi cael ei gwmpasu fel rhan o'r gwaith o amgylch Un Pwynt Mynediad a datblygiad ein Gwasanaeth Iechyd Meddwl 111 pwyswch 2 gyda'r cynllun peilot yn dechrau ym mis Ebrill.
- ✓ Cyflawnwyd cydymffurfiaeth ag CAMHS Rhan 1a o 96.8%
- ✓ Cyflawnwyd cydymffurfiaeth ag CAMHS Rhan 1b o 83.8%
- ✓ Cyflawnwyd 92.6% yng Nghyfraddau CAMHS Rhan 2

Ffocws ar gyfer 26/27

Maes	Ymrwymïadau
Gwasanaethau Cleifion Mewnol	• Gwerthuso'r hyn a ddysgwyd o ostyngiad mewn gwelyau yn Nhŷ Lafant • Symud y gwaith o gydleoli Wardiau Oedolion Hŷn yn ei flaen; Ystyried defnyddio ward Adsefydlu Oedolion yn Llys Maindiff wrth i ni symud i Fodel Cymunedol • Cytuno ar gyfeiriad strategol yr ystâd i gefnogi Modelau Gofal cleifion mewnol • Cynlluniau pellach ar gyfer ward Adsefydlu Oedolion yn Llys Maindiff wrth i ni symud i Fodel Cymunedol
Gwasanaethau Cymunedol	• Cytuno ar egwyddorion ystâd i gefnogi Modelau Gofal sy'n seiliedig ar y gymuned • Symud y Gwasanaeth Adsefydlu Cymunedol i Oedolion yn ei flaen
Mynediad Agored	• Symud y cynllun yn ei flaen yn unol â'r Grŵp Llywio Mynediad Agored a chyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Lles • Comisiynu partneriaid trydydd sector i gefnogi Mynediad Agored
Llety Amgen	• Asesiad Cyflawn o anghenion cleifion LD • Asesiad Cyflawn o Anghenion ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion
Galluogwyr	• Achredu Ward ac ymgysylltu â'r Rhaglen Diogelwch Genedlaethol • Paratoi cofnod cleifion electronig newydd yn barod i'w osod • Archwilio'r opsiwn ar gyfer awtomeiddio robotig i gefnogi brysbennu a sgrinio cynnar, gyda chyfeirio at gymorth priodol

Cyflawni yn erbyn Nodau Strategol (26/27)

Blaenor iaeth	Llif gwaith		Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
Mynediad a Chynaliadwyedd	Cleifion sy'n aros hiraf	MD	Dechrau cyflawni cynllun gweithredu i gyrraedd y targed cenedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Asesu Cof; Cynnal targed cenedlaethol o 90% ar gyfer Cynllun Gofal Oedolion a Thriniaeth Rhan 2	Cynnal targed cenedlaethol Rhan 1a a Rhan 1b sef cydymffurfiaeth o 80% ar gyfer Oedolion; Cwblhau adolygiad o'r llwybr i wella amseroedd aros am therapïau seicolegol	Dechrau cyflawni cynllun gweithredu i gyrraedd y targed cenedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Asesu Cof; Cynnal targed cenedlaethol o 90% ar gyfer Cynllun Gofal Oedolion a Thriniaeth Rhan 2	Cynnal targed cenedlaethol Rhan 1a a Rhan 1b sef cydymffurfiaeth o 80% ar gyfer Oedolion; Cefnogi newidiadau i'r llwybr i wella amseroedd aros am therapïau seicolegol
		MD	Cynnal targed cenedlaethol CAMHS Rhan 1a a Rhan 1b sef cydymffurfiaeth o 80%; Cynnal cydymffurfiaeth o 80% ag Asesiadau Dewis SCAMHS o fewn 28 diwrnod o'r atgyfeiriad	Gwellu cydymffurfiaeth ag amseroedd aros Niwroddatblygiad (ND)Cynnal Cynllun Gofal a Thriniaeth Rhan 2 CAMHS (targed cenedlaethol) o 90%)	Cynnal targed cenedlaethol CAMHS Rhan 1a a Rhan 1b sef cydymffurfiaeth o 80%; Cynnal cydymffurfiaeth o 80% ag Asesiadau Dewis SCAMHS o fewn 28 diwrnod o'r atgyfeiriad	Cynnydd pellach tuag at gydymffurfio ag amseroedd aros ND 80%; Cynnal targed cenedlaethol Cynllun Gofal a Thriniaeth Rhan 2 CAMHS sef 90%
		MD	Dechrau ymgorffori egwyddorion Mynediad Agored drwy ehangu llwybrau hunan-atgyfeirio	Ymgysylltu â phartneriaid ar gynllun i gyflwyno gwasanaethau Mynediad Agored yn llawn ar gyfer pob oed	Gweithredu cynllun i ddatblygu gwasanaethau Mynediad Agored ar draws pob oedran	Gwerthuso cyfleoedd i ddatblygu gwasanaethau Mynediad Agored ymhellach ar gyfer pob oed
	Modelau Gofal		Cytuno ar gyfeiriad strategol yr ystâd ar gyfer model gwasanaeth lechyd Meddwl cleifion mewnol a chymunedol	Nodi gofynion ystâd iechyd meddwl ac opsiynau posibl. Cynlluniau pellach ar gyfer ward Adsefydlu Iechyd Meddwl Oedolion wrth i ni symud i Fodel Cymunedol	Cadarnhau'r dull ystad Iechyd Meddwl a ffefrir a'r camau wedi'u halinio â'r gwasanaeth a'r gweithlu; Datblygu Gwasanaeth Adsefydlu Cymunedol i Oedolion	Cynlluniau manwl wedi'u datblygu ar gyfer yr holl wasanaethau cleifion mewnol Iechyd Meddwl; Symud ymlaen â chydleoli wardiau Oedolion Hŷn Iechyd Meddwl
Gwellu Ansawdd a Phrofiad	Iechyd meddwl	MD	Cwblhau achrediad ward Oedolion Hŷn i lefel efydd o leiaf	Cwblhau achrediad ward Oedolion ac Anableddau Dysgu i lefel efydd o leiaf	Cwblhau achrediad ward Oedolion ac Anableddau Dysgu i lefel efydd o leiaf	Cwblhau achrediad ward gymunedol i lefel efydd o leiaf
		MD	Cynnal adolygiadau o farwolaethau a sicrhau bod mecanweithiau ar waith ar gyfer cofnodi yr hyn a ddysgwyd	Cynnal adolygiadau o farwolaethau a datblygu cynlluniau gwellu yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd	Gweithredu cynlluniau gwellu sy'n ymgorffori'r hyn a ddysgwyd o adolygiadau o farwolaethau	Ymgorffori cynlluniau gwellu sy'n ymgorffori'r hyn a ddysgwyd o adolygiadau o farwolaethau

Blaenor iaeth	Llif gwaith	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
Ymgorffori Gwerth ac Effeithlonrwydd	Gofal Gwell a Gofal wedi'i Gomisiynu	EA	Datblygu opsiynau llety amgen ar gyfer Anableddau Dysgu gan leihau'r cleifion sy'n cael eu hanfon y tu allan i'r ardal		Datblygu opsiynau llety lechyd Meddwl Oedolion amgen gan leihau nifer y cleifion sy'n cael eu hanfon allan o'r ardal

Disgwyliadau Perfformiad 26/27		Targed Cenedlaethol	Cyrraedd y Targed?	Llinell sylfaen	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
Cynnal Rhan 1a Oedolion i'r targed cenedlaethol (asesiad o fewn 28 diwrnod)		80%	Ie	85.7%	80%	80%	80%	80%
Cynnal Rhan 1b Oedolion i'r targed cenedlaethol (ymyrraeth o fewn 28 diwrnod)		80%	Ie	94.8%	80%	80%	80%	80%
Cynnal cyfraddau Rhan 2 Oedolion (nifer yr unigolion sydd â chynllun gofal a thriniaeth dilys)		90%	Ie	91.7%	90%	90%	90%	90%
Cynnal y gyfradd ar gyfer derbyn therapi seicolegol o fewn 26 wythnos		80%	Na	47%	56%	58%	60%	62%
Cynnal targed cenedlaethol Rhan 1a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (asesiad wedi'i gwblhau o fewn 28 diwrnod)		80%	Ie	96.8%	80%	80%	80%	80%
Cynnal targed cenedlaethol Rhan 1b Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (ymyrraeth wedi'i chwblhau o fewn 28 diwrnod)		80%	Ie	83.8%	80%	80%	80%	80%
Cynnal targed cenedlaethol Rhan 2 Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc		90%	Ie	92.6%	90%	90%	90%	90%
Gwelliant mewn cydymffurfiaeth ag amseroedd aros niwroddatblygiad		80%	Ie	51.6%	60%	60%	60%	60%
Cynnal cydymffurfiaeth o 80% ag Asesiadau o Ddewis Gwasanaethau Iechyd Meddwl Arbenigol Plant a Phobl Ifanc o fewn 28 diwrnod i'r atgyfeiriad		80%	Ie	93.2%	80%	80%	80%	80%
Rhoi camau gweithredu ar waith i sicrhau gostyngiad sylweddol yn nifer y cleifion sy'n cael eu hanfon y tu allan i'r ardal yn 2026/27, a'r costau cysylltiedig.	EA	↓	Ie	0	0	0	0	0

Galluogi Gweithredu		Llinell sylfaen		26/27
Rhoi camau gweithredu ar waith i sicrhau gostyngiad sylweddol yn nifer y cleifion sy'n cael eu hanfon y tu allan i'r ardal yn 2026/27, a'r costau cysylltiedig.	Y	0.		Dal i 0.

Effaith Ar Draws Cwrs Bywyd

Iechyd Gwell: Gyda'n gilydd byddwn yn cefnogi pobl i fod yn iach, yn actif ac yn hapus.



Dechrau'n Dda

Mae babanod, plant a'u teuluoedd yn derbyn cefnogaeth gynnar drwy lwybrau amenedigol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, negeseuon iechyd y cyhoedd wedi'u targedu, cefnogaeth well ar fwydo ar y fron, a rhaglenni atal gwell yn y blynyddoedd cynnar. Mae cefnogaeth gyffredinol a chefnogaeth wedi'i thargedu gryfach drwy fframwaith Plant Iach Cymru, optimeiddio amenedigol, rhoi'r gorau i ysmegu yn ystod beichiogrwydd, a'r rhaglen 1001 Diwrnod Critigol yn sicrhau bod plant yn cael y dechrau iachaf posibl gan leihau anghydraddoldebau o feichiogrwydd i blentyndod cynnar.



Tyfu'n Dda

Mae plant a phobl ifanc yn elwa o amgylcheddau sy'n gefnogol yn emosiynol, mynediad amserol at wasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau iechyd cryfach sy'n canolbwyntio ar atal. Mae gwelliannau i les emosiynol a chefnogaeth wedi'i thargedu i deuluoedd agored i niwed, yn hyrwyddo gwydnwch, ymddygiadau iachach, a chanlyniadau datblygiadol gwell. Bydd llais babanod, plant a phobl ifanc yn cael ei uchel leisio a bydd hyn yn llywio'r ffordd y byddwn yn teilwra gwasanaethau i ddiwallu eu hanghenion. Mae'r camau gweithredu integredig hyn yn galluogi plant a phobl ifanc i ffynnu'n gymdeithasol, yn emosiynol ac yn gorfforol wrth iddynt dyfu.



Byw yn dda:

Cefnogir oedolion i fyw bywydau iachach trwy well mynediad a mwy o degwch ar draws llwybrau sgrinio, brechiadau a rheoli pwysau. Mae niwed y gellir ei osgoi yn cael ei leihau gan atal marwolaethau cynamserol drwy raglenni sy'n lleihau ysmegu, niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol a gordewdra. Mwy o ffocws ar ymyriadau atal cymunedol gan gynnwys rheoli risg cardiofasgwlaidd a diabetes. Mae data yn ein helpu i dargedu cymorth ar gyfer y rheiny sydd ei angen fwyaf. Mae oedolion ledled Gwent yn cynnal lles, yn lleihau salwch y gellir ei osgoi, ac yn aros yn actif.



Heneiddio'n Dda

Mae pobl hŷn yn cael eu cefnogi i aros yn actif, yn annibynnol, ac yn iach yn hirach trwy waith atal wedi'i dargedu ar gyfer poblogaethau risg uchel, cefnogaeth amlddisgyblaethol integredig, rheoli iechyd y boblogaeth, a rheoli cyflyrau hirdymor yn rhagweithiol. Mae nodi'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o gael eu derbyn i'r ysbyty drwy ddefnyddio data, ynghyd â Chynllunio Gofal at y Dyfodol, rhaglenni adsefydlu, a chefnogaeth gymunedol gryfach, yn galluogi pobl i heneiddio'n iachach gan leihau argyfyngau ac anghydraddoldebau y gellir eu hosgoi yn ddiweddarach mewn bywyd.



Marw'n Dda

Mae pobl sy'n agosáu at ddiwedd oes yn profi gofal tosturiol, personol a gefnogir gan waith cynllunio rhagweithiol, cefnogaeth amlasiantaeth gydlynol, ac adnabod anghenion yn amserol. Mae gwell Cynllunio Gofal at y Dyfodol a dulliau gofal lliniarol gwell yn sicrhau bod unigolion a theuluoedd yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth, cefnogaeth, a'u trin ag urddas. Mae teuluoedd sydd wedi colli rhywun yn derbyn cefnogaeth gyson o ansawdd uchel, gan eu helpu i ddod o hyd i'w ffordd trwy eu colled gyda pharch a gofal

Atodiad 5: Datganiadau Effaith Cwrs Bywyd

Gofal Gwell: Gyda'n gilydd byddwn yn darparu'r hyn sy'n bwysig i bobl, gan gefnogi ein staff i ffynnu a chyflawni gofal o ansawdd, gofal caredig a gofal cynaliadwy.

Effaith Ar Draws Cwrs Bywyd



Dechrau'n Dda

Mae babanod, plant a theuluoedd yn profi gofal mwy diogel ac ymatebol drwy lwybrau mamolaeth, newyddenedigol a blynyddoedd cynnar cryfach. Mae gwelliannau megis gofal pontio newyddenedigol estynedig, modelau cymorth amenedigol gwell, a gwell aliniad o ran gwasanaethau yn sicrhau datblygiad cynnar iachach, genedigaethau mwy diogel, a gofal dilynol mwy cyson. Mae modelau Gofal Integredig sy'n Seiliedig ar Le a Chymorth Cynnar yn sicrhau bod teuluoedd yn derbyn cefnogaeth ddi-dor a rhagweithiol o'r cyfnod beichiogrwydd a'r cyfnod babanod.



Tyfu'n Dda

Mae plant a phobl ifanc yn elwa o fynediad gwell at ofal amserol a phriodol drwy lwybrau niwroddatblygiadol ac iechyd meddwl cyson, cefnogaeth amlddisgyblaethol gydlynol a modelau cymunedol integredig. Mae perfformiad amseroedd aros CAMHS, SCAMHS ac ND gwell, ynghyd â gallu i ddeall gofal yn well a chefnogaeth MDT yn seiliedig ar le, yn sicrhau bod plant yn derbyn cymorth yn gynharach ac yn agosach at adref. Mae gwelliannau pediatrig a newyddenedigol cryfach hefyd yn sicrhau pontio mwy diogel yn ystod cyfnodau datblygiadol allweddol.



Byw yn dda

Mae oedolion yn profi gofal mwy hygrych, cydlynol ac ataliol trwy gynaliadwydd gofal sylfaenol cryfach, llwybrau gofal brys a chymunedol gwell, a mwy o opsiynau hunangyfeirio/mynediad agored iechyd Meddwl. Mae timau cymunedol integredig, hybiau diffyg anadl, gwell diagnosteg, ac adrannau cleifion allanol a theatrau mwy effeithlon yn cynyddu dibynadwydd, yn lleihau amseroedd aros ac yn cefnogi pobl i aros yn iach gartref. Mae llwybrau iechyd menywod gwell hefyd yn gwella mynediad teg ac yn lleihau anghenion heb eu diwallu.



Heneiddio'n Dda

Cefnogir oedolion hŷn i aros yn annibynnol, yn ddiogel ac yn iach trwy lwybrau rhyddhau integredig, modelau aseswyr dibynadwy, ymateb gwell i gwympiadau, a chyflwyno Model Gofal Pobl Hŷn ledled Gwent. Mae capasiti cymunedol gwell, cefnogaeth gryfach mewn cartrefi gofal, gwelliannau i lwybrau dementia, a gwaith amlddisgyblaethol cadarn yn lleihau arosiadau diangen yn yr ysbty, yn atal dirywiad, ac yn sicrhau cefnogaeth amserol a thosturiol wedi'i theilwra i anghenion cymhleth.



Marw'n Dda

Mae pobl sy'n agosáu at ddiwedd oes yn derbyn gofal mwy cydlynol, sy'n canolbwyntio ar y person ac sy'n amserol, wedi'i gefnogi gan lwybrau rhyddhau gwell, gwaith MDT cymunedol gwell, a gofal sy'n seiliedig ar le wedi'i gryfhau. Mae llif gwell rhwng yr ysbty a'r gymuned, fframweithiau uwchgyfeirio gwell, ac mae pwyntiau mynediad mwy integredig yn sicrhau urddas, dewis a chysur. Mae defnydd cyson o ddulliau cynllunio gofal a chefnogaeth well i gartrefi gofal a thimau cymunedol yn gwella'r profiad i unigolion a'u teuluoedd ar ddiwedd oes.

Atodiad 5: Datganiadau Effaith Cwrs Bywyd

Bywydau Gwell: Gyda'n gilydd byddwn yn creu cymunedau cryf, diogel a chysylltiedig.



Dechrau'n
Dda

Mae babanod, plant a theuluoedd yng Ngwent yn profi amgylcheddau iachach, ysgolion sy'n gefnogol yn emosiynol, a rhwydweithiau cymunedol cryf sy'n eu helpu i ffynnu o'r blynyddoedd cynharaf. Mae gwasanaethau integredig sy'n canolbwyntio ar y teulu yn sicrhau gwell gwydnwch emosiynol, llai o brofiadau niweidiol yn ystod plentynod, a chanlyniadau addysgol, datblygiadol a lles gwell. Mae teuluoedd yn teimlo eu bod yn gysylltiedig, yn cael eu cefnogi, ac yn gallu creu amgylcheddau cartref meithringar sy'n helpu plant i gael dechrau da mewn bywyd.



Tyfu'n Dda

Mae pobl ifanc yn tyfu i fyny mewn cymunedau sy'n meithrin gwydnwch, cynhwysiant a chyfle. Mae ysgolion, gwasanaethau iechyd, a phartneriaid cymunedol yn cydweithio i hyrwyddo lles emosiynol, cysylltiad cymdeithasol, a ffyrdd iach o fyw. Mae pobl ifanc yn elwa o fannau cymunedol mwy diogel, a chyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cadarnhaol. Mae hyn yn arwain at les meddyliol gwell, iechyd corfforol gwell, mwy o hyder a pharodrwydd ar gyfer bod yn oedolyn.



Byw yn dda:

Mae oedolion ledled Gwent yn cael eu grymuso i gynnal a gwella eu hiechyd trwy gapasiti cymunedol cryf, rhwydweithiau lles hygyrch, a gwaith atal rhagweithiol. Mae pobl yn byw mewn cartrefi iachach, yn cael eu cefnogi i aros yn actif ac yn gysylltiedig trwy ofal integredig a chefnogaeth gan y trydydd sector sy'n mynd i'r afael ag anghenion corfforol ac emosiynol. Maent yn byw mewn cymunedau cryf, diogel a chysylltiedig sy'n gwella lles o ddydd i ddydd, yn lleihau anghydraddoldebau, ac yn galluogi pobl i fyw bywydau bodlon ac annibynnol.



Heneiddio'n
Dda

Mae pobl hŷn yn profi cefnogaeth gydlynol, sy'n seiliedig ar le, sy'n eu cadw'n actif, yn gysylltiedig, ac yn byw'n annibynnol yn hirach. Mae cymunedau, partneriaid tai, gofal cymdeithasol, a gwasanaethau gofal iechyd yn cydweithio i leihau eiddilwch, atal argyfwng rhag gwaethygu, a sicrhau cartrefi diogel a chynnes. Mae mynediad gwell at adsefydlu, llwybrau adferiad ac asedau cymunedol yn gwella hyder, symudedd a lles. Mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gallu heneiddio'n dda yn y cymunedau maen nhw'n eu galw'n gartref.



Marw'n Dda

Mae pobl sy'n agosáu at ddiwedd eu hoes yn derbyn gofal amserol, personol a thosturiol sy'n adlewyrchu eu gwerthoedd, eu dewisiadau a'u hanghenion. Mae Cynllunio Gofal at y Dyfodol wedi'i ymgorffori'n gyson ar draws lleoliadau gofal, gan sicrhau urddas, cysur a chefnogaeth gydlynol. Mae gofal seicolegol a llwybrau lliniarol arbenigol yn gwella profiad cleifion a'u teuluoedd. Mae model adnabod a chefnogi yn ystod profedigaeth dibynadwy a theg yn sicrhau bod teuluoedd yn cael gofal cyn, yn ystod ac ar ôl colled ac yn eu helpu i ymdopi a gwella.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

GWENT 35

Better health | Better care | Better lives
Iechyd gwell | Gofal gwell | Bywydau gwell

